



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Eilaidd: Cynrychiolaethau

Cyrol 5: 10179-10232

BCW-10179/ Kevin Brennan AS/ Caerdydd

Ymateb y Comisiwn Ffiniau i'r Gwrthgynigion ar gyfer Gorllewin Caerdydd

Cynnig y Ceidwadwyr Cymreig

Dymunaf fynegi fy ngwrthwynebiad yn y ffordd gryfaf bosibl i'r gwrthgynnig gan y Ceidwadwyr Cymreig mewn perthynas ag etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Mae'r gwrthgynnig hwn yn awgrymu (heb unrhyw ymresymiad cymhellol amlwg) hepgor ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd. Mae hefyd yn cynnig ychwanegu Ystum Taf, sydd ar ochr ddwyreiniol afon Taf, at etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Mae'n anodd dirnad unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o gymharu â chynnig cychwynnol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol wrth gadw holl sedd bresennol Gorllewin Caerdydd sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o afon Taf.

Mae'r Comisiwn yn ychwanegu Pont-y-clun at ran ogledd-orllewinol yr etholaeth lle mae nifer sylweddol o ddatblygiadau tai newydd ar waith, sy'n cryfhau cysylltiadau lleol rhwng Gorllewin Caerdydd a Phont-y-clun.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas, sydd i'r dwyrain o afon Taf. Mae canol y ddinas yn cynnwys eiddo masnachol yn bennaf (siopau, bwytai, bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf reilffordd ac ati) a rhai fflatiau.

Mae ward Riverside yn ardal breswyl yn bennaf, ac er gwaethaf ei henw, mae'n ymestyn ymhell o gyffiniau uniongyrchol yr afon. Mae de Riverside yn un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, mae ganddi gysylltiadau lleol agos iawn â ward gyfagos Treganna, ac mae ardal siopa leol Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sydd hefyd yn brif lwybr bysiau) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r ddwy ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn gwneud eu siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach nag yng nghanol y ddinas. Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn cwmpasu rhannau helaeth o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o breswylwyr lleol yn ei hystyried fel Treganna, gan ddod i ben, fel y mae, yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Y man lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae preswylwyr lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae rhan Pontcanna yn ychwanegu at yr amrywiaeth unigryw sy'n bodoli yn ward Riverside gan ei bod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae ward gyfagos Treganna, yn gynyddol. Mae mwyafrif llethol y plant o ward Riverside yn

mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd, maent yn mynychu, yn bennaf, Ysgol Uwchradd Fitzalan (ward Treganna), sy'n ysgol amrywiol iawn, Ysgol Gyfun Plasmawr (Y Tyllgoed), sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg, ac Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn yr un modd, mae cysylltiadau cryf rhwng ward Riverside a Llandaf. Mae Caeau Llandaf, sef man agored cyhoeddus mawr, ei hun wedi'i leoli yn ward Riverside.

Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan afon Taf, ond hefyd gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, a pharcdiroedd eang.

Gan droi at y cynnig ar gyfer Ystum Taf, unwaith eto, mae'n anodd gweld sut y byddai hyn yn agos at fod mor gydlynus â chynnig gwreiddiol y Comisiwn. Nid oes llawer sy'n gyffredin rhwng Llandaf ac Ystum Taf ac eithrio eu bod ill dau â'r elfen 'Taf' yn eu henwau. Maent ar ochrau gwahanol i'r afon ac mae'r bont wedi'i lleoli ymhell oddi wrth y tai yn ward Llandaf. Mae dinas hanesyddol Llandaf yn wahanol iawn i gymuned Ystum Taf, sydd â'i chanolfan siopa leol ei hun. Yn ymarferol, nid oes cysylltiad cryf rhwng y ddwy gymuned.

Mae ardal ystad dai Danescourt yn ward Llandaf, sydd hefyd â'i chanolfan siopa ei hun, yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Radur, ac nid oes gan yr ardal unrhyw gysylltiadau agos ag Ystum Taf. Yn wir, ceir cysylltiadau lleol rhwng Ystum Taf ac ardaloedd cyfagos yr Eglwys Newydd a Gabalfa i'r dwyrain o afon Taf, yn hytrach na ward Llandaf i'r gorllewin. Felly, mae'r cynnig hwn yn waeth na chynnig y Comisiwn o ran meini prawf Rheol 5.

Cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Byddai'r awgrym hwn yn wyriad radical iawn oddi wrth feini prawf y Comisiwn, a byddai'n creu sedd na ellid ei disgrifio'n gredadwy fel etholaeth Gorllewin Caerdydd mewn unrhyw ffordd. Mae'n ymddangos fel ôl-ystyriaeth ac o ganlyniad i newidiadau y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eu cynnig mewn mannau eraill yng Nghaerdydd, yn hytrach na chynnig cydlynus ar gyfer Gorllewin Caerdydd yn seiliedig ar feini prawf Rheol 5.

Byddai'n hepgor Radur, sydd â chysylltiad agos â wardiau cyfagos yng Ngorllewin Caerdydd ac y mae ei hysgol gyfun yn gwasanaethu'r wardiau hynny yn bennaf, e.e. Danescourt (ward Llandaf) a Chreigiau. Mae cysylltiadau cryf hefyd rhwng Pentyrch a Chreigiau. Mae'r datblygiadau tai parhaus yn yr ardal yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y wardiau hyn yng Ngorllewin Caerdydd. Nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i'w hepgor ar yr union adeg y maent yn dod yn fwy cysylltiedig oherwydd y tai newydd.

Nid yw ychwanegu wardiau Llanharan, Llanhari a Brynna yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl, gan nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â Gorllewin Caerdydd. Ymddengys eu bod wedi'u hychwanegu er mwyn cael y niferoedd cywir a chyrraedd y cwota yn unig, yn hytrach na bodloni meini prawf rheol 5, yn enwedig o ran ystyriaethau daearyddol, etholaethau presennol, a chysylltiadau lleol.

Felly, rwy'n gwrthwynebu newid cynnig y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Gorllewin Caerdydd. O ganlyniad, ni welaf fod angen newid y cynigion ar gyfer Caerdydd yn ei chyfanrwydd, sy'n galluogi cadw pedair etholaeth Seneddol gydlynus ar gyfer Prifddinas Cymru. Er hwylustod, ailadroddaf fy nghyflwyniad gwreiddiol isod.

'Rwyf wedi dadlau'n gyson mewn arolygon ffiniau diweddar, â chefnogaeth etholwyr lleol, ei bod yn ddymunol cadw sedd seneddol i'r gorllewin o afon Taf, gan adlewyrchu cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth sy'n bodoli yng Ngorllewin Caerdydd.

Mae'r Comisiwn, yn ei gynigion mewn ffurfiau ychydig yn wahanol, wedi cefnogi'r drefn honno yn ei gynigion diweddaraf. Mae'r cynnig drafft diweddaraf yn dychwelyd at drefn flaenorol a gefnogwyd gan y Comisiwn wrth ychwanegu ward Pont-y-clun. Er bod y ward hon y tu allan i ffiniau Dinas a Sir Caerdydd, mae'n adlewyrchu'r datblygiadau tai diweddar yng ngogledd-orllewin yr etholaeth sy'n ymestyn i gyfeiriad Pont-y-clun. O ystyried y cyfyngiadau sydd ar y Comisiwn, mae'n anodd gweld sut y byddai unrhyw gynnig amgen yn bodloni'r egwyddorion y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu dilyn, heb effeithio'n sylweddol ar gydlynid cynrychiolaeth seneddol ledled Caerdydd yn gyffredinol.

Felly, rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer Gorllewin Caerdydd, a hefyd ar gyfer Caerdydd yn gyffredinol.'

BCW-10180/ Cyng Stephen Cunnah/ Caerdydd

Rwy'n gynghorydd sy'n cynrychioli ward Treganna ar Gyngor Caerdydd. Hoffwn wneud sylwadau ynghylch y cynigion ar gyfer etholaeth Gorllewin Caerdydd newydd. Rwy'n cefnogi yn gryf sylwadau a gyflwynwyd gan AS Gorllewin Caerdydd, Kevin Brennan. Rwy'n cytuno ei bod yn ddymunol cadw sedd San Steffan wedi'i lleoli i'r gorllewin o Afon Taf, gan adlewyrchu cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth Gorllewin Caerdydd.

Yn dilyn ymlaen o'i safbwynt ef, hoffwn wrthwynebu yn gryf hefyd y gwrthgynnig ar gyfer etholaeth Gorllewin Caerdydd a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Mae hwn yn cynnig symud ward Riverside i etholaeth Canol Caerdydd newydd, yr wyf i o'r farn arbennig fyddai'n gamgymeriad.

Mae ward Riverside yn chwaer-ward i Dreganna. I'r trigolion hynny nad ydynt yn ddilynwyr agos o ffiniau etholaethol lleol, mae'n anodd gwybod ble mae'r un ward yn dod i ben a'r llall yn cychwyn. Mae Neuadd Gymunedol Treganna, ystâd dai Canton Court, y Canton Hotel, a Thafarn Treganna i gyn yn ward "Riverside". Hyd yn oed wrth fynd i mewn i ward Riverside ar ei phwynt mwyaf dwyreiniol, ar lannau afon Taf, cyfeirir at y bont sy'n croesi i orllewin Caerdydd o ganol y ddinas yn lleol fel "Pont Treganna".

Mae'r ddwy ward yn rhannu cymaint o wasanaethau arwyddocaol. Er enghraifft:

- Mae Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn rhedeg drwy'r ddwy ward, calon fasnachol gorllewin Caerdydd.
- Rhennir dalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ar draws y wardiau.
- Mae gwasanaethau cyngor eraill a drefnir yn lleol yn cwmpasu'r ddwy ward, er enghraifft maent yn rhannu Llyfrgell Treganna, Neuadd Gymunedol Treganna, a hyd yn oed yr un diwrnod casglu biniau.
- Caiff gwasanaethau gofal sylfaenol eu cynllunio ar draws y ddwy ward.
- Caiff plismona lleol ei reoli ar draws y ddwy ward.
- Trefnir llawer o'r mannau addoli ar draws y ddwy ward.
- Mae bron i bob gwasanaeth bws lleol sy'n gwasanaethu gorllewin y ddinas yn teithio trwy Dreganna a/neu Riverside cyn terfynu yng nghanol y ddinas.

Mae Riverside yn rhan annatod o orllewin Caerdydd mewn cynifer o ffyrdd. Yn syml, nid yw'n rhannu'r cysylltiadau hyn â rhannau eraill o'r ddinas ar yr ochr arall i Afon Taf.

BCW-10181/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 28 Mawrth 2022 21:43

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau i ffiniau ward Riverside

Helo,

Hoffwn fynegi fy ngwrthwynebiad cryf iawn i'r cynnig i symud ward Riverside i etholaeth Canol Caerdydd.

Ar ôl byw drwy gydol fy oes yn y ward ardderchog hon, gwn bod ganddi gysylltiad diwylliannol annatod â Gorllewin Caerdydd.

Mae teuluoedd, ffrindiau a grwpiau crefyddol a diwylliannol yn rhannu cysylltiad unigryw o fewn Gorllewin Caerdydd.

Mae llawer wedi mynychu ysgolion cynradd lleol ac yna mynd ymlaen i astudio yn Ysgol Uwchradd Fitzalan. Timau chwaraeon a sefydliadau ieuenctid lleol.

Rhennir meddygfeydd teulu hefyd ac mae materion lleol sy'n wynebu cymunedau yn Nhreganna yn gorgyffwrdd â Riverside. Y prif ganolfan siopa i bobl yn Riverside yw siopau Treganna.

Pam ydych chi'n gwneud y newid hwn?

Gadewch Riverside fel y mae os gwelwch yn dda.

Diolch

[REDACTED]

Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Y gymuned lleiafrifoedd ethnig fwyaf yn Abertawe yw'r gymuned Bangladeshaidd ac rydym yn ysgrifennu ar ran y gwahanol sefydliadau Bangladeshaidd sy'n eu cynrychioli i gefnogi'r gwrthgynnig sydd ynghlwm i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a gyflwynwyd gan [REDACTED] ac a gefnogir gan [REDACTED] ar 1 Mawrth yn Abertawe.

I grynhoi, mae'r gwrthgynnig

1. Yn ail-uno'r gymuned Bangladeshaidd, ochr yn ochr â chymunedau lleiafrifoedd eraill, mewn un etholaeth hy Gorllewin Abertawe a Gŵyr
2. Yn cadw ffin naturiol Afon Tawe ffin etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe
3. Yn ymestyn tua'r gorllewin i benrhyn Gŵyr (gan uno cyngor cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth)
4. Yn ail-uno Uplands a Sgeti ac felly yn ail-gyfuno Uplands, canol y dref a Townhill gyda Sgeti, Mayals, Dynfant a Chilâ. Mae'r cymunedau hyn wedi'u hintegreiddio yn dda, yn enwedig rhwng Sgeti, lle mae campws y Brifysgol a'r ysbyty wedi'u lleoli, ac Uplands, lle mae'r myfyrwyr a chymunedau eraill sy'n gysylltiedig â Sgeti a thua'r gorllewin yn byw.
5. Yn creu etholaeth Gogledd Abertawe cydlynol o bentrefi gwledig a lled-wledig a threfi gan gynnwys cymunedau cyfagos a Chymraeg eu hiaith cysylltiedig
6. Mae'r cysylltiadau lleol o fewn cymunedau a rhwng gwahanol gymunedau lleiafrifoedd wedi cael eu hadeiladu dros flynyddoedd lawer, a byddai'n rhwygol ac yn niweidiol i'w rhannu rhwng gwahanol etholaethau fel yr awgrymwyd gan gynigion gwreiddiol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae wedi bod o gymorth cael un Aelod Seneddol i ni weithio ag ef.
7. Mae'r gwrthgynnig sydd ynghlwm yn awgrymu etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr sy'n edrych tua'r gorllewin ac nid tua'r dwyrain, sy'n rhywbeth y mae'r gymuned Bangladeshaidd a chymunedau lleiafrifoedd eraill yn ei gefnogi yn gryf gan ein bod wedi cael croeso mwy cynnes tua'r gorllewin yn hanesyddol
8. Bydd yr ystyriaeth hon yn dod yn bwysicach yn ystod cyfnod economaidd cynyddol anodd a phan fo ymfudo yn cynyddu o fannau lle ceir rhyfeloedd

Felly rydym yn cefnogi'r gwrthgynigion sydd ynghlwm yn fawr o ran y cydlyniant cymunedol a llesiant y gymuned Bangladeshaidd a chymunedau lleiafrifoedd eraill. Mae hefyd yn gwneud llawer mwy o synnwyr o ran y ddaearyddiaeth a chysylltiadau sefydledig ar gyfer gwaith, hamdden ac addoli.

Diolch yn fawr a chofion gorau

[REDACTED]
Ar ran cymuned Bangladesh aidd Abertawe

[REDACTED]
Fel ymddiriedolwr Mosg a Chanolfan Gymunedol Abertawe

[REDACTED]
Ar ran Mosg a Chanolfan Gy. munedol Abertawe

[REDACTED]
Is-gadeirydd Cymdeithas Lles Bangladesh (Cangen Abertawe)

BCW-10183/ [REDACTED] / Llanwrda

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 28 Mawrth 2022 15:15

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynnig Cil-y-cwm/Ceredigion

Syriaid

Rwy'n gwrthwynebu yn gryf y cynnig i wneud Cil-y-cwm yn rhan o Geredigion. Er bod Llyn Brianne yng Ngheredigion, mae wedi ei wahanu oddi wrth weddill y sir gan wylltir olaf Cymru, â dim ond llwybr uniongyrchol cul a pheryglus drwodd i Dregaron. Mae'r rhan fwyaf o Cil-y-cwm yn agos at ffordd brifwythiennol yr A40, sy'n golygu mai Llandeilo a Chaerfyrddin yw ein canolfannau cymunedol naturiol.

Y canlyniad mwyaf rhesymegol fyddai ein cynnwys yn sedd newydd Caerfyrddin, oherwydd y cysylltiadau cymunedol a hanesyddol hyn fel ein Hysbyty Cyffredinol yng Nglangwili.

Yn gywir

[REDACTED]

BCW-10184/ [REDACTED] / Pwll-trap

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 28 Mawrth 2022 23:11

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau arfaethedig i ffiniau.

Rwy'n credu bod y cynnig i gyfuno ein hardal ni, sef Pwll-trap yn Sanclêr, yn gysylltiadau cymunedol â Llanelli wedi cael ei wneud gan unigolyn neu unigolion nad ydynt wedi ystyried cymeriadau hanesyddol a gwahanol y ddwy ardal. Hoffwn bleidleisio yn erbyn y cynigion hyn. Os oes unrhyw beth arall y gallwch fy nghynghori i'w wneud, yna mae fy nghyfeiriad e-bost i gennych chi.

[REDACTED]

BCW-10185/ Anna McMorris AS/ Gogledd Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 09:49

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau – Anna McMorris AS

I bwy bynnag a fynno wybod,

Atodaf gyflwyniad ffurfiol i'r Comisiwn Ffiniau gan Anna McMorris, AS Gogledd Caerdydd.

Diolch yn fawr,

[REDACTED]

Trwy e-bost: bcw@boundaries.wales

28 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn

28 Mawrth 2022

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd fel Aelod Seneddol Gogledd Caerdydd. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a'r tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd – sef Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn mynd i'r afael â'r gwrthgynigion a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Yn gyntaf, hoffwn fynd i'r afael â'r cyd-destun ar gyfer cynnal yr Arolwg Ffiniau. Rwy'n pryderu ynghylch effaith seilio'r Arolwg ar ffigurau cofrestru pleidleiswyr unigol yn ystod cyfnod pan oedd pandemig y coronafeirws yn ei anterth. Roedd Awdurdodau Lleol wedi'u hymestyn y tu hwnt i'w capasiti, ac yn darparu gwasanaethau rheng flaen i'n cymunedau yn hytrach na blaenoriaethu mewnbynnu data.

Rwy'n credu bod y penderfyniad hwn yn effeithio'n anghymesur ac yn andwyol ar etholaethau â niferoedd uchel o bobl ifanc, myfyrwyr, cymunedau mudol a chymunedau difreintiedig, a allai fod yn llai tebygol o fod ar y gofrestr etholiadol. Rwy'n credu y dylai cyfartalu etholaethau fod yn seiliedig ar y boblogaeth gyffredinol o oedolion, nid dim ond y rhai ar y gofrestr etholiadol. Fel Aelod Seneddol, rwy'n cynrychioli pawb yn fy etholaeth yn gyfartal, nid dim ond y rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio.

Cynigion Cychwynnol

Croesawaf y Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd – yn rhinwedd fy swydd fel yr Aelod Seneddol, ond hefyd fel preswlydd lleol – a fyddai'n golygu y cedwir Gogledd Caerdydd fel y mae i raddau helaeth ond gan ychwanegu Ffynnon Taf. Hefyd, croesawaf y Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth, a fyddai, ar y cyfan, yn golygu mai dwy ward yn unig yng Nghaerdydd fyddai'n symud o un etholaeth i etholaeth arall.

Rwy'n deall nad yw etholaeth Gogledd Caerdydd yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, rwy'n croesawu cynnig synhwyrol y Comisiwn i gyfuno holl etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd â ward etholiadol Ffynnon Taf i ffurfio etholaeth a fyddai'n bodloni'r amrediad etholiadol statudol. Yn yr un modd, o ystyried bod Canol Caerdydd yn rhy fach a De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynigion i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymni i Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w croesawu.

Mae cynigion y Comisiwn yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol â ffin naturiol afon Taf, ac felly byddai Ffynnon Taf yn ychwanegiad naturiol at etholaeth Gogledd Caerdydd. Mae cysylltiadau trafndiaeth da yn bodoli eisoes rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, ar y rheilffordd ac ar y ffyrdd. Mae cysylltiadau trafndiaeth da ar hyd ffordd yr A470 a Manor Way rhwng yr ardaloedd hyn, sy'n gwneud y cynigion hyn yn synhwyrol ac felly i'w croesawu.

Mae'r Comisiwn yn gywir i gydnabod a pharchu'r ardaloedd sydd eisoes â chysylltiadau cymunedol yng Ngogledd Caerdydd:

Yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf

Ceir llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf. Mae llawer o blant sy'n byw yn yr Eglwys Newydd yn mynychu ysgolion yn Ystum Taf, o ystyried agosrwydd y ward at gyrion ward yr Eglwys Newydd, megis Ysgol Glantaf ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen. O ystyried ffin naturiol afon Taf, mae pobl yr Eglwys Newydd a phobl Ystum Taf yn teimlo'n gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas yn mynd tuag at yr Eglwys Newydd ac mae'r cysylltiadau hyn yn hirsefydlog. Mae'r ddwy ward yn rhannu llawer o amwynderau a gwasanaethau.

Ystum Taf a Gabalfa

Mae Ystum Taf a Gabalfa yn wardiau cyfagos sydd â chysylltiadau annatod. Maent wedi'u cysylltu gan un o'r ystadau tai hynaf yng Nghymru sy'n pontio'r ddwy ward hyn, a daw'r ddwy gymuned at ei gilydd wrth gylchfan Gabalfa. Mae preswylwyr Gabalfa ac Ystum Taf fel ei gilydd yn ystyried stryd fawr yr Eglwys Newydd fel y brif ardal siopa, ac mae cylchfan Gabalfa yn cysylltu'r tair ward.

Y Mynydd Bychan a Llanisien

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio â ward Llanisien. Ceir cysylltiad agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig o ran cysylltiadau trafnidiaeth, ond hefyd o ran dalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O ystyried agosrwydd ysgolion megis Ton yr Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw gerllaw yn Llanisien yn mynychu'r ysgolion hyn. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, gyda llinell reilffordd yn rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad i gyfleusterau megis Canolfan Hamdden Llanisien, Cardiff Lifestyle Shopping Park, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Gwrthgynigion

Am y rhesymau a nodir uchod o ran cydnabod cysylltiadau cymunedol hirsefydlog sy'n bodoli yng Ngogledd Caerdydd, hoffwn fynegi fy mhryder dwfn ynghylch gwrthgynnig y Blaid Geidwadol mewn perthynas â ffiniau Gogledd Caerdydd, a fyddai'n golygu bod Ystum Taf yn symud o Ogledd Caerdydd i Orllewin Caerdydd, ac ychwanegu Trowbridge at Ogledd Caerdydd.

Fel y nodir, mae ffin naturiol afon Taf, a rhannu amwynderau, ysgolion a gwasanaethau, yn golygu bod cymunedau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo'n gysylltiedig iawn. Yn yr un modd, byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn tynnu llinell drwy ystad Mynachdy – sydd yn gyfan gwbl yng Ngogledd Caerdydd. Pe bai Ystum Taf yn symud i Orllewin Caerdydd, byddai hynny'n rhannu un o ystadau tai hynaf Cymru yn ddwy, gan fod rhan ohoni yng Ngabalfa. Caiff y tair cymuned hyn eu cysylltu a'u cyrchu trwy gylchfan Gabalfa, ac ni ddylid anwybyddu'r cysylltiadau lleol sy'n bodoli.

Mewn cyferbyniad, nid oes unrhyw gysylltiad naturiol rhwng Ystum Taf ac ochr arall yr afon yng Ngorllewin Caerdydd, a heb gysylltiadau trafnidiaeth na chysylltiadau cymunedol

gwirioneddol, ni theimlir unrhyw ymdeimlad o berthyn. Nid oes llawer yn gyffredin rhwng Ystum Taf a Llandaf, ac eithrio'r enwau sy'n cynnwys yr elfen 'Taf'. Gan eu bod ar y naill ochr a'r llall i'r afon, mae dinas hanesyddol Llandaf yn wahanol iawn i gymuned Ystum Taf, sydd â'i hardal siopa ei hun. Mae gan Ystum Taf gysylltiadau lleol ag ardaloedd cyfagos yr Eglwys Newydd a Gabalfa i'r dwyrain o afon Taf, sy'n gwneud cynigion y Comisiwn yn fwy addas.

Nid oes ychwaith unrhyw gysylltiad naturiol rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig o ganlyniad.

Byddai'r addasiad hwn yn groes i Reol 5 o ran parchu cysylltiadau lleol. Felly, mae'n anodd dirnad unrhyw resymeg yn y cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd, o gymharu â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn i gadw etholaeth Gogledd Caerdydd yn gyfan ond gan ychwanegu Ffynnon Taf, sy'n effeithio ar ddwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn lle tair, fel y cynigiwyd gan y Ceidwadwyr.

Yn yr un modd, mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Byddai'r gwrthgynnig hwn yn gweld Gabalfa a'r Mynydd Bychan, sydd ar hyn o bryd yng Ngogledd Caerdydd, yn symud i Ganol Caerdydd. Fel y nodir uchod mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng Gabalfa a'r Mynydd Bychan, mae'r cynnig hwn eto'n methu ystyried y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Mae ward y Mynydd Bychan wedi'i chysylltu'n agos â Llanisien a'r Eglwys Newydd fel wardiau cyfagos, ac mae'r cymunedau hyn wedi'u cysylltu nid yn unig gan drafnidiaeth ond gan ddalgylchoedd ysgolion hefyd.

I grynhoi, mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau etholaethau presennol a chysylltiadau lleol a effeithir gan newidiadau etholaethol. Mae gwrthgynigion y Blaid Geidwadol yn symud tair ward a gwrthgynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd, yn hytrach na dwy ward arfaethedig y Comisiwn. Rwyf hefyd wedi amlinellu'r effaith sylweddol a ddaw yn sgil torri cysylltiadau lleol o ganlyniad i'r ddau wrthgynnig, a fyddai'n waeth na chynigion y Comisiwn.

Nid wyf yn cefnogi'r un o'r gwrthgynigion hyn a byddwn yn dadlau y dylid eu gwrthod ar sail yr hyn a nodaf uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn nad yw maint etholaethau Caerdydd yn bodloni gofynion statudol a rhaid gwneud newidiadau er mwyn bodloni'r amrediad etholiadol statudol. Croesawaf Gynigion Cychwynnol y Comisiwn gan fy mod yn credu eu bod yn ddull synhwyrol o ymdrin â newidiadau o'r fath. Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth Seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholiadol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf, ac maent hefyd yn llai aflonyddgar ac yn parchu cysylltiadau lleol ar sail ystyriaethau daearyddol a'r ffactorau statudol o fewn y Ddeddf.

Diolch i chi am roi eich ystyriaeth i'r mater hwn.

Yr eiddoch yn gywir,



Anna McMorrin AS

Aelod Seneddol Gogledd Caerdydd

Member of Parliament for Cardiff North

BCW-10186/ [REDACTED] / Llangeler

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 28 Mawrth 2022 15:03

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc:

Annwyl Syr/Fadam

Mae wedi dod at fy sylw bod cynnig yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ceredigion i symud ward Cenarth a Llangeler i etholaeth Ceredigion newydd.

Fel un o drigolion plwyf Llangeler ers 39 mlynedd, fy marn gref yw y dylid gwrthwynebu'r cynnig hwn.

Mae Afon Teifi wedi bod yn ffin naturiol rhwng siroedd Caerfyrddin a Cheredigion erioed, a Chaerfyrddin fu'r ganolfan weinyddol erioed.

Yn yr un modd, bu plwyfi Llangeler a Chenarth yn gysylltiedig yn hanesyddol ag ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â chymunedau a chyfleusterau yn Sir Gaerfyrddin ac yn cyd-fynd yn naturiol â'r sir ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiadau gweinyddol â Cheredigion, ac eithrio'r cyfnod o amser pan roedd tair sir Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion yn un yn sir hynod amhoblogaidd Dyfed.

Yn hanesyddol ac yn ddaearyddol mae ein cysylltiadau yn Llangeler a Chenarth wedi bod gyda Chaerfyrddin a Sir Gaerfyrddin a byddai'n amhriodol i'r wardiau gael eu symud a byddwn yn awgrymu'n gryf mai cynigion presennol y Comisiwn Ffiniau yw'r rhai cywir ac y dylid cynnwys ward Cenarth a Llangeler yn sedd newydd Caerfyrddin.

Yn gywir,

[REDACTED]

Bydd y cyflwyniad hwn yn cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, y gwrthgynigion a'u cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylystod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad wedi'i gyfyngu gan hynny felly.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel trigolyn. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae etholaethau mawr nodweddiadol wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O gofio bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymni yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd â chysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. I raddau helaeth iawn, dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol iawn o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn edrych tuag at ardal siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae'r plant yn ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed yn ddaearyddol. Mae trigolion y ddwy ward yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield yn enwedig ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu, ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Y prif fan chwarae yw Cae Chwarae Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Gwnaed sawl gwrthgynnig yn ymwneud â Chanol Caerdydd a thair etholaeth gyfagos Caerdydd. Ar ôl darllen y gwrthgynigion a gwrandao ar y dystiolaeth lafar a'r cwestiynau a'r atebion yn ymwneud â nhw yng ngwrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd ddydd lau 17 Chwefror 2022, awgrymaf nad ydynt yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf.

Gwrthgynnig y Blaidd Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb unrhyw resymeg gymhellol amlwg) symud ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd canfod unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o'u cymharu â chynnig gwreiddiol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), y mae'r cyfan ohoni i'r dwyrain i Afon Taf. Ceir eiddo masnachol (siopau, bwytai,

bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) a rhai fflatiau yng nghanol y ddinas yn bennaf.

Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac er gwaethaf ei henw mae'n ymestyn ymhell i ffwrdd o gyffiniau uniongyrchol yr afon. De Riverside yw un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, â chysylltiadau agos iawn â Threganna gyfagos gydag ardal siopa'r ardal, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sef y prif lwybr bysiau hefyd) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r 2 ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn mynd i siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. A dweud y gwir, mae rhannau mawr o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o drigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae ardal Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Riverside trwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae Treganna gyfagos yn gynyddol. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu ysgol uwchradd hynod amrywiol Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn ymarferol, prin iawn yw'r cysylltiadau cymunedol ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol hynod arwyddocaol Afon Taf, ond gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, ac ardaloedd mawr o dir parc.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth. Mae hyn eto yn anwybyddu cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth Gogledd Caerdydd ddiwygiedig. Nid oes unrhyw gysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontprenau a Phentref Llanelwyr. Yn wir, mae'r cysylltiadau trafniadaeth yn arbennig o gyfyngedig rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward hyn, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig hwn, sy'n dychwelyd Tredelerch a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd

Bychan at Ganol Caerdydd eto yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae gan ward Gabalfa gysylltiadau agos iawn â ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, un o ystadau tai hynaf Cymru, yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa ynghyd. Mae trigolion yng Ngabalfa ac yn Ystum Taf yn edrych tuag ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ward Llanisien. Ceir cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ond trwy ddalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O gofio lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw yn gyfagos yn Llanisien yn mynychu. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, a cheir rheilffordd sy'n rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad at amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair.

Mae'r gwrthgynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i wahanol etholaeth.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth ac mae ateb y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y gwahanol wrthgynigion i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n datgan felly y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

Bydd y cyflwyniad hwn yn cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, y gwrthgynigion a'u cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylystod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad wedi'i gyfyngu gan hynny felly.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel trigolyn. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae etholaethau mawr nodweddiadol wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O gofio bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymini yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd â chysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. I raddau helaeth iawn, dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol iawn o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn edrych tuag at ardal siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae'r plant yn ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed yn ddaearyddol. Mae trigolion y ddwy ward yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield yn enwedig ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu, ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Y prif fan chwarae yw Cae Chwarae Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Gwnaed sawl gwrthgynnig yn ymwneud â Chanol Caerdydd a thair etholaeth gyfagos Caerdydd. Ar ôl darllen y gwrthgynigion a gwrando ar y dystiolaeth lafar a'r cwestiynau a'r atebion yn ymwneud â nhw yng ngwrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd ddydd lau 17 Chwefror 2022, awgrymaf nad ydynt yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf.

Gwrthgynnig y Blaidd Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb unrhyw resymeg gymhellol amlwg) symud ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd canfod unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o'u cymharu â chynnig gwreiddiol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), y mae'r cyfan ohoni i'r dwyrain i Afon Taf. Ceir eiddo masnachol (siopau, bwytai,

bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) a rhai fflatiau yng nghanol y ddinas yn bennaf.

Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac er gwaethaf ei henw mae'n ymestyn ymhell i ffwrdd o gyffiniau uniongyrchol yr afon. De Riverside yw un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, â chysylltiadau agos iawn â Threganna gyfagos gydag ardal siopa'r ardal, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sef y prif lwybr bysiau hefyd) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r 2 ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn mynd i siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. A dweud y gwir, mae rhannau mawr o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o drigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae ardal Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Riverside trwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae Treganna gyfagos yn gynyddol. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu ysgol uwchradd hynod amrywiol Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn ymarferol, prin iawn yw'r cysylltiadau cymunedol ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol hynod arwyddocaol Afon Taf, ond gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, ac ardaloedd mawr o dir parc.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth. Mae hyn eto yn anwybyddu cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth Gogledd Caerdydd ddiwygiedig. Nid oes unrhyw gysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontprenau a Phentref Llanelwyr. Yn wir, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn arbennig o gyfyngedig rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward hyn, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig hwn, sy'n dychwelyd Tredelerch a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd

Bychan at Ganol Caerdydd eto yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae gan ward Gabalfa gysylltiadau agos iawn â ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, un o ystadau tai hynaf Cymru, yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa ynghyd. Mae trigolion yng Ngabalfa ac yn Ystum Taf yn edrych tuag ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ward Llanisien. Ceir cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ond trwy ddalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O gofio lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw yn gyfagos yn Llanisien yn mynychu. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, a cheir rheilffordd sy'n rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad at amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair.

Mae'r gwrthgynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i wahanol etholaeth.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth ac mae ateb y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y gwahanol wrthgynigion i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n datgan felly y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

Rwy'n cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, gwrthgynigion ac yn cyfeirio at eu cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad yn nodi felly bod y gofrestr etholiadol ar gyfer ardal fel Canol Caerdydd yn anwadal ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu'r boblogaeth wirioneddol, oherwydd y 'troi allan' a achosir gan nifer y myfyrwyr a'r bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal hon.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel cynghorydd lleol. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer seddi eraill Caerdydd.

Mae etholaeth Canol Caerdydd wedi bod yn rhy fach ers nifer o flynyddoedd, ac yn yr un modd mae etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, felly mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymni yn synhwyrol.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod yn briodol cysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol, a dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Cydnabyddir hyn yn yr un modd gan yr Awdurdod Lleol yn ei gynlluniau manau siopa ardal. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu gan gynigion y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (Pen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (Cyncoed) yn bennaf.

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan/Plasnewydd yn ystyried eu bod yn byw yn y Rhath, ac yn cydnabod y Rhath yn hytrach nag enwau eu wardiau etholiadol. Mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae trigolion Pen-y-lan yn edrych tuag at ardaloedd siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae eu plant yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays/Ysgol Uwchradd Caerdydd, gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Plasnewydd ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae trigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn byw yn y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu trwy nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath/Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed. Mae trigolion yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafniadaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Gwrthgynigion

Ar ôl darllen y gwrthgynigion nid wyf yn credu eu bod yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf, sy'n nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylustod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Gwrthgynnig y Blaid Geidwadol

Nid yw cynnwys ward Riverside yng Nghanol Caerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr ac nid yw'n cynnig unrhyw resymeg gymhellol. Nid yw'n gynnig cystal ag un y Comisiwn. Mae'n methu â bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy wahanu ward Gorllewin Caerdydd sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o Afon Taf.

Nid yn unig y mae ward Riverside wedi'i gwahanu yn ffisegol o ganol y ddinas (ward Cathays) gan Afon Taf a Pharc Bute, ond mae hefyd yn wahanol iawn o ran cymeriad. Ceir eiddo masnachol annomestig a rhai fflatiau preswyl yng nghanol y ddinas yn bennaf. Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac mae'n ymestyn ymhell i'r gorllewin oddi wrth yr afon.

Mae cysylltiadau agos Riverside â Threganna yn golygu na all trigolion wahaniaethu rhyngddynt, a cheir cyd-bwyslais cymdeithasol ar ardal siopa Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Mae gwahanu'r ddwy ward hyn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol hyn. Mae rhannau mawr o'r ardal y byddai trigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae Riverside a Threganna yn gartrefi i nifer unigryw o siaradwyr Cymraeg. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu Ysgol Uwchradd Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Mae symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth eto yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Nid oes unrhyw gysylltiadau ystyrion rhwng Llanrhymni a Phontpennau a Phentref Llanelwyr. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig yn atal unrhyw gysylltiadau cymunedol, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae'r gwrthgynnig hwn yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae dychwelyd Tredelerch/Llanrhymni i Dde Caerdydd ac ychwanegu Gabalfa/y Mynydd Bychan at Ganol Caerdydd yn torri cysylltiadau lleol cryf presennol.

Mae gan Gabalfa gysylltiadau agos iawn ag Ystum Taf, ac mae Ystâd Gabalfa yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa at ei gilydd.

Mae'r Mynydd Bychan yn ffinio Llanisien a cheir cysylltiadau cymunedol agos, cysylltiadau trafnidiaeth da, dalgylchoedd ysgol a rennir, gwasanaethau ac

amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, a pharciau. Mae lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen (y Mynydd Bychan) yn cael eu mynychu gan lawer o blant sy'n byw yn Llanisien.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair ward o etholaethau presennol. Mae gwrthgynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward i wahanol etholaethau.

Mae'r ddau gynnig hyn yn ateb gwaeth na chynigion cychwynnol y Comisiwn, sy'n symud dwy ward yn unig.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Mae'r ddau gynnig hyn yn atebion gwaeth na chynigion cychwynnol y Comisiwn ac mae cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Er bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion, mae gan y gwahanol wrthgynigion (fel y nodir uchod) i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

**BCW-10190/ [REDACTED] Cangen Gabalfa, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais
y Blaid Lafur/ Caerdydd**

Drwy e-bost: bcw@boundaries.wales

Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn

Rwy'n ysgrifennu fel Ysgrifennydd Cangen Gabalfa, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais y Blaid Lafur ac un o drigolion Gabalfa ers 25 mlynedd.

Rwyf hefyd yn un o gyfarwyddwyr yr elusen *Our Mynachdy Community* sy'n rhedeg Canolfan Gymunedol Mynachdy. Adeiladwyd y ganolfan gymunedol hon gan ac ar gyfer Cymdeithas Les Mynachdy - a sefydlwyd yn y 1920au ar gyfer trigolion ystâd tai cyngor gyntaf Caerdydd. Rhannwyd yr ystâd honno yn ddwy gan Rodfa'r Gorllewin ond mae ei thrigolion yn cadw cysylltiadau agos teulu a chyfeillgarwch sydd bellach yn cael eu crynhoi yn aelodaeth o *Our Mynachdy Community* a chefnogaeth i'r elusen. Gweithiodd cynghorwyr Rhyddfrydol Gabalfa a chynghorwyr Llafur Ystum Taf ynghyd ag Anna a Julie a chyngor y ddinas i sicrhau'r ganolfan gymunedol a adfywiwyd yn ddiweddar.

Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a byddaf yn cyfeirio yn gryno at y tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd - Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn rhoi sylw i'r gwrthgynigion a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gysylltiedig â Gogledd Caerdydd.

Rwy'n croesawu i raddau helaeth y Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n golygu bod yr etholaeth yn aros fwy neu lai yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Fodd bynnag, rwy'n teimlo bod cydlyniant ffiniau Cyngor Dinas Caerdydd a'i phedair sedd San Steffan/Senedd wedi bod yn ffactor fawr yng nghynrychiolaeth effeithiol pobl Caerdydd, a Gogledd Caerdydd yn arbennig. Rwy'n gwybod yn iawn pa mor bwysig y mae gwaith gweithwyr achos Anna McMorris AS a Julie Morgan AS wedi bod i sicrhau cymorth i drigolion a sut y mae wedi cydblethu â chymorth ein cynghorwyr lleol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, yn eu cyfanrwydd, yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fyddai'n newid etholaeth. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymni at Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn

cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol Afon Taf ac o gofio'r cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos fel ychwanegiad naturiol at yr etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tuag at yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf o Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth prin a dim synnwyr o gysylltiad â'i gilydd. Prin sydd gan y ddwy gymuned ar y naill ochr i'r afon a'r llall yn gyffredin ac eithrio'r enw Saesneg ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol ac nid yw'n cydnabod y cysylltiadau lleol presennol chwaith.

Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn cynyddu yn anghyfiawn y niwed a wnaed i Fynachdy pan adeiladwyd Rhodfa'r Gorllewin ac y rhoddwyd traffordd yn syth drwy un o'r ystadau tai hynaf yng Nghymru, a'r cyntaf yng Nghaerdydd.

Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd yn gysylltiedig a cheir mynediad atynt trwy gylchfan Gabalfa sef y llwybr naturiol i gerddwyr a beicwyr, yn enwedig wrth fynd i Ysbyty'r Mynydd Bychan ac oddi yno fel cleifion neu fel gweithwyr ieuchyd a myfyrwyr. Bydd y llwybr hwnnw yn cael ei atgyfnerthu nawr gyda chynlluniau ar gyfer gorsaf Metro newydd Gabalfa ar lard Lo Mynachdy. Hon fydd yr orsaf nesaf ar ôl Llandaf (yn Ystum Taf) ac mae'n adlewyrchiad pellach o'r ffaith fod cymunedau Gogledd Caerdydd ar lan ddwyreiniol afon Taf. Mae cysylltu Ystum Taf â Llandaf yn mynd yn groes i natur a hanes.

Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol chwaith rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig dilynol rhwng Trowbridge a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n golygu bod Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau nesaf at ei gilydd, mae gan y Mynydd Bychan gysylltiadau agos â Llanisien o ran trafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Lifestyle Caerdydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I grynhoi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a'r rhain sy'n tarfu leiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng

Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynigion.

Diolch am roi eich ystyriaeth i hyn.

Yn gywir,

[REDACTED]

BCW-10191/ [REDACTED] Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful/ Merthyr Tudful

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 11:36

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: FW: Adolygiad Ffiniau Seneddol - Merthyr Tudful [HEB EI NODI YN AMDDIFFYNNOL]

Bore da,
Roeddem ni'n hwyr yn cyflwyno ymateb yn y rownd ymgynghori gyntaf, felly roeddem ni eisiau ailgyflwyno'r sylw a ddychwelwyd gan y Grŵp Annibynnol:

- Mae'r Cabinet a'r Grŵp Annibynnol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cefnogi'r newidiadau ond yn awgrymu y dylent fynd ymhellach, gan ymestyn y ffin ogleddol hyd at Gronfa'r Bannau ar afon Taf Fawr a hyd at Dorpantau / Cronfa Ddŵr y Neuadd ar afon Taf Fechan.

Cofion

[REDACTED]
Gwasanaethau Democrataidd / Democratic Services

BCW-10192/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 11:38

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]
[REDACTED]

Pwnc: Gorllewin Caerdydd – Comisiwn Ffiniau

Anfonwyd ar ran y Cynghorydd Iona Gordon, y Cynghorydd Kanaya Singh, y Cynghorydd Caro Wild – cynghorwyr ar gyfer ward Riverside, ac ymgelsydd y blaidd Lafur ar gyfer Ward Riverside, [REDACTED]

Fel cynrychiolwyr (ac un darpar gynrychiolydd) ward Riverside, rydym yn gwrthwynebu yn gryf awgrym y Ceidwadwyr Cymreig i symud Riverside o etholaeth Gorllewin Caerdydd arfaethedig y Comisiwn Ffiniau.

Mae gan ward Riverside gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol agos iawn gydag ochr orllewinol Caerdydd, a wardiau Treganna a Llandaf yn bennaf. Mae ein cymunedau mor rhyng-gysylltiedig na fyddai'r rhan fwyaf o drigolion yn ymwybodol ble mae pob ward yn dechrau ac yn terfynu. Mewn cyferbyniad, mae Afon Taf yn creu ffin ddaearyddol eglur iawn i'r dwyrain o ward Riverside, gan ein gwahanu ni o ganol y ddinas sydd â chymeriad gwahanol iawn.

Y brif ardal siopa i drigolion Riverside a Threganna yw Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, sy'n rhedeg drwy'r ddwy ward. Yn yr un modd, rhennir llawer o'r lleoliadau lletygarwch a diwylliannol poblogaidd rhwng y ddwy ward. Hefyd, mae Caeau Llandaf, er gwaethaf eu henw, wedi'u lleoli yn ward Riverside ac fe'i defnyddir yr un faint gan drigolion Riverside, Treganna a Llandaf.

Mae plant sy'n byw yn ward Riverside bron bob amser yn mynychu'r ysgol uwchradd yn wardiau Treganna (Ysgol Uwchradd Fitzalan), Tyllgoed (Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr), Llandaf (Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf) a Radur (Ysgol Gyfun Radur). Mae'r dalgylchoedd ar gyfer rhai ysgolion cynradd lleol hefyd yn croesi ffin Treganna-Riverside, yn fwyaf nodedig bydd plant o Riverside sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg bron yn sicr yn mynychu Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn Nhreganna gan nad oes unrhyw ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ward Riverside.

Byddai cynigion y Ceidwadwyr yn golygu y byddai rhai mân ffyrdd preswyl yn troi'n ffiniau etholaeth pwysig, a byddai hyn yn sicr yn arwain at ddryswch ynghylch atebolrwydd democrataidd a materion llywodraethu cysylltiedig. Mae'r ffin bresennol, afon Taf, yn ffin mor eglur a naturiol ag y gallech chi ei gweld yn unman.

Mae'r ffactorau hyn yn dangos y ddadl dros gadw lle Riverside yng Ngorllewin Caerdydd ochr yn ochr â Threganna a Llandaf, ac i gynnal ffin ddaearyddol eglur rhwng etholaethau sy'n defnyddio Afon Taf, yn unol â'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf Etholaethau Seneddol.

Diolch am ddarllen yr e-bost hwn.

Bydd y cyflwyniad hwn yn cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, y gwrthgynigion a'u cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylystod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad wedi'i gyfyngu gan hynny felly.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel trigolyn. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae etholaethau mawr nodweddiadol wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O gofio bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymni yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd â chysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. I raddau helaeth iawn, dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol iawn o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Plasnewydd.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn edrych tuag at ardal siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae'r plant yn ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed yn ddaearyddol. Mae trigolion y ddwy ward yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield yn enwedig ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu, ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern. Y prif fan chwarae yw Cae Chwarae Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Gwnaed sawl gwrthgynig yn ymwneud â Chanol Caerdydd a thair etholaeth gyfagos Caerdydd. Ar ôl darllen y gwrthgynigion, awgrymaf nad ydynt yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf.

Gwrthgynig y Blaid Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb unrhyw resymeg gymhellol amlwg) symud ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd canfod unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o'u cymharu â chynig gwreiddiol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), y mae'r cyfan ohoni i'r dwyrain i Afon Taf. Ceir eiddo masnachol (siopau, bwytai,

bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) a rhai fflatiau yng nghanol y ddinas yn bennaf.

Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac er gwaethaf ei henw mae'n ymestyn ymhell i ffwrdd o gyffiniau uniongyrchol yr afon. De Riverside yw un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, â chysylltiadau agos iawn â Threganna gyfagos gydag ardal siopa'r ardal, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sef y prif lwybr bysiau hefyd) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r 2 ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn mynd i siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. A dweud y gwir, mae rhannau mawr o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o drigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae ardal Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Riverside trwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae Treganna gyfagos yn gynyddol. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu ysgol uwchradd hynod amrywiol Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn ymarferol, prin iawn yw'r cysylltiadau cymunedol ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol hynod arwyddocaol Afon Taf, ond gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, ac ardaloedd mawr o dir parc.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth. Mae hyn eto yn anwybyddu cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth Gogledd Caerdydd ddiwygiedig. Nid oes unrhyw gysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontpennau a Phentref Llanelwyr. Yn wir, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn arbennig o gyfyngedig rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward hyn, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig hwn, sy'n dychwelyd Tredelerch a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd

Bychan at Ganol Caerdydd eto yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae gan ward Gabalfa gysylltiadau agos iawn â ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, un o ystadau tai hynaf Cymru, yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa ynghyd. Mae trigolion yng Ngabalfa ac yn Ystum Taf yn edrych tuag ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ward Llanisien. Ceir cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ond trwy ddalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O gofio lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw yn gyfagos yn Llanisien yn mynychu. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, a cheir rheilffordd sy'n rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad at amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair.

Mae'r gwrthgynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i wahanol etholaeth.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth ac mae ateb y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y gwahanol wrthgynigion i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n datgan felly y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

Rwy'n cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, gwrthgynigion ac yn cyfeirio at eu cydymffuriad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad yn nodi felly bod y gofrestr etholiadol ar gyfer ardal fel Canol Caerdydd yn anwadal ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu'r boblogaeth wirioneddol, oherwydd y 'troi allan' a achosir gan nifer y myfyrwyr a'r bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal hon.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel cynghorydd lleol. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer seddi eraill Caerdydd.

Mae etholaeth Canol Caerdydd wedi bod yn rhy fach ers nifer o flynyddoedd, ac yn yr un modd mae etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, felly mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymni yn synhwyrol.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod yn briodol cysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol, a dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Cydnabyddir hyn yn yr un modd gan yr Awdurdod Lleol yn ei gynlluniau manau siopa ardal. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu gan gynigion y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (Pen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (Cyncoed) yn bennaf.

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan/Plasnewydd yn ystyried eu bod yn byw yn y Rhath, ac yn cydnabod y Rhath yn hytrach nag enwau eu wardiau etholiadol. Mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae trigolion Pen-y-lan yn edrych tuag at ardaloedd siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae eu plant yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays/Ysgol Uwchradd Caerdydd, gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Plasnewydd ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae trigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn byw yn y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu trwy nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath/Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed. Mae trigolion yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafniadaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Gwrthgynigion

Ar ôl darllen y gwrthgynigion nid wyf yn credu eu bod yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf, sy'n nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylustod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Gwrthgynnig y Blaid Geidwadol

Nid yw cynnwys ward Riverside yng Nghanol Caerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr ac nid yw'n cynnig unrhyw resymeg gymhellol. Nid yw'n gynnig cystal ag un y Comisiwn. Mae'n methu â bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy wahanu ward Gorllewin Caerdydd sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o Afon Taf.

Nid yn unig y mae ward Riverside wedi'i gwahanu yn ffisegol o ganol y ddinas (ward Cathays) gan Afon Taf a Pharc Bute, ond mae hefyd yn wahanol iawn o ran cymeriad. Ceir eiddo masnachol annomestig a rhai fflatiau preswyl yng nghanol y ddinas yn bennaf. Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac mae'n ymestyn ymhell i'r gorllewin oddi wrth yr afon.

Mae cysylltiadau agos Riverside â Threganna yn golygu na all trigolion wahaniaethu rhyngddynt, a cheir cyd-bwyslais cymdeithasol ar ardal siopa Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Mae gwahanu'r ddwy ward hyn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol hyn. Mae rhannau mawr o'r ardal y byddai trigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae Riverside a Threganna yn gartrefi i nifer unigryw o siaradwyr Cymraeg. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu Ysgol Uwchradd Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Mae symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth eto yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Nid oes unrhyw gysylltiadau ystyrion rhwng Llanrhymni a Phontpennau a Phentref Llanelwyr. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig yn atal unrhyw gysylltiadau cymunedol, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae'r gwrthgynnig hwn yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae dychwelyd Tredelerch/Llanrhymni i Dde Caerdydd ac ychwanegu Gabalfa/y Mynydd Bychan at Ganol Caerdydd yn torri cysylltiadau lleol cryf presennol.

Mae gan Gabalfa gysylltiadau agos iawn ag Ystum Taf, ac mae Ystâd Gabalfa yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa at ei gilydd.

Mae'r Mynydd Bychan yn ffinio Llanisien a cheir cysylltiadau cymunedol agos, cysylltiadau trafnidiaeth da, dalgylchoedd ysgol a rennir, gwasanaethau ac

amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, a pharciau. Mae lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen (y Mynydd Bychan) yn cael eu mynychu gan lawer o blant sy'n byw yn Llanisien.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair ward o etholaethau presennol. Mae gwrthgynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward i wahanol etholaethau.

Mae'r ddau gynnig hyn yn ateb gwaeth na chynigion cychwynnol y Comisiwn, sy'n symud dwy ward yn unig.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Mae'r ddau gynnig hyn yn atebion gwaeth na chynigion cychwynnol y Comisiwn ac mae cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Er bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion, mae gan y gwahanol wrthgynigion (fel y nodir uchod) i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

BCW-10195/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 12:06

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i Adolygiad y Comisiynydd Ffiniau i Gymru

Annwyl Gomisiwn

Rwy'n ysgrifennu fel un o drigolion yr Eglwys Newydd yn etholaeth Gogledd Caerdydd. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a byddaf yn cyfeirio yn gryno at y tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd - Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn rhoi sylw i'r gwrthgynigion a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gysylltiedig â Gogledd Caerdydd.

Rwy'n croesawu'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n golygu bod yr etholaeth yn aros fwy neu lai yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, yn eu cyfanrwydd, yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fyddai'n newid etholaeth. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymni at Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol Afon Taf ac o gofio'r cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos fel ychwanegiad naturiol at yr etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tuag at yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf o Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth prin a dim synnwyr o gysylltiad â'i gilydd. Prin sydd gan y ddwy gymuned ar y naill ochr i'r afon a'r llall yn gyffredin ac eithrio'r enw Saesneg ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol ac nid yw'n cydnabod y cysylltiadau lleol presennol chwaith. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn haneru un o'r ystadau tai hynaf yng Nghymru. Mae Mynachdy yn rhannol yng Ngabalfa. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd wedi'u cysylltu a cheir mynediad atynt trwy gylchfan Gabalfa.

Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol chwaith rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig dilynol

rhwng Trowbridge a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n golygu bod Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau nesaf at ei gilydd, mae gan y Mynydd Bychan gysylltiadau agos â Llanisien o ran trafndiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Lifestyle Caerdydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I grynhoi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a'r rhain sy'n tarfu leiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynigion.

Diolch am roi eich ystyriaeth i hyn.

Yn gywir,



BCW-10196/ [REDACTED] / Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 13:07

I: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynigion ffiniau etholaeth Gogledd Caerdydd

Annwyl Gomisiwn,

Ysgrifennaf fel preswlydd lleol sy'n byw yng Ngogledd Caerdydd. Mae fy sylwadau yn ymwneud â'r cynigion presennol ac awgrymiadau eraill ar gyfer cyfansoddiad ffiniau seneddol etholaethol ar gyfer cymunedau yng Ngogledd Caerdydd.

Ymddengys bod y cynnig gwreiddiol ar gyfer Gogledd Caerdydd, sy'n gadael etholaeth Gogledd Caerdydd heb ei newid o'r trefniant presennol i raddau helaeth, yn amddiffyn y perthnasau sy'n bodoli rhwng cymunedau yng ngogledd y ddinas ac yn darparu etholaeth gydlynus i raddau helaeth y gall preswylwyr lleol uniaethu â hi.

Hoffwn fynegi pryderon ynghylch rhai trefniadau eraill a gynigiwyd nad ydynt yn cydnabod y cysylltiadau rhwng gwahanol gymunedau yng Ngogledd Caerdydd, na chwaith yn helpu i greu map etholaethol synhwyrol a chytbwys ar gyfer Caerdydd yn gyffredinol.

Mae'r cynnig i wahanu Ystum Taf oddi wrth ei chymdogion, wardiau Eglwys Newydd a Gabalfa, yn gam afresymegol a diangen, o ystyried y berthynas agos iawn rhwng y tair ward o ran cysylltiadau teithio, ysgolion, siopa a gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd arall. Mae'r awgrym i osod Ystum Taf gyda thiriogaeth ar ochr arall i'r Afon Taf yn methu â chydabod diffyg cysylltiadau naturiol a llwybrau trafnidiaeth rhwng y cymunedau ar y ddwy ochr i'r afon, a byddai'n arwain at dorri'r berthynas hirsefydlog â chymunedau cyfagos.

Mae cynnig arall sy'n awgrymu y dylid symud Mynydd Bychan a Gabalfa i ward Canol Caerdydd yn methu â chydabod cysylltedd rhyngberthynol cymdogaethau sydd ar hyn o bryd yng nghanol etholaeth Gogledd Caerdydd, yn benodol Llanisien, Rhiwbeina, yr Eglwys Newydd a'r Mynydd Bychan. Mae'r cynnig i dorri'r bartneriaeth hon o gymunedau yn ymddangos fel pe na bai'n cynnig fawr ddim yn gyfnewid, heblaw am etholaeth Gogledd Caerdydd lai cydlynus.

Gobeithiaf fod y comisiwn yn barod i ystyried perthnasau cymunedol fel y maen nhw'n bodoli ar draws yr etholaeth bresennol, ac y bydd yn oedi rhag torri cysylltiadau gwerthfawr a hirsefydlog heb fawr o fantais.

Cofion cynnes

[REDACTED]

BCW-10197/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 13:13

I: CFFiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i gynigion

Gweler wedi'i atodi fy ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau.

Drwy e-bost: bcw@boundaries.wales



29 Mawrth 2022

I'r unigolion perthnasol,

Ysgrifennaf fel preswlydd lleol yn ardal y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd.

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd, a byddaf yn cyfeirio'n gryno at dair sedd gyfagos arall – Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn trafod y gwrthgynigion a gynigiwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori mewn perthynas â Gogledd Caerdydd.

Croesawaf y Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Caerdydd lle bydd yr etholaeth yn aros yn gyfan i raddau helaeth, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rydw i hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth a fydd, gyda'i gilydd, yn golygu symud dim ond dwy ward yn etholaeth Caerdydd. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Rhymni a Llanrhymni i Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol yr Afon Taf, ac o ystyried y cysylltiadau trafniadaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd y ddinas, byddai Ffynnon Taf yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd.

Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo'n gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd, a chysylltiadau

trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tua'r Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol yr Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf oddi wrth Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd heb lawer o gysylltiadau trafnidiaeth a dim ymdeimlad o gysylltiad â'i gilydd. Does gan y ddwy gymuned ar ochrau cyferbyniol yr afon ddim llawer yn gyffredin rhyngddyn nhw heblaw am yr enw Saesneg, felly dydy'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd ddim yn synhwyrol na chwaith yn cydnabod cysylltiadau lleol presennol. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn torri un o ystadau tai hynaf Cymru yn ei hanner. Mae Mynachdy yng Ngabalfa yn rhannol. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd oll yn gysylltiedig, ac rydych yn eu cyrraedd drwy gylchdro Gabalfa.

Does dim cysylltiad naturiol rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge chwaith. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd, a'r cysylltiadau trafnidiaeth prin o ganlyniad i hynny rhwng Trowbridge a gogledd y ddinas. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.


Rydw i hefyd yn pryderu ynghylch y gwrthgynnig a fyddai'n arwain at symud Gabalfa a'r Mynydd Bychan i Ganol Caerdydd gan ei fod yn methu ag ystyried y cysylltiadau lleol cryf sydd yn y wardiau hyn. Fel wardiau cyfagos, mae cysylltiadau agos gan y Mynydd Bychan a Llanisien drwy dtrafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Siopa Tŷ Glas, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

Rydyn ni'n rhannu ysgolion lleol a chyfleusterau cymunedol, a byddai'r cynnig yn achosi anhrefn yn ein hardal leol. Alla i ond dychmygu bod y syniad hwn wedi dod gan bobl sydd heb syniad am y cymunedau go iawn dan sylw.

I gloi, rydw i'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodwyd uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a nhw yw'r rhai lleiaf ymyrrol eu natur, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel yr hyn a gynigir yn y gwrthgynigion.

Diolch am eich ystyriaeth.

Yn gywir,



BCW-10198/ [REDACTED] Canolfan Datblygiad Cymunedol De Glan yr Afon/ Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 13:31

I: CFFiG <bcw@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]

Pwnc: Re: FW: Brys - dyddiad cau dydd Mercher 30 Mawrth, 11.59pm

I'r unigolion perthnasol:

Re: Ymgynghoriad Cyhoeddus mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaethau Senedd y Deyrnas Unedig

Annwyl Syr neu Fadam,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar hyn o bryd, sy'n casglu safbwyntiau aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau lleol a chynrychiolwyr gwleidyddol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaethau Senedd y Deyrnas Unedig, a fydd yn dod i rym o 2023 ymlaen.

Fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Datblygiad Cymunedol De Glan yr Afon, sydd wedi'i lleoli yng Nglan yr Afon yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, hoffwn **wrthod** yr awgrym a gynigiwyd gan Blaid Geidwadol Cymru a fyddai'n golygu, pe bai'n cael ei weithredu, y bydd ward gyfan Glan yr Afon yn cael ei symud o etholaeth Gorllewin Caerdydd ac i etholaeth Canol Caerdydd.

Credwn y byddai'r newid hwn yn effeithio'n negyddol ar ein sefydliad, a sefydlwyd at y diben o fod o fudd i gymunedau yn ardaloedd Glan yr Afon, Treganna a Grangetown. Yn ein barn ni, mae gan yr ardaloedd hyn anghenion tebyg o ran cymorth a gwasanaethau, a byddent mewn lle gwell pe baent yn yr un etholaethau presennol gyda'i gilydd. Mae hefyd ffactorau daearyddol i'w hystyried (Afon Taf) a'r cysylltiadau lleol agos rhwng Glan yr Afon, Grangetown a Threganna.

Yn gywir,

[REDACTED]

Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Datblygiad Cymunedol De Glan yr Afon

BCW-10199/ Stephen Crabb AS/ Preseli Penfro

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 16:30

At: Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>; CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cyflwyniad gan Stephen Crabb AS

Prynhawn Da,

Atodaf gyflwyniad Stephen Crabb AS ar gyfer ei ystyried.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gydnabod ei dderbyn.

Cofion cynnes,

[REDACTED]

Rheolwr Swyddfa Gweithredol

Swyddfa'r Gwir Anrh. Stephen Crabb AS / Rt. Hon. Stephen Crabb MP

Aelod Seneddol Preseli Penfro / Member of Parliament for Preseli Pembrokeshire



Rt Hon Stephen Crabb AS
Aelod Seneddol Preseli Penfro

29 Mawrth 2022

Shereen Williams
Ysgrifennydd y Comisiwn
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Annwyl Shereen,

Ni allaf fynychu'r gwrandawriad cyhoeddus yn Aberystwyth ar 30 Mawrth 2022 fel y trefnais, oherwydd llawdriniaeth ddiweddar sy'n fy atal rhag teithio ar yr adeg hon. Gobeithiaf y gellir derbyn y cyflwyniad ysgrifenedig hwn yn lle hynny.

Hoffwn gefnogi'r cynnig presennol y dylai Maenclochog aros yn rhan o etholaeth Canol a De Sir Benfro. Rwy'n hyderus bod hyn yn gyson â safbwynt mwyafrif yr unigolion sy'n byw o fewn yr adran ers cychwyn cyntaf arolwg 2013 o Ffiniau Seneddol yng Nghymru.

Fel y gwyddoch efallai, rwyf wedi ymgynghori ag aelodau'r adran yn 2013, ac yn 2018, ac eto yn 2022. Ar ddechrau mis Chwefror eleni, anfonais arolwg at bob aelwyd yn yr adran fel y gellid ceisio barn unwaith eto am y newidiadau i'r ffiniau Seneddol. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn dangos bod 77% eisiau aros o fewn ffiniau Seneddol Canol a De Sir Benfro, roedd 14% heb farn y naill ffordd neu'r llall ynghylch pa sedd y cânt eu cynrychioli ganddi, ac roedd 9% eisiau cael eu cynnwys o fewn sedd newydd Ceredigion Preseli.

Hoffwn ailadrodd mai barn y mwyafrif helaeth yw ei bod yn fwy addas cael Maenclochog yn rhan greiddiol o sedd Seneddol Canol a De Sir Benfro. Rwy'n falch bod y Comisiwn Ffiniau wedi derbyn y farn hon a'r safbwynt hwn yn 2018, a gallaf gadarnhau bod y consensws barn yn parhau'n berthnasol ac yn ystyrlon heddiw.

Er bod Gogledd Sir Benfro wedi'i chynnwys â Cheredigion mewn etholaeth Seneddol yn y gorffennol (cyn 1997), bu adran Maenclochog bob amser yn rhan o brif sedd Sir Benfro, gan adlewyrchu'r ffaith bod y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu wrth wraidd Sir Benfro i raddau helaeth, ac nid oes ganddynt lawer o gysylltiadau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol â Cheredigion.

Yn wahanol i lawer o gymunedau yng Ngogledd Sir Benfro, nid yw'r bobl sy'n byw yn yr adran hon yn ystyried Aberteifi fel y brif dref ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae gan fwyafrif y preswylwyr fynediad hawdd i Hwlfordd ar drafnidiaeth gyhoeddus, boed ar fws neu ar drên. Dyma'r brif dref at ddibenion gweinyddol personol, bancio a dibenion masnachol. Mewn cyferbyniad, nid oes unrhyw gysylltiadau bws na rheilffordd sy'n cysylltu cymunedau Maenclochog ag Aberteifi.

Er ei bod yn wir fod llawer o breswylwyr Gogledd Sir Benfro yn ystyried y Tivyside Advertiser, sydd â ffocws ar Aberteifi, fel eu prif bapur newydd, nid oes gan y papur hwn gylchrediad eang ym Maenclochog, lle ffefrir




Rt Hon Stephen Crabb AS
Aelod Seneddol Preseli Penfro

y Western Telegraph o Hwlffordd a'r Pembrokeshire Herald o Aberdaugleddau fel y prif bapurau newydd lleol.

Credaf y bydd y gymuned hon yn cael ei hynysu os caiff ei chynnwys yn etholaeth Ceredigion Preseli, am y rhesymau a nodir uchod, a rhennir y farn hon hefyd gan y Cynghorydd Sir Annibynnol, Huw George, sydd wedi cynrychioli'r ardal ers 2006. Yn ystod sgwrs ddiweddar, dywedodd y Cyng. George, *"Rwy'n cefnogi cadw adran Maenclochog o fewn sedd Seneddol Canol a De Sir Benfro. Mae'r gymuned rwy'n ei chynrychioli yn uniaethu'n agos â Chanol a De Sir Benfro. Mae'n rhannu mwy o debygrwydd a nodweddion, a chredaf yn gryf pe bai'r adran hon yn cael ei chynnwys o fewn sedd Seneddol Ceredigion Preseli, byddai hynny'n niweidiol i wead cymdeithasol a diwylliannol y gymuned hon."*

Diolch i chi am ystyried fy sylwadau sy'n cadarnhau pam mae'r Comisiwn yn gywir i gadw Maenclochog o fewn y cynigion ar gyfer Canol a De Sir Benfro.

Cofion cynnes,



Y Gwir Anrh. Stephen Crabb AS



BCW -10200/ Cyng Dilwar Ali/ Ystum Taf

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 22:50

I: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]

Pwnc: Cynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd

Drwy e-bost: bcw@boundaries.wales

29 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn,

Ysgrifennaf fel preswilydd lleol a chynghorydd ar gyfer Ystum Taf. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a byddaf yn cyfeirio yn gryno at y tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd - Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn rhoi sylw i'r gwrthgynigion a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gysylltiedig â Gogledd Caerdydd.

Rwy'n croesawu'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n golygu bod yr etholaeth yn aros fwy neu lai yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, yn eu cyfanrwydd, yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fyddai'n newid etholaeth. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymini at Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol Afon Taf ac o gofio'r cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos fel ychwanegiad naturiol at yr etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tuag at yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf o Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth prin a dim synnwyr o gysylltiad â'i gilydd. Prin sydd gan y ddwy gymuned ar y naill ochr i'r afon a'r llall yn gyffredin ac eithrio'r enw Saesneg ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol ac nid yw'n cydnabod y cysylltiadau lleol presennol chwaith. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn haneru un o'r ystadau tai hynaf yng

Nghymru. Mae Mynachdy yn rhannol yng Ngabalfa. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd wedi'u cysylltu a cheir mynediad atynt trwy gylchfan Gabalfa.

Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol chwaith rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig dilynol rhwng Trowbridge a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n golygu bod Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau nesaf at ei gilydd, mae gan y Mynydd Bychan gysylltiadau agos â Llanisien o ran trafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Lifestyle Caerdydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I grynhoi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a'r rhain sy'n tarfu leiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynigion.

Diolch am roi eich ystyriaeth i hyn.

Yn gywir,

Dilwar Ali

Preswilydd lleol a chynghorydd ar gyfer Ystum Taf

E-bost: [REDACTED]

Bydd y cyflwyniad hwn yn cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, y gwrthgynigion a'u cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylostod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad wedi'i gyfyngu gan hynny felly.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel trigolyn. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae etholaethau mawr nodweddiadol wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O gofio bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymini yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd â chysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. I raddau helaeth iawn, dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol iawn o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn edrych tuag at ardal siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae'r plant yn ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed yn ddaearyddol. Mae trigolion y ddwy ward yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield yn enwedig ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu, ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Y prif fan chwarae yw Cae Chwarae Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Gwnaed sawl gwrthgynnig yn ymwneud â Chanol Caerdydd a thair etholaeth gyfagos Caerdydd. Ar ôl darllen y gwrthgynigion a gwrando ar y dystiolaeth lafar a'r cwestiynau a'r atebion yn ymwneud â nhw yng ngwrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd ddydd lau 17 Chwefror 2022, awgrymaf nad ydynt yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf.

Gwrthgynnig y Blaidd Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb unrhyw resymeg gymhellol amlwg) symud ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd canfod unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o'u cymharu â chynnig gwreiddiol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), y mae'r cyfan ohoni i'r dwyrain i Afon Taf. Ceir eiddo masnachol (siopau, bwytai,

bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) a rhai fflatiau yng nghanol y ddinas yn bennaf.

Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac er gwaethaf ei henw mae'n ymestyn ymhell i ffwrdd o gyffiniau uniongyrchol yr afon. De Riverside yw un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, â chysylltiadau agos iawn â Threganna gyfagos gydag ardal siopa'r ardal, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sef y prif lwybr bysiau hefyd) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r 2 ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn mynd i siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. A dweud y gwir, mae rhannau mawr o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o drigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae ardal Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Riverside trwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae Treganna gyfagos yn gynyddol. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu ysgol uwchradd hynod amrywiol Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn ymarferol, prin iawn yw'r cysylltiadau cymunedol ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol hynod arwyddocaol Afon Taf, ond gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, ac ardaloedd mawr o dir parc.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth. Mae hyn eto yn anwybyddu cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth Gogledd Caerdydd ddiwygiedig. Nid oes unrhyw gysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontprenau a Phentref Llaneirwg. Yn wir, mae'r cysylltiadau trafniadaeth yn arbennig o gyfyngedig rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward hyn, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig hwn, sy'n dychwelyd Tredelerch a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd

Bychan at Ganol Caerdydd eto yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae gan ward Gabalfa gysylltiadau agos iawn â ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, un o ystadau tai hynaf Cymru, yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa ynghyd. Mae trigolion yng Ngabalfa ac yn Ystum Taf yn edrych tuag ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ward Llanisien. Ceir cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ond trwy ddalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O gofio lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw yn gyfagos yn Llanisien yn mynychu. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, a cheir rheilffordd sy'n rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad at amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair.

Mae'r gwrthgynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i wahanol etholaeth.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth ac mae ateb y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y gwahanol wrthgynigion i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n datgan felly y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

BCW -10202/ [REDACTED] / Mayals

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 17:11

I: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Comisiwn Ffiniau Seneddol

Prynhawn da

Ysgrifennaf atoch heddiw i ddangos fy nghefnogaeth i gynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Dylai Mayals fod yn yr etholaeth newydd oherwydd ei chysylltiadau â'r Mwmbwls a gan ei bod yn rhan hanfodol o Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Cofion cynnes

[REDACTED]

Un o breswylwyr Mayals

Mae angen ymateb erbyn 30 Mawrth drwy e-bost i: bcw@boundaries.wales

Diolch,

[REDACTED]

ON Atodaf fy nodiadau a allai fod o gymorth.

Arolwg 2023 o etholaethau Seneddol

Ail Ymgynghoriad:

Ymateb swyddogol gan y Blaid Lafur

Cymru

Dylid darllen y sylwadau hyn ar y cyd â'r cyflwyniad a wnaed yn ystod yr Ymgynghoriad Cychwynnol (Cynrychiolaeth 10049), a chyflwyniadau llafar y Blaid yn y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd ac Aberystwyth. Mae ein cyflwyniadau i'r broses yn nodi safbwynt ffurfiol y Blaid Lafur a Llafur Cymru fel y cytunwyd gan Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol (NEC) Plaid Lafur y Deyrnas Unedig (DU) ochr yn ochr â chynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith Cymru (WEC). Roedd hyn wedi dilyn proses ymgynghori helaeth o fewn y Blaid Lafur a oedd yn cynnwys ein holl Aelodau Seneddol, Pleidiau Llafur Etholaethol (CLPs) ac aelodau.

Mae'r Blaid Lafur wedi ystyried y cyflwyniadau a wnaed gan eraill yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol yn ogystal â'r cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru. Mae safbwynt ffurfiol y blaid yn parhau fel y'i nodir yn ein datganiadau ein hunain a byddem yn annog y Comisiwn i ystyried a derbyn y dadleuon a wneir yno, boed o blaid cynigion y Comisiwn neu le'r ydym yn gwneud gwrthgynigion. Credwn eu bod yn cynrychioli cynllun sy'n cydbwysu'r meini prawf statudol ac yn creu patrwm cynaliadwy o etholaethau yng Nghymru a all ddarparu cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer ei chymunedau.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod eraill wedi llunio cynigion amgen y maent yn eu hystyried yr un mor ddilys o ran y rheolau, a bod gan y Comisiwn dasg anodd o ran asesu eu rhinweddau cymharol ac yna dewis rhyngddynt. Er ein bod ninnau, cyn belled ag sy'n ymarferol, wedi ystyried pob un ohonynt, nid ydym yn cyfeirio at bob un ohonynt yn benodol yn y sylwadau hyn. Mae llawer o'r rhain yn cynnig patrymau hollol wahanol ar gyfer etholaethau, ac er y gallant gynnwys agweddau sy'n ddilys, ni fyddem yn eu cefnogi oherwydd eu cyd-destun ehangach. Yn hytrach, rydym wedi nodi'r hyn y credwn yw'r materion allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn y sylwadau, y gwrthwynebiadau a'r gwrthgynigion, a safbwynt cyffredinol y Blaid Lafur, a hyderwn y bydd y Comisiwn yn gallu casglu barn y Blaid Lafur ar gynigion gwahanol lle'r ydym heb eu nodi'n benodol.

Felly, bydd ein cyflwyniad yn crynhoi ein safbwyntiau ein hunain ar y materion niferus a godwyd, a'u cryfderau a'u gwendidau. Fe'u cyflwynir yng nghyd-destun ein dadleuon blaenorol a nodwyd gennym ac sydd, oni nodir yn wahanol, yn parhau'r

un fath. Hyderwn y bydd hyn o ddefnydd i'r Comisiwn wrth asesu manteision ac anfanteision y cynigion gwahanol a pha lefel o gefnogaeth a all berthyn i bob un.

Patrwm yr Etholaethau

Brycheiniog a Sir Faesyfed

Yn ein sylwadau blaenorol, nodom yr hyn y credwn yw'r prif ffactorau sy'n pennu'r patrwm ar gyfer dosbarthu'r 31 o etholaethau ar dir mawr Cymru, ac yn benodol, y seddau y mae'n rhaid iddynt gyfuno rhannau o awdurdodau lleol mwy poblog De Cymru a Gogledd-ddwyrain Cymru ag ardaloedd prin eu poblogaeth yng Nghanolbarth Cymru a Gorllewin Cymru, sy'n dueddol o fod â nifer isel iawn o etholwyr ar hyn o bryd. Cytunwn â chynigion y Comisiwn yn hyn o beth. Efallai mai'r anoddaf o'r materion hyn yw ehangu etholaeth sirol Brycheiniog a Sir Faesyfed, sy'n etholaeth wledig enfawr sy'n rhannu ffin â holl gymoedd De Cymru. Mae unrhyw etholaeth sy'n cynnwys rhannau o'r ddwy ardal yn debygol o fod yn drefniant lletchwith. Credwn mai mantais Cynnig Cychwynnol y Comisiwn i ychwanegu naw ward ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw ei fod yn cysylltu'r ardaloedd hyn ag un rhan o etholaeth sirol Brycheiniog a Sir Faesyfed sydd â chysylltiad â'r cymunedau'r hynny yn y cymoedd. Mae Cwm Tawe Uchaf yn cysylltu'n ddi-dor ag Ystradgynlais ac Ynyscedwyn ar hyd ffordd yr A4067 ac mae gan Ystalyfera gysylltiadau agos ag Ystradgynlais.

Mae'n drueni bod y cynnig hwn yn torri cysylltiadau o fewn etholaeth Castell-nedd, ond ni allwn nodi unrhyw wrthgynnig na fyddai'n creu mwy o darfu. Nodwn gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol, er enghraifft, a fyddai'n creu sedd sy'n cyfuno rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ond ni fyddai'n cynnwys unrhyw gysylltiadau, yn ein barn ni. Nodwn hefyd fod y cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal hon wedi cael cefnogaeth gan y Blaid Geidwadol a Fay Jones AS yn 9932 ac yn y gwrandawladau cyhoeddus.


Ceredigion

Cytunwn hefyd â chynnig y Comisiwn i ymestyn etholaeth sirol Ceredigion drwy ychwanegu gogledd Sir Benfro unwaith eto, sef trefniant a fu ar waith rhwng 1983 a 1997. Credwn fod hyn yn amlwg yn rhesymegol, gan y byddai'r etholaeth gyfan â

chymeriad tebyg, gyda chymunedau arfordirol a gwledig yn flaenllaw iawn.

Gwnawn wrthgynnig i osod wardiau St. David's a Solfach yn etholaeth Canol a De Sir Benfro, ac gosod Maenchlochog yn etholaeth sirol Ceredigion Preseli. Ar ôl pwyso a mesur, byddem yn dadlau bod gan Dyddewi gysylltiadau cryfach â'r ardaloedd i'r de a chanolfan leol Hwlfordd, yn hytrach nag Abergwaun ac arfordir gogledd orllewin Sir Benfro. Credwn fod y dadleuon mewn perthynas â ward Treletert yn llai amlwg, ond ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad pe bai'r ward honno hefyd yn cael ei gosod yn etholaeth sirol Canol a De Sir Benfro, fel y cynigiwyd gan eraill. Nodwn fod Plaid Cymru yn cynnig yr un trefniant yn yr ardal hon.

Mae manylion ein gwrthgynnig isod (gyda Threletert yn aros yng Ngheredigion Preseli):



Etholaeth a Nifer yr Etholwyr	Wardiau
Etholaeth sirol Ceredigion Preseli 75,936	<u>Sir Ceredigion</u> Y wardiau canlynol yn <u>Sir Benfro</u> : Cilgerran, Clydau, Crymych, Dinas Cross, Gogledd Ddwyrain Abergwaun, Gogledd Orllewin Abergwaun, Wdig, Treletert, Llanrhian, Maenclochog, Trefdraeth, Scleddau, Llandudoch

Etholaeth a Nifer yr Etholwyr	Wardiau
Etholaeth sirol Canol a De Sir Benfro 74,947	Y wardiau canlynol yn <u>Sir Benfro</u> : Amroth, Burton, Camrose, Caerew, East Williamston, Hwlffordd: Y Castell, Hwlffordd: Garth, Hwlffordd, Portfield, Hwlffordd: Prendergast, Hwlffordd: Priordy, Hundleton, Cilgeti/Begeli, Llanbedr Felffre, Lamphey, Llangwm, Manorbier, Martletwy, Merlin's Bridge, Milford: Canol, Milford: Dwyrain, Milford: Hakin, Milford: Hubberston, Milford: Gogledd, Milford: Gorllewin, Arberth, Arberth Wledig, Neyland: Dwyrain, Neyland: Gorllewin, Doc Penfro: Canol, Doc Penfro: Llanion, Doc Penfro: Market, Doc Penfro: Pennar, Penfro: Monkton, Penfro: Gogledd St. Mary, Penfro: De St. Mary, Penfro: St. Michael, Penalun, Rudbaxton, Saundersfoot, Solfach, St. David's, St. Ishmael's, Dinbych-y-pysgod: Gogledd, Dinbych-y-pysgod: De, The Havens, Wiston

Sir Fynwy a Thorfaen

Yn nau awdurdod Sir Fynwy a Thorfaen, mae nifer yr etholwyr o fewn pump y cant i'r Cwota Etholiadol, sy'n gyfleus. Mae etholaeth bresennol Torfaen wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn ei bwrdeistref, ac mae tua 59,182 (88.2%) o etholwyr etholaeth bresennol Mynwy yn Sir Fynwy, gyda'r lleill yn y rhan o Dorfaen sy'n weddill. Felly, byddem yn dadlau bod achos sydd bron yn ddi-ddadl y dylai'r ddau awdurdod lleol a'r ddwy etholaeth fod yn gydffiniol o dan y rheolau. Fel y cyfryw, nid ydym yn cefnogi awgrym Plaid Cymru y dylid cynnwys tref y Fenni yn hytrach na Chwm Tawe Uchaf yn etholaeth sirol Aberhonddu a Maesyfed, a fyddai'n arwain at rannu etholaeth Torfaen gyda Chwmbrân mewn sedd â Threfynwy, a Phont-y-pŵl â Blaenau Gwent.

Casnewydd a Chaerffili

Gyda Sir Fynwy a Thorfaen yn cynnwys etholaethau cyfan, rhaid i etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd fod yn gyfan gwbl o fewn Dinas a Sir Casnewydd, a chredwn fod y Comisiwn wedi dewis y chwe ward mwyaf addas yn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i'w hategu, gan gynnwys Betws, sydd â chysylltiadau cryf â Malpas ac sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill Gorllewin

Casnewydd gan draffordd yr M4. Mae cefnogaeth eang i etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd ac mae Jessica Morden AS o blaid y cynnig.

Rydym yn derbyn bod cryn ddadlau ynghylch ym mha etholaeth y dylid gosod gweddill y wardiau sydd yng Ngorllewin Casnewydd ar hyn o bryd, a bod safbwyntiau ar y ddwy ochr. Credwn fod Cynigion Cychwynnol y Comisiwn yn ddatrasiad ymarferol, ond gan gydnabod nad oes llawer o gysylltiadau rhwng Casnewydd a Chaerffili, a bod gan Gaerffili lawer mwy o gysylltiad â Chaerdydd. Felly, byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys dwy ran wahanol ond byddai cyfathrebu mewnol rhesymol oddi mewn iddi.

Rydym hefyd yn derbyn bod cysylltiadau rhwng Tŷ-du a Rhisga yng Nghwm Sirhywi a allai olygu ei bod yn rhesymegol i greu'r etholaeth newydd yn yr ardal honno. Fodd bynnag, credwn y byddai'r gwrthgynnig a wnaed i'r perwyl hwnnw gan Wayne David AS, ac yn enwedig y gwrthgynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn arwain at dorri cysylltiadau yn etholaeth Islwyn, yn arbennig rhwng y Coed Duon a Threcelyn, tra bod y Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth sirol Islwyn yn creu sedd gryno a byddai 53,795 (95.2%) o'r etholwyr yn yr etholaeth bresennol yn aros ynddi. Credwn fod hwn yn ddewis cytbwys iawn ond ni fyddem yn dymuno gwrthwynebu Cynigion Cychwynnol y Comisiwn yn yr ardal hon.

Nodwn na fu llawer o wrthwynebiadau yn erbyn etholaeth sirol arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni, a chredwn mai dyma'r ffordd amlwg o greu sedd newydd yn yr ardal hon, ac yn wir, os bydd Torfaen yn un etholaeth gyfan, dyma'r unig ddewis i bob pwrpas, ac fe'i cefnogir yn gryf gan Nick Smith AS.

Nodwn y gellir cynnwys ward Nelson o fewn etholaeth sirol Islwyn, a fyddai'n parchu'n well y ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau Nelson ag Ystrad Mynach, ond mae cynnig cyffredinol y Comisiwn ar gyfer Caerdydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys Nelson o fewn etholaeth sirol Merthyr Tudful ac Aberdâr. Cyfeiriwn at hyn ymhellach isod.

Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg

Nodwn fod y cynigion yn y rhan hon o Gymru yn deillio o ddatrasiad y Comisiwn i'r angen i ddiwygio etholaethau yng Nghaerdydd, lle mae gan ardal y ddinas ynghyd â

Phenarth hawl i 3.74 o etholaethau'n unig. Felly, er y gall y ddinas gadw pedair etholaeth, rhaid ychwanegu ardaloedd o awdurdodau lleol eraill atynt.

Credwn fod rhesymeg sylweddol ym mhenderfyniad y Comisiwn i ychwanegu ward Dinas Powys at etholaeth De Caerdydd a Phenarth, a wardiau Ffynnon Taf a Phont-y-clun, sydd yn Rhondda Cynon Taf, at etholaeth fwrdeistrefol Gogledd Caerdydd ac etholaeth fwrdeistrefol Gorllewin Caerdydd, yn y drefn honno. Credwn fod gan bob un ohonynt gysylltiadau cryf â Chaerdydd ac maent yn gweithredu'n rhannol fel ardaloedd cymudo ar gyfer y ddinas. Er enghraifft, credwn ei bod yn ddadl annilys na ddylai Dinas Powys fod yn Ne Caerdydd a Phenarth oherwydd nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau â Phenarth. Gallai Dinas Powys weddu'n dda yn yr etholaeth honno oherwydd mae ei chysylltiadau â Chaerdydd yn debyg i rai Penarth a'r Sili, ac er i ni gydnabod bod ganddi rhai cysylltiadau amlwg â'r Barri fel rhan o'r un awdurdod lleol, yn ein barn ni, nid oes unrhyw broblem o ran cynnwys Dinas Powys yn Ne Caerdydd a Phenarth, sydd eisoes yn cynnwys llawer o Fro Morgannwg.


Mantais y Cynigion Cychwynnol yw eu bod yn caniatáu i dair o'r pedair etholaeth yng Nghaerdydd aros yn gyfan, a dim ond 14,377 (4.1%) o'r etholwyr yn y ddinas fyddai'n newid sedd, ac yn ein barn ni, mae hwn yn ystadegyn rhyfeddol o ystyried graddau'r newid sydd ei angen o fewn Cymru yn ei chyfanrwydd. Ar ben hynny, yr unig newid i etholaeth sirol Bro Morgannwg fyddai trosglwyddo Dinas Powys, a byddai pob etholwr yn y sedd ddiwygiedig yn rhan o'r etholaeth honno eisoes. Byddai etholaeth sirol Rhondda hefyd yn parhau'n gyfan a byddai'r sedd ddiwygiedig yn gyfan gwbl o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Byddem yn cyfeirio'r Comisiwn yn benodol at y dadleuon cryf o blaid y cynigion cychwynnol ar gyfer Caerdydd a gyflwynwyd gan Jo Stevens AS yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Rydym yn derbyn bod gwrthwynebiadau dilys o fewn y rheolau i'r cynnig ar gyfer ward Nelson a wardiau "amddifad" Ffynnon Taf a Phont-y-clun sy'n golygu rhannu Rhondda Cynon Taf rhwng pum etholaeth wahanol. Fodd bynnag, credwn fod y rhain yn anghysondebau cymharol fach a gaiff eu gorbwyso gan resymeg gyffredinol cynigion y Comisiwn ar gyfer yr wyth etholaeth yn y rhan hon o Gymru.

Rydym hefyd yn derbyn y byddai ward Trowbridge, i bob pwrpas, yn “rhan ddatgysylltiedig” yn etholaeth fwrdeistrefol De Caerdydd a Phenarth, ac yn ymarferol, ni fyddai mynediad iddi ar y ffyrdd o fewn yr etholaeth. Nid ydym yn credu y byddai hon yn broblem fawr o fewn ardal drefol gymharol fach, ond rydym yn derbyn y gallai’r Comisiwn deimlo ei bod yn wendid yn eu cynnig.

Credwn, unwaith eto, fod anfanteision y cynnig yn cael eu gwrthbwysu gan fanteision y Cynigion Cychwynnol fel y disgrifir uchod. Hefyd, credwn fod gwrthgynnig y Ceidwadwyr sy’n ceisio mynd i’r afael â’r materion hyn yn cynnwys diffygion mawr. Yn hanfodol, byddai’n gosod wardiau Llanrhymni a Thredelerch mewn etholaethau gwahanol, a fyddai’n torri’r cysylltiadau cryf sydd rhyngddynt (gweler y map, yn dangos sefyllfa’r cynnig cychwynnol), a gwelir y gwendid hwn hefyd yng ngwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol.

Wardiau Llanrhymni/Tredelerch




Credwn fod y newidiadau sylweddol o ganlyniad i drosglwyddo wardiau Ystum Taf a Riverside o’r etholaethau y maent wedi bod ynddynt ers blynnyddoedd lawer, i’r

dwyrain a'r gorllewin o Afon Taf yn y drefn honno, hefyd yn ddadleuon cryf yn erbyn y cynnig.

Pe bai'r Comisiwn yn derbyn dadleuon y Ceidwadwyr mewn perthynas â Nelson, Ffynnon Taf, Pont-y-clun a Trowbridge, byddem fodd bynnag yn dadlau, yn hytrach na mabwysiadu eu gwrthgynnig, y dylid ei ddiwygio i alluogi wardiau Llanrhymni a Thredelerch i aros yn Ne Caerdydd a Phenarth, gan barchu'r cysylltiadau sydd rhyngddynt, a throsglwyddo Trowbridge i etholaeth sirol Gogledd Caerdydd. Nodwn fod gan Trowbridge gysylltiadau â Phontpennau/Yr Hen Laneirwg oherwydd y datblygiadau preswyl parhaus â rhan o Laneirwg i'r de a'r dwyrain o ffordd yr A48 (gweler y map, sy'n dangos y wardiau fel y maent yn y cynigion cychwynnol).

Pontpennau/Yr Hen Laneirwg a Trowbridge



Byddai'r gwrthgynnig hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ward Dinas Powys fod o fewn etholaeth fwrdeistrefol De Caerdydd a Phenarth, ac fel y dadleuwn uchod, mae hwn yn drefniant rhesymegol.

Pen-y-bont ar Ogwr ac Aberafan

Nodwn gytundeb eang fod yn rhaid i'r tair etholaeth bresennol, sef Aberafan, Pen-y-bont ar Ogwr, ac Ogwr, gael eu hailgyflunio i bob pwrpas i greu dwy sedd gyfan newydd. Mae'r Blaid Lafur yn cytuno â chynigion y Comisiwn ar gyfer y ddwy sedd, sef etholaeth sirol Pen-y-bont ac etholaeth sirol Aberafan Porthcawl. Credwn ei bod yn rhesymegol creu'r ddwy sedd gan ddefnyddio'r prif goridorau trafnidiaeth sy'n amlwg yn adlewyrchu daearyddiaeth yr ardal i raddau helaeth. Byddai hynny'n parchu cysylltiadau Maesteg, Cwm Llynfi a Chwm Garw â thref Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn cysylltu Port Talbot â Phorthcawl mewn etholaeth sy'n canolbwyntio ar yr M4 a chymunedau arfordirol Aber Afon Hafren. Byddem yn tynnu sylw'r Comisiwn at gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar Chris Elmore AS a Stephen Kinnock AS mewn perthynas â'r ardal hon.

Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn torri'r cysylltiadau rhwng Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, a fu yn yr un etholaeth ers blynyddoedd lawer, ond teimlwn fod y gwrthgynnig a fyddai'n eu gosod yn yr un sedd yn creu etholaeth anymarferol sy'n cysylltu Aberafan a Maesteg, sy'n mynd yn groes i'r prif gysylltiadau trafnidiaeth gyda'r ddwy ran wedi'u cysylltu gan isffyrdd yn unig ar draws ucheldiroedd prin eu poblogaeth. Unwaith eto, byddem yn cyfeirio at gyflwyniad Chris Elmore AS yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd a nododd rai o'r materion sy'n ymwneud â'r cynnig hwn.

Rydym yn derbyn bod cysylltiadau'n bodoli rhwng dwy ward Cefn Glas a Llangewydd and Brynhyfryd â thref Pen-y-bont ar Ogwr, a phe bai'r Comisiwn yn credu bod angen adfer y cysylltiadau hynny, byddem yn cymeradwyo gwrthgynnig Chris Elmore AS a Stephen Kinnock AS, a nodwyd yn eu cyflwyniadau i'r gwrandawriadau yng Nghaerdydd ac yn Abertawe yn y drefn honno, y gellir cynnwys ward Cefn Cribwr yn etholaeth sirol Aberafan Porthcawl yn lle hynny.

Castell-nedd ac Abertawe


Fel y nodir uchod, mae'r newidiadau mawr i etholaeth sirol Castell-nedd yn ofid i ni, ond credwn mai trosglwyddo Cwm Tawe Uchaf i Aberhonddu a Maesyfed yw'r ffordd orau o gynyddu nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno. Mae hyn yn golygu

bod angen creu sedd sy'n cynnwys gweddill Castell-nedd, ynghyd â thair ward Coed-ffranc yn Aberafan, a dwyrain Abertawe, a dwy sedd arall yn gyfan gwbl o fewn Dinas Abertawe.

Mae'r Blaid Lafur wedi gwneud gwrthgynnig ar gyfer y tair sedd hyn ac rydym wedi nodi ein dadleuon o'i blaid yn ein sylwadau llafar ac ysgrifenedig blaenorol, a gefnogwyd gan dystion eraill. Yn gyffredinol, mae cyfanswm o 136,514 o etholwyr yn aros yn eu prif etholaeth olynol (sef 90.8% o'r etholwyr yng Ngŵyr, 69.6% yng Nghastell-nedd, a 69.9% yng Ngorllewin Abertawe) o gymharu â 119,995 o dan y Cynigion Cychwynnol, lle mae sedd Gorrlewin Abertawe yn cael ei ddiddymu'n dechnegol, a byddai etholaeth sirol arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe yn cynnwys mwy o etholwyr o Ddwyrain Abertawe. Rydym yn derbyn bod y gwrthgynnig yn parhau i rannu Cyngor Cymuned y Mwmbwls rhwng dwy etholaeth, ond wrth barchu ffin bresennol yr etholaeth, mae hyn yn parhau'n gyson â'r meini prawf statudol.

Byddem yn tynnu sylw'r Comisiwn at gynrychiolaeth ysgrifenedig 9908 gan Geraint Davies AS sy'n gwneud dadleuon cymhellol o dan y rheolau statudol ar gyfer ein gwrthgynnig.

Mae manylion ein gwrthgynnig wedi'u nodi isod:



Etholaeth a Nifer yr Etholwyr	Wardiau
Etholaeth fwrdeistrefol Canol Abertawe 73,412	Y wardiau canlynol yn Ninas a Sir <u>Abertawe</u> : Bôn-y-maen, Y Castell, Cwmbwrla, Glandŵr, Mayals, Mynydd-bach, Penderi, St. Thomas, Sgeti, Townhill, Uplands
Etholaeth sirol Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd 76,841	Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Sirol <u>Castell-nedd Port Talbot</u> : Aberdulais, Blaen-gwrach, Gogledd Bryn-côch, De Bryn-côch, Llangatwg, Cimla, Coed-ffranc Ganol, Gogledd Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc, Y Creunant, Dyffryn, Glyn-nedd, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Onllwyn, Pelenna, Resolfen, Blaendulais, Tonna Y wardiau canlynol yn Ninas a Sir <u>Abertawe</u> : Clydach, Llansamlet, Treforys
Etholaeth sirol Gorllewin Abertawe a Gŵyr 76,801	Y wardiau canlynol yn Ninas a Sir <u>Abertawe</u> : Llandeilo Ferwallt, Cocyd, Dynfant, Fairwood, Gorseinon, Gŵyr, Tre-gŵyr, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Pontybrenin, Llangyfelach, Llchwyr Isaf, Mawr, Mayals, Newton, Ystumllwynarth, Penclawdd, Penlle'r-gaer, Pennard, Penyrheol, Pontarddulais, Llchwyr Uchaf, West Cross

Sir Gaerfyrddin

Nodwn y gwrthgynnig a wnaed dros gynnwys ward Llangynnwr o fewn etholaeth sirol Caerfyrddin ac rydym yn derbyn bod ganddi gysylltiadau cryf â thref Caerfyrddin, fel y nodir mewn nifer o gyflwyniadau i'r gwrandawiadau cyhoeddus. Ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad pe bai'r Comisiwn yn cynnig yr adolygiad hwn i'w Cynigion Cychwynnol.

Canolbarth a Gogledd Cymru

Mae'r newidiadau a gynigiwyd gan y Comisiwn o ran etholaeth sirol Aberhonddu a Maesyfed yn caniatáu i'r ffin â Sir Drefaldwyn aros yn ddigyfnewid, ac mae'r Blaid Lafur yn cefnogi hynny. Rydym yn croesawu'n fawr y ffordd gynyddrannol gyffredinol y mae'r Comisiwn wedi gwneud newidiadau i seddau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru tra'n derbyn bod yn rhaid i seddau presennol De Clwyd a Dyffryn Clwyd fod ymhlith y rhai sy'n cael eu diddymu'n dechnegol. Credwn fod cynigion y


Comisiwn yn cadw cyfanrwydd y prif gymunedau yn y seddau hynny, ac y lleihau nifer yr etholwyr sy'n symud seddau.

Felly, mae pob etholwr yn seddau presennol Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Maldwyn a Wrecsam yn aros yn yr un etholaeth, fel y mae 88.2% o'r etholwyr yn Nelyn a 70.2% o'r etholwyr yng Ngorllewin Clwyd. Credwn fod y rhain yn gryfderau sylweddol ac yn amlwg yn gyson â'r meini prawf statudol. Mae etholaeth sirol arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr ac etholaeth Sirol Clwyd ill dwy yn cynnwys etholwyr o ddwy etholaeth bresennol yn unig.

Nid ydym yn credu bod yr anghyfleustra cymharol fach o gynnwys dwy ward o Fwrdeistref Sirol Wrecsam yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn gorbwyso'r manteision hyn, yn enwedig gan fod hanes o drefniant o'r fath â ward Llai yn cael ei chynnwys fel rhan o Alun a Glannau Dyfrdwy rhwng 1983 a 1997. Credwn hefyd fod gan wardiau Argoed, Coed Llai a New Brighton gysylltiadau â Bwcle yn ogystal â'r Wyddgrug. Mewn cyferbyniad, mae tref y Fflint a Bagillt wedi bod yn rhan o etholaeth sirol Delyn ers creu'r sedd yn 1983 a'r Fflint yw'r dref fwyaf ynddi ar hyn o bryd. Felly, nid ydym yn cefnogi gwrthgynnig y Ceidwadwyr, er ei fod yn golygu bod un etholaeth yn llai ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, oherwydd mae'n cyflawni hynny wrth wneud sedd Delyn, y byddem yn dadlau, yn un anghydweddol ac afresymegol wrth hepgor y Fflint ond ymestyn yr etholaeth i'r de cyn belled â Chorwen a Llandrillo. Byddai'r cynnig yn lleihau nifer yr etholwyr yn etholaeth Delyn sy'n aros yn y sedd a ail-enwir i 42,068 (76.9%), a'r nifer sy'n aros yn etholaeth sirol Clwyd fel olynydd i etholaeth sirol Gorllewin Clwyd i 38,715 (67.0%). Byddai etholaeth sirol De Clwyd yn cael ei rhannu rhwng tair sedd newydd yn hytrach na dwy, ac yn torri'r cysylltiadau rhwng Corwen a Llangollen.

Rydym yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru gyda phob etholwr yn etholaeth sirol Dwyfor Meirionnydd yn aros yn yr etholaeth honno. Nodwn y bu gwrthwynebiadau yn erbyn eithrio ward Pentir o etholaeth sirol Aberconwy a derbyniwn fod ganddi gysylltiadau â Dinas Bangor. Felly, byddem yn cefnogi gwrthgynnig a fyddai'n mynd i'r afael â hyn, o ystyried y gellir symud y ward i etholaeth sirol arfaethedig Aberconwy heb unrhyw sgil-ffeithiau ychwanegol o

ganlyniad. Nodwn y cefnogwyd hyn gan y Blaid Geidwadol yn y gwrandawriad yn Aberystwyth, a hefyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol.



Yn sicr, ni fyddem yn cefnogi'r gwrthgynnig gan Blaid Cymru ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru, sy'n creu sedd ddiangen sy'n ymestyn dros bedwar awdurdod, â'r enw Meirionnydd, Nant Conwy a Dinbych.

Enwau a Dynodiadau Etholaethau

Nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r enwau a gynigir gan y Comisiwn a byddem yn gyffredinol yn annog y dylid eu cadw mor gryno â phosibl. Er ei bod yn briodol i'r Comisiwn addasu enwau etholaethau lle bu newid sylweddol, nid ydym yn credu y dylai'r broses hon fod yn un o roi disgrifiad o'r sedd yn hytrach na dim ond teitl sy'n nodi'n syml yr ardal gyffredinol i breswylwyr ac i eraill sydd angen ei ddefnyddio at ba ddiben bynnag.

Nodwn fod nifer o wrthgynigion wedi'u gwneud gan eraill, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni welwn unrhyw fudd iddynt. Credwn fod etholaeth sirol Maldwyn a Glyndŵr yn enw llawer mwy cryno na Maldwyn a De Clwyd. Credwn fod Clwyd yn ddisgrifiad cwbl dderbyniol sy'n cydnabod y newidiadau a wnaed i etholaeth sirol Gorllewin Clwyd, a chredwn fod newid enw Delyn i Ddwyrain Clwyd yn gwbl ddiangen os cedwir cynigion y Comisiwn.

Ar ôl pwyso a mesur, byddem yn dadlau dros Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn hytrach na Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, gan gydnabod ym mhob achos mai dyna'r etholaeth bresennol sy'n cyfrannu fwyaf.

Nodwn fod y Blaid Geidwadol wedi cynnig galw etholaeth sirol arfaethedig Aberconwy yn 'etholaeth sirol Aberconwy a Bangor'. Nid ydym yn cefnogi hyn, fodd bynnag, gan nad Bangor, mewn gwirionedd, fyddai'r anheddiad mwyaf yn yr etholaeth, a byddwn yn cefnogi cadw'r enw Aberconwy.

Pan fydd y Cynigion Diwygiedig wedi'u cyhoeddi, byddwn yn gwneud sylwadau manylach ar enwau'r etholaethau fel y'u cynigir bryd hynny.

Casgliad

Hoffem ddiolch i'r Comisiwn unwaith eto am eu gwaith ar Arolwg 2023. Edrychwn ymlaen at dderbyn y Cynigion Diwygiedig pan gânt eu cyhoeddi a gwneud sylwadau arnynt.

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 16:55

At: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Y Comisiwn Ffiniau - Ail Gyfnod Ymgynghori

Annwyl Gomisiynwyr

Gweler y sylwadau atodedig

A fyddech cystal â chadarnhau eich bod wedi'u derbyn?

Cofion gorau

Jo



Jo Stevens AS

Aelod Seneddol dros Ganol Caerdydd

Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol Cymru



Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings
Caerdydd
CF24 0BL

Drwy e-bost

29 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiynwyr,

Cyfeiriaf at fy sylwadau ysgrifenedig cynharach, CFfiG-10023, ac at fy nhystiolaeth lafar i wrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd ddydd Iau 17 Chwefror. Mae'r sylwadau ysgrifenedig pellach hyn yn ymateb yn bennaf i'r gwrthgynigion a wnaed i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Canol Caerdydd a'r tair sedd gyfagos yn y brifddinas.

Bydd y sylwadau hyn yn trafod y gwrthgynigion a'u cydymffurfiaeth â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 o Ganllaw'r Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 i'r Ddeddf yn nodi y gellir ystyried y ffactorau a ganlyn wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion:

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn arbennig, maint, siâp a
- hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu a oedd yn arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau
- yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Felly, mae fy sylwadau yn cael eu cyfyngu gan hynny.

Cynigion Cychwynnol

Rwyf wedi croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd. Rwy'n gwneud hynny fel yr Aelod Seneddol presennol ac fel preswylydd. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion sydd wedi'u gwneud ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae'r etholaethau nodweddiadol o fawr o wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O ystyried bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig rhesymegol i ymestyn etholaeth bresennol Canol Caerdydd gan ychwanegu wardiau Tredelerch a

Jo Stevens AS

Aelod Seneddol dros Ganol Caerdydd
Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol Cymru

Llanrhymni yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Hoffwn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd sydd eisoes â chysylltiadau cymunedol o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. Heb os, dyma'r ddwy brif ward lle mae cyfran sylweddol iawn o boblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw.

Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol sydd gan ardaloedd Cathays, Plasnewydd ac, yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn golygu bod trigolion y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o amgylch ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn rhai hirsefydlog ac yn cael eu parchu, fel y dylent, gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae plant ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Gyfun Bro Edern (sydd ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd/Y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "Y Rhath" wedi'i hen sefydlu ac wedi'i ddeall yn dda. Mae'n cael ei ddefnyddio mewn enwau ysgolion, fel Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein tirnodau daearyddol fel Cae Hamdden y Rhath, "Y Rec", sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn mynd i siopa yn ardal Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae plant ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays ac yn teithio ar hyd prif dramwyfeydd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu taith i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "Y Rhath" wedi'i hen sefydlu ac wedi'i ddeall yn dda. Mae'r enw'n cael ei ddefnyddio ar ein tirnodau daearyddol fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, ac mae'r ddau wedi'u lleoli yn ward Cyncoed. Mae trigolion y ddwy ward yn dueddol o fynd i Heol Albany a Heol Wellfield, yn arbennig, er mwyn siopa a defnyddio cyfleusterau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yn etholaeth Canol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith bod gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da iawn a sefydledig eisoes, o ran ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays.



Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau sydd â chysylltiadau lleol dwfn ac eang â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Y brif ardal hamdden, a safle hen ŵyl hanesyddol Llanrhymni, yw Cae Hamdden Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Mae nifer o wrthgynigion yn ymwneud â Chanol Caerdydd a'r tair etholaeth gyfagos yng Nghaerdydd wedi'u gwneud. Ar ôl darllen y gwrthgynigion a gwranddo ar y dystiolaeth lafar a chwestiynau ac atebion yn ymwneud â'r dystiolaeth yng ngwrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd, ddydd Iau 17 Chwefror, awgrymaf nad ydynt yn cynrychioli atebion gwell, ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau sydd wedi'u hamlinellu yn Rheol 5, Atodlen 2 i'r Ddeddf.

Gwrthgynnig y Blaid Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb ddim ymresymu perswadiol amlwg) symud ward Glan-yr-Afon, sydd wedi'i lleoli ar ochr orllewinol Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd gweld dim rhesymeg yn y cynigion hyn o gymharu â chynnig cychwynnol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5, o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol, drwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd ar ochr orllewinol Afon Taf.

Mewn gwirionedd mae ward Glan-yr-Afon yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), sydd i'r dwyrain o Afon Taf. Mae canol y ddinas yn cynnwys eiddo masnachol yn bennaf (siopau, bwytai, bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) gyda rhai fflatiau yng nghanol y ddinas.

Mae ward Glan-yr-Afon yn ardal breswyl yn bennaf ac er gwaetha'r enw, mae'n ymestyn ymhell o gyffiniau uniongyrchol yr afon. Mae de Glan-yr-Afon yn un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, gyda chysylltiadau lleol agos iawn ag ardal Treganna gerllaw, gydag ardal siopa Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sydd hefyd yn brif lwybr bysiau) yn ffurfio cysylltiad pwysig rhwng y ddwy ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn siopa ar hyd Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. Mewn gwirionedd, mae ward Glan-yr-Afon yn cwrdd rhannau helaeth o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o'r trigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna, ac yn dod i ben yn Lecwydd a Heol Llandaf.

I'r trigolion lleol, yr ardal lle mae wardiau Treganna a Glan-yr-Afon yn cwrdd ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r lle sy'n cael ei ystyried fel

calon cymuned Treganna.

Mae Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Glan-yr-Afon hefyd drwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg - fel sy'n gynyddol wir am Dreganna gerllaw. Mae mwyafrif llethol y plant o ward Glan-yr-Afon yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd, maen nhw'n bennaf yn mynychu Ysgol Uwchradd Fitzalan (Ward Treganna), Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (Y Tyllgoed), ac Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru (Llandaf).

Yn ymarferol, ychydig iawn o gysylltiadau cymunedol sydd dros yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Glan-yr-Afon ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol amlwg iawn Afon Taf, ond hefyd gan yr ardal fasnachol yng nghanol y ddinas, y ganolfan ddinesig, a darnau mawr o barcdir.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy etholaeth wahanol. Unwaith eto, mae hyn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol arwyddocaol rhwng y wardiau. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth ddiwygiedig ar gyfer Gogledd Caerdydd. Does dim cysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontprenau a Phentref Llanelwyr.

Yn wir, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn gyfyngedig iawn rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol does dim cysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 ac o ran parchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu bod cyfanswm o dair ward etholiadol yng Nghaerdydd yn symud o'u hetholaethau presennol; o gymharu â'r ddwy ward y mae Cynigion Cychwynnol y Comisiwn yn effeithio arnynt.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig, sy'n symud Tredelerch a Llanrhymni yn ôl i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd Bychan i Ganol Caerdydd, hefyd yn methu ag ystyried y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae cysylltiad agos iawn rhwng ward Gabalfa a ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, sef un o'r ystadau tai hynaf yng Nghymru, yn pontio'r ddwy ward. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa at ei gilydd. Mae trigolion Gabalfa ac Ystum Taf yn siopa yn ardal Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio â ward Llanisien. Mae cysylltiad agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig o ran cysylltiadau trafnidiaeth, ond hefyd yn sgil dalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau a chyfleusterau. O ystyried pa mor agos yw ysgolion fel Ton-yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw gerllaw yn Llanisien yn mynychu'r ysgol. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, gyda rheilffordd yn rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad i gyfleusterau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Siopa Tŷ Glas Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.



Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 i'r Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gallai'r Comisiwn eu hystyried.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae cynigion cychwynnol y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae gwrthgynigion y Ceidwadwyr yn symud tair ward.

Mae gwrthgynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i etholaeth wahanol.

Nid yw'r naill gynnig na'r llall yn ateb gwell na chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mewn gwirionedd, mae'r ddau gynnig yn atebion gwaeth.

Unrhyw 'cysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau

Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' y mae gwrthgynnig y Ceidwadwyr yn effeithio arnynt yn arwyddocaol o ran effaith eu cynigion ar Lan-yr-Afon, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' y mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn effeithio arnynt yn arwyddocaol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phentyrch.

Nid yw'r naill gynnig na'r llall yn ateb gwell na chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mewn gwirionedd, mae'r ddau yn ateb gwaeth gyda chynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn fod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a Sblot yn y cynigion cychwynnol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae mwy o fethiannau gan bob un o'r gwrthgynigion o ran cadw at y ffactorau statudol yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n cynnig, felly, y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholiadol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf a'r cynigion hynny hefyd yw'r rhai sy'n tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

Yn gywir



Jo Stevens AS

Aelod Seneddol dros Ganol Caerdydd
Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol Cymru

**Jo Stevens AS Aelod
Seneddol dros Ganol
Caerdydd**

BCW -10205/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 29 Mawrth 2022 15:55

I: CFFiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau i'r Ffiniau

Wedi'i atodi mae fy ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau

[REDACTED]

[REDACTED]

29 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn

Ysgrifennaf fel **preswylydd lleol**. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a byddaf yn cyfeirio yn gryno at y tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd - Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn rhoi sylw i'r gwrthgynigion a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gysylltiedig â Gogledd Caerdydd.

Rwy'n croesawu'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n golygu bod yr etholaeth yn aros fwy neu lai yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, yn eu cyfanrwydd, yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fyddai'n newid etholaeth. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhyddi at Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol Afon Taf ac o gofio'r cysylltiadau trafndiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos fel ychwanegiad naturiol at yr etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tuag at yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf o Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd â chysylltiadau trafndiaeth prin a dim synnwyr o gysylltiad â'i gilydd. Prin sydd gan y ddwy gymuned ar y naill ochr i'r afon a'r llall yn gyffredin ac eithrio'r enw Saesneg ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol ac nid yw'n cydnabod y cysylltiadau

Ileol presennol chwaith. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn haneru un o'r ystadau tai hynaf yng Nghymru. Mae Mynachdy yn rhannol yng Ngabalfa. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd wedi'u cysylltu a cheir mynediad atynt trwy gylchfan Gabalfa.

Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol chwaith rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig dilynol rhwng Trowbridge a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n golygu bod Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau nesaf at ei gilydd, mae gan y Mynydd Bychan gysylltiadau agos â Llanisien o ran trafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Lifestyle Caerdydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I grynhoi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a'r rhain sy'n tarfu leiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynigion.

Diolch am roi eich ystyriaeth i hyn.

Yn gywir,



BCW-10206/ Cyng Graham Hinchey/ Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 09:49

I: CFFiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Sylwadau Comisiwn Ffiniau GH 290322 29 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn

Wedi'i atodi mae fy sylwadau i gefnogi cynnig gwreiddiol y Comisiwn Ffiniau i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf i fodloni'r ystod etholiadol statudol o etholwyr.

Mae pob etholwr rydw i wedi siarad gyda nhw wedi'u syfrdanu bod eraill yn cynnig rhoi'r Mynydd Bychan, un o'r cymunedau cyswllt hynaf a mwyaf sefydledig, yn Ne Caerdydd, sydd â ffin sylweddol yn ei rhannu, sef yr A48(M).

Fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd Llywodraethwyr yn ein dwy ysgol gynradd, gallaf sicrhau bod llawer o gysylltiadau hirsefydlog gydag Ysgolion Uwchradd yr Eglwys Newydd a Llanisien yng ngogledd y ddinas, sy'n cefnogi teuluoedd, cyfeillgarwch, chwaraeon, grwpiau cymunedol yn y Mynydd Bychan a Llwynbedw i ardal ehangach Gogledd Caerdydd.

Gofynnaf i chi beidio â chadarnhau dim un o'r cynigion eraill i symud y Mynydd Bychan i Ganol Caerdydd, gan y byddai hyn yn arwain at effaith ddinistriol i lawer o deuluoedd a phobl ifanc yng ngogledd y ddinas.

Cofion | Regards

[REDACTED]

Y Cyng | Cllr Graham Hinchey

Cynghorydd Llafur Cymru dros y Mynydd Bychan a Llwynbedw

Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd | Cabinet Member for Children & Families

Cyngor Caerdydd | Cardiff Council

Ysgrifennaf fel cynghorydd lleol, preswlydd a llywodraethwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol yn Ysgolion Cynradd Llwyn Bedw a Thon yr Ywen. Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd, a byddaf yn cyfeirio'n gryno at dair sedd gyfagos arall – Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn trafod y gwrthgynigion a gynigiwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori mewn perthynas â Gogledd Caerdydd.

Croesawaf y Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Caerdydd lle bydd yr etholaeth yn aros yn gyfan i raddau helaeth, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rydw i hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth a fydd, gyda'i gilydd, yn golygu symud dim ond dwy ward yn etholaeth Caerdydd.

Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Rhymni a Llanrhymni i Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol yr Afon Taf, ac o ystyried y cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd y ddinas, byddai Ffynnon Taf yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth. I'r gwrthwyneb llwyr, nid yw'r gwrthgynnig a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo'n gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd, a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tua'r Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol yr Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf oddi wrth Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd heb lawer o gysylltiadau trafnidiaeth a dim ymdeimlad o gysylltiad â'i gilydd. Does gan y ddwy gymuned ar ochrau cyferbyniol yr afon ddim llawer yn gyffredin rhyngddyn nhw heblaw am yr enw Saesneg, felly dydy'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd ddim yn synhwyrol na chwaith yn cydnabod cysylltiadau lleol presennol. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn torri un o ystadau tai hynaf Cymru yn ei hanner. Mae Mynachdy yng Ngabalfa yn rhannol. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd oll yn gysylltiedig, ac rydych yn eu cyrraedd drwy gylchdro Gabalfa.

Does dim cysylltiad naturiol rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge chwaith. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd, a'r cysylltiadau trafnidiaeth prin o ganlyniad i hynny rhwng Trowbridge a gogledd y ddinas. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n arwain at symud Gabalfa a'r Mynydd Bychan i Ganol Caerdydd hefyd yn methu ag ystyried y cysylltiadau lleol cryf sydd yn y wardiau hyn. Fel wardiau cyfagos, mae cysylltiadau agos gan y Mynydd Bychan a Llanisien drwy drafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Siopa Tŷ Glas, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I gloi, rydw i'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodwyd uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a nhw yw'r rhai lleiaf ymyrrol eu natur, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel yr hyn a gynigir yn y gwrthgynigion.

Diolch am eich ystyriaeth. Yn gywir,
Cyng Graham Hinchey (Ward y Mynydd Bychan)

BCW-10207/ [REDACTED] / Anhysbys

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 07:19

I: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Etholaeth Seneddol Arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf atoch i roi fy nghefnogaeth lawn i'r Etholaeth Seneddol arfaethedig newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Rydw i'n credu mai dyma'r cynnig tecaf ar gyfer yr ardaloedd dan sylw wrth symud ymlaen gyda'r etholaethau newydd arfaethedig. Pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, gobeithiaf y bydd yr Etholaeth Seneddol hon yn cael ei chadarnhau fel Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

Diolch.

Cofion

[REDACTED]

BCW-10208/ Ceidwadwyr Cymreig/ Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 10:00

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]
[REDACTED]

Pwnc: Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol

Annwyl Foneddigion,

Atodaf lythyr gan Gadeirydd y Ceidwadwyr Cymreig ynghyd ag ymateb y blaid i Ail Gam Ymgynghori'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Y Ceidwadwyr Cymreig
[REDACTED]


Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

30 Mawrth 2022

Annwyl Foneddigion,


Mae'n bleser mawr gennyf amgáu Ymateb y Ceidwadwyr Cymreig i Ail Gam Ymgynghori'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol Cymru.

Yr eiddoch yn gywir,





**Cadeirydd
Y Ceidwadwyr Cymreig**



AROLWG FFINIAU

**Ymateb gan y Ceidwadwyr Cymreig i'r Ail Gam
Ymgynghori ynghylch y Cynigion Cychwynnol ar gyfer
Etholaethau Seneddol yng Nghymru**

CYNNWYS

1. Cyflwyniad *t2 - 3*
2. Gwent *t4 - 7*
3. Morgannwg Ganol a De Morgannwg *t8 – 10*
4. Gorllewin Morgannwg a Rhan o Bowys *t11 - 13*
5. Dyfed *t14 - 16*
6. Gogledd Cymru *t17- 20*
7. Gwrthgynigion *t21*
8. Casgliad *t22*

Atodiad A: Cymharu cynigion y Comisiwn â chynigion y pleidiau gwleidyddol o ran cysylltiadau llywodraeth leol ac etholwyr a gedwir. *t23*

Atodiad B: Gwrthgynigion eraill o ran cysylltiadau llywodraeth leol ac etholwyr a gedwir. *t24 – 25*

Atodiad C: Cymharu gwrthgynigion ar gyfer Gogledd Cymru'n unig â chynigion y Comisiwn o ran cysylltiadau llywodraeth leol ac etholwyr a gedwir. *t26*

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ymateb hwn yn ategu ymateb y Ceidwadwyr Cymreig i'r cynigion cychwynnol. (Cynrychiolaeth rhif 9809). Ynghyd â'r dystiolaeth lafar a roddwyd gan [REDACTED] ar ran y Blaid yn y gwrandawiadau yng Nghaerdydd ar 17 Chwefror ac yn Aberystwyth ar 30 Mawrth.
- 1.2 Ni fyddwn yn ailadrodd y pwyntiau a wnaed yn ein cyflwyniad gwreiddiol ond yn hytrach, canolbwyntiwn ar gynrychiolaethau 8848 – 10075 a gyflwynwyd a'n safbwynt ninnau arnynt.
- 1.3 Nodwn fod llawer o'r cynrychiolaethau, tua 20% yn ôl pob tebyg, yn ymdrin â materion sydd y tu hwnt i gwmpas y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Er enghraifft, cwynion am nifer yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru. Ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar unrhyw un o'r rhain oni bai bod pwynt penodol i'w wneud.
- 1.4 Nodwn ymhellach fod nifer o'r cynrychiolaethau wedi camddeall natur y cynigion, gan gredu, er enghraifft, eu bod yn newid ffiniau cynghorau lleol.
- 1.5 Nodwn fod nifer o wrthgynigion yn ymdrin â Chymru gyfan, neu Ogledd Cymru, neu'n cyfyngu'r gwrthgynnig i nifer fach o etholaethau. Byddwn yn gwneud sylwadau ar y rhain ar yr adeg briodol yn ein hymateb, ond pan fyddwn wedi edrych ar yr holl etholaethau, byddwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o rai o'r gwrthgynigion allweddol.
- 1.6 Byddwn yn mesur yr holl gynigion yn erbyn meini prawf y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Byddwn yn cyfeirio drwy gydol y ddogfen hon at Reol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf.
- 1.7 Mewn nifer fach o achosion, credwn y gallai fod modd gwella ar ein safbwynt gwreiddiol o ganlyniad i astudio'r cynrychiolaethau yn yr achosion hyn. Byddwn yn nodi hynny yn yr adran briodol.
- 1.8 Er i ni ddilyn y Comisiwn yn ein dogfen wreiddiol gan edrych ar bob etholaeth yn nhrefn yr wyddor, credwn ei bod yn well yn y ddogfen hon ein bod yn edrych ar y cynigion ar sail ddaearyddol.
- 1.9 Fel y gwnaethom yn ein tystiolaeth lafar yn y gwrandawiadau, byddwn yn rhannu Cymru rhwng 5 grŵp neu is-ranbarth, â phob un yn cynnwys nifer o awdurdodau lleol.
- 1.10 Bydd ein his-ranbarthau fel a ganlyn:

Ardal	Awdurdodau Lleol	Seddau
Gwent	Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen	6
Morgannwg Ganol a De Morgannwg	Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Bro Morgannwg	8
Gorllewin Morgannwg a rhan o Bowys	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Brycheiniog a Maesymfed	6
Dyfed	Ceredigion, Sir Penfro, Sir Gâr	4
Gogledd Cymru a rhan o Bowys	Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Drefaldwyn	7

- 1.11 Nid ydym yn credu bod angen i ni wneud unrhyw sylwadau pellach ar etholaeth warchodedig Ynys Môn.
- 1.12 Nodwn fod yr is-ranbarthau hyn yn adlewyrchu cynigion y Comisiwn Ffiniau ac eithrio yn achos un ward yng Ngwent (sef Nelson, sydd wedi'i chynnwys ym Morgannwg Ganol a De Morgannwg). Nodwn fod ein cynnig ni, a nifer o rai eraill, yn unioni'r anghysondeb hwn.
- 1.13 Mae rhai gwrthgynigion yn croesi'r ffiniau hyn, sy'n debygol o olygu llai o gydymffurfiaeth â Rheol 5 (1) b.
- 1.14 Credwn fod yr is-ranbarthau hyn yn darparu ar gyfer cadw at y Rheolau yn y ffordd orau bosibl a dyna pam rydym yn eu cefnogi.
- 1.15 Awn ati nawr i archwilio pob un o'r pum is-ranbarth, gan roi ein hymateb i'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

2. GWENT

- 2.1 Mae'r is-ranbarth hwn yn cwmpasu awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen.
- 2.2 Mae gan y pum awdurdod lleol hyn yr hawl i chwe sedd yn union, ac felly mae'r dyraniad yn gywir iawn.
- 2.3 Nodwn o fewn y grŵp hwn fod dau awdurdod, sef Sir Fynwy a Thorfaen, o fewn y cwota. Mae gan y tri awdurdod arall, sef Blaenau Gwent, Caerffili a Chasnewydd, yr hawl i bedair sedd yn union.
- 2.4 Nodwn fod cefnogaeth eang i'r cynnig y dylai Sir Fynwy fod yn gydffiniol â ffiniau'r awdurdod lleol.
- Nodwn y cefnogir hyn gan Gyngor Sir Fynwy â chyflwyniad wedi'i lofnodi gan bob un o'r pedwar arweinydd grŵp (9893).
- 2.5 Nodwn hefyd fod hyn yn cael cefnogaeth gan yr Aelod Seneddol, David Davies (9392), yr Aelod o'r Senedd, Peter Fox (9502), a nifer o unigolion ac eraill, er enghraifft, 8868, 8895, 9388, 9396, 9408, 9503, 9670, 9680, 9689, 9699 a 9993.
- 2.6 Nodwn fod rhywfaint o wrthwynebiad, er ei fod yn llai na'r gefnogaeth, o rai ardaloedd yn Nwyrain Casnewydd ar hyn o bryd. Nodwn fod llawer o hyn i'w weld yn deillio o ddymuniad i beidio â cholli'r AS presennol, ond nid yw hwn yn ffactor y gellir ei ystyried.
- 2.7 Nodwn fod cefnogaeth eang ac ychydig iawn o wrthwynebiad yn erbyn cael Torfaen yn gydffiniol â'r Cyngor.
- Nodwn fod hyn yn cynnwys yr AS lleol, Nick Thomas-Symonds (9795) ynghyd â nifer o gynrychiolaethau, er enghraifft, 8906, 9026, 9295, 9370, 9446 a 9613 o Bont-y-pŵl, y byddem yn tynnu sylw'r Comisiwn yn benodol at eu cynrychiolaeth.
- 2.8 Nodwn hefyd gefnogaeth y Blaid Lafur (10049), y Democratiaid Rhyddfrydol (9992), yn ogystal â nifer o wrthgynigion, gan gynnwys 9622, 9822, 9952, 10055 a 10070, o ran cael Sir Fynwy a Thorfaen yn gydffiniol.
- 2.9 Nodwn wrthwynebiad cyfyngedig i hyn, yn neilltuol gan Blaid Cymru (10021) a gwrthgynnig (9768)
- Rydym yn nodi bod Plaid Cymru yn rhannu Sir Fynwy yn dair, sef sefyllfa waeth na'r sefyllfa bresennol, a gaiff ei gwella o dan y cynigion.
- 2.10 Ni welwn unrhyw gyfiawnhad o gwbl dros unrhyw gynigion amgen ar gyfer Sir Fynwy neu Dorfaen. Mae'n cydymffurfio â Rheol 5 (1) b ac rydym yn llwyr gefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau.
- 2.11 Felly, mae angen creu pedair etholaeth ar gyfer awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili a Chasnewydd.
- 2.12 Nodwn mai dyma beth mae'r Comisiwn wedi'i gynnig, ac eithrio un ward yng Nghaerffili, sef Nelson, y cynigir ei chynnwys ym Merthyr Tudful ac Aberdâr.
- 2.13 Nodwn fod cefnogaeth gyffredinol i etholaethau arfaethedig Dwyrain Casnewydd a Blaenau Gwent a Rhymni.

- 2.14 Nodwn fod etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd yn gyfan gwbl o fewn awdurdod lleol Casnewydd, ac mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 2.15 Nodwn gefnogaeth yr AS Llafur dros Ddwyrain Casnewydd, Jessica Morden (9922), ac mae cefnogaeth bellach i Ddwyrain Casnewydd/Casnewydd, er enghraifft 9663, 9734, 9737, 9835 a 10036.
- 2.16 Nodwn fod y Blaid Lafur (10049) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (9992) yn cefnogi'r cynnig hwn.
- 2.17 Nodwn gefnogaeth nifer o wrthgynigion ar gyfer y cynnig hwn, gan gynnwys 9622, 9952, 10055 a 10070.
- 2.18 Er bod 10070 yn cefnogi Dwyrain Casnewydd, nodwn ei bod yn rhannu awdurdod lleol Casnewydd rhwng tair sedd, gan waethygu'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) b. Mae 9875 hefyd yn rhannu Casnewydd yn dair.
- 2.19 Mae cynnig y Blaid Werdd (9924) yn waeth, gan rannu Casnewydd rhwng pedair sedd.
- 2.20 Mae rhai cynigion gan gynnwys rhai Plaid Cymru (10021) yn rhannu Dwyrain Casnewydd rhwng dau awdurdod lleol.
- 2.21 Mae'r cynigion hyn yn rhannu Dwyrain Casnewydd rhwng Sir Fynwy a Chasnewydd, ac mae hyn yn waeth o dan Reol 5 (1) b yn y ddau achos.
- 2.22 Felly, cefnogwn yn gryf yr etholaeth Dwyrain Casnewydd fel y'i cynigir, gan ei bod yn cydymffurfio'n dda â Rheol 5 (1) b.
- 2.23 Nodwn nad oes llawer o wrthwynebiad yn erbyn sedd arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni, sy'n estyniad rhesymegol o sedd bresennol Blaenau Gwent.
- 2.24 Nodwn gefnogaeth yr AS dros Flaenau Gwent, Nick Smith (9877) ynghyd â chefnogaeth cynrychiolaeth 9926.
- 2.25 Nodwn gefnogaeth y Blaid Lafur (10049) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (9992) i'r etholaeth arfaethedig hon.
- 2.26 Nodwn fod Plaid Cymru (10021) yn rhannu awdurdod lleol bach Blaenau Gwent rhwng dwy etholaeth. Mae hyn yn gwaethygu'r sefyllfa bresennol ac yn torri Rheol 5 (1) b a Rheol 5 (1) c.
- 2.27 Felly, rydym yn cefnogi'n gryf etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni.
- 2.28 Nodwn fod llawer mwy o ddadlau ynghylch dwy sedd arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ac Islwyn.
- 2.29 Nodwn fod y Blaid Lafur (10049) yn cefnogi'r ddwy sedd hyn fel y'u cynigir.
- 2.30 Nodwn hefyd fod Aelod Seneddol Llafur Islwyn, Chris Evans (9500), ac Aelod o'r Senedd Llafur Islwyn, Rhianon Passmore (9501), yn cefnogi Islwyn fel y'i cynigir, ac maent yn gwneud dadleuon cryf iawn dros gysylltu cymunedau yn yr etholaeth arfaethedig. Nodwn gefnogaeth i Islwyn yng nghynrychiolaeth 9358.
- 2.31 Nodwn hefyd y cynrychiolaethau o blaid cysylltu Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, er enghraifft, 9373, 9819 a 9831. Yn ogystal â gwrthgynnig 9952, sydd hefyd yn cefnogi cynnwys Nelson yn Islwyn yn hytrach nag ym Merthyr Tudful ac Aberdâr.
- 2.32 Nodwn ymhellach fod yr AS Llafur dros Islwyn (Chris Evans) wedi gwneud achos cryf iawn o blaid sedd arfaethedig Islwyn yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Nodwn hefyd gefnogaeth [REDACTED] a [REDACTED], [REDACTED] a [REDACTED], sy'n breswylwyr yng Nghaerffili, o blaid sedd arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

- 2.33 Fodd bynnag, gwerthfawrogn fod rhywfaint o bryder ynghylch cysylltu Caerffili a Gorllewin Casnewydd, ac mae gwrthgynnig sydd ond yn effeithio ar etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ac Islwyn. Byddwn yn cyfeirio at hwn fel cynrychiolaeth 9929 gan Wayne David, AS dros Gaerffili.
- 2.34 Er bod nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi Mr David, mae geiriad nifer fawr ohonynt yn debyg iawn.
- 2.35 Mae'n cwyno bod ei etholaeth yn cael ei rhannu rhwng pedair etholaeth. Byddai ei gynnig ef yn ei rhannu rhwng tair etholaeth, ond byddai Islwyn, y cynigir ei rhannu rhwng dwy, yn cael ei rhannu rhwng tair yn ôl ei gynnig ef.
- 2.36 Yn ein barn ni, yr agwedd waethaf ar rannu Caerffili rhwng pedair yw hepgor ward Nelson a'i chynnwys ym Merthyr Tudful ac Aberdâr.
- 2.37 Daw Nelson yn ward amddifad. Mae Merthyr Tudful ac Aberdâr yn cynnwys tri awdurdod lleol ac mae Bwrdeistref Caerffili'n cael ei rhannu rhwng pedair etholaeth yn hytrach na thair.
- 2.38 Nodwn fod cynrychiolaethau 8913, 8983, 8985, 9801, 10059 a 10065 yn gwrthwynebu cynnwys Nelson ym Merthyr Tudful ac Aberdâr. Er ein bod yn cydnabod bod rhai o'r rhain yn cynnwys eitemau na all y Comisiwn eu hystyried, maent hefyd yn dangos y cysylltiadau lleol agos ag awdurdod lleol Caerffili, a ward Ystrad Mynach yn enwedig. Mae cynrychiolaeth 9143 yn dangos y cysylltiad rhwng Ystrad Mynach a Nelson.
- 2.39 Nodwn yn benodol fod preswilydd yn ward Nelson, yng nghynrychiolaeth 10059, yn crybwyll cynllun amgen i gynllun Wayne David. Fodd bynnag, nid yw Wayne David yn mynd i'r afael â mater Nelson, a dyma'r ffordd waethaf o rannu Caerffili yn ein barn ni.
- 2.40 Felly, byddem yn cyfuno Nelson ag Ystrad Mynach a wardiau Caerffili yn Islwyn, a gellir gwneud hyn heb unrhyw addasiad arall. Wrth wneud hynny, fel Wayne David, rydym yn rhannu etholaeth bresennol Caerffili'n dair yn hytrach na phedair. Rhennir Islwyn yn ddwy ac nid tair. Mae Cyngor Caerffili'n cynnwys tair etholaeth yn hytrach na phedair, ac mae Merthyr Tudful a Rhymni'n cynnwys dau gyngor lleol yn hytrach na thri.
- 2.41 Mae ein cysylltiadau llywodraeth leol yn llawer gwell ac rydym yn adfer cysylltiadau lleol rhwng Nelson ac Ystrad Mynach. Mae hyn yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) b a Rheol 5 (1) d.
- 2.42 Nodwn fod Aelod Seneddol Gorllewin Casnewydd, Ruth Jones (10043), ac Aelod o'r Senedd Gorllewin Casnewydd, Jayne Bryant (9921), ill dwy yn cynnig etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd ynghyd â dwy ward Rhisga, ond nid ydynt yn ymdrin â'r canlyniadau yn sgil hynny.
- 2.43 Credwn fod cynnig y Comisiwn ar gyfer Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ac Islwyn, yn well na'r gwrthgynnig.
- 2.44 Credwn fod y cysylltiadau rhwng Caerffili drwy ward Bedwas, Trethomas and Machen ar hyd yr A468 i Gasnewydd yn gryf iawn ac yn llawer gwell na chysylltiadau wardiau Argoed a Phenmaen, er enghraifft, â Chasnewydd. Nodwn fod gan Argoed a Phenmaen gysylltiadau cryf iawn â'r Coed Duon a fyddai'n cael eu torri o dan y gwrthgynigion, yn groes i Reol 5 (1) d.
- 2.45 Ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad i'r enw Caerffili a Gorllewin Casnewydd ar yr etholaeth, fel yr awgrymwyd yng nghynrychiolaeth 9594, oherwydd mae gan Gaerffili gyfran ychydig yn fwy o'r etholwyr.

- 2.46 Felly, credwn fod cynigion y Comisiwn ar gyfer Gwent yn rhesymegol ac yn bodloni'r Rheolau orau, a gellir eu gwella ymhellach wrth ychwanegu ward Nelson at etholaeth Islwyn.
- 2.47 Nodwn fod ein cynigion ar gyfer Gwent yn cael eu hadlewyrchu'n union gan wrthgynnig 9766 ac rydym yn eu cymeradwyo i'r Comisiwn.

3. MORGANNWG GANOL A DE MORGANNWG

- 3.1 Mae'r is-ranbarth hwn yn cynnwys awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, a Bro Morgannwg.
- 3.2 Mae gan y pedwar awdurdod lleol hyn hawl i wyth etholaeth. Nodwn fod y Comisiwn yn cynnig wyth etholaeth sy'n cynnwys ward Nelson ym Mwrdeistref Caerffili. Rydym wedi esbonio pam y byddem yn cynnwys y ward hon yn ein cynnig amgen arfaethedig ar gyfer Gwent.
- 3.3 Cefnogwn y cysyniad o gysylltu awdurdod lleol Merthyr Tudful ag Aberdâr. O ran Merthyr Tudful, nodwn fod cynrychiolaeth 9603 yn cefnogi hyn, yn ogystal â 9843, sy'n nodi bod "cysylltiadau agosach rhwng Merthyr ac Aberdâr na Merthyr a Rhymni".
- 3.4 Nodwn mai Merthyr Tudful yw'r awdurdod lleol sydd â'r nifer lleiaf o etholwyr yng Nghymru. Mae'n gyfan ar hyn o bryd, ond byddai Plaid Cymru (10021) yn ei rannu rhwng dwy etholaeth, a byddai Plaid Werdd Cymru yn ei rannu rhwng tair etholaeth. Mae hyn yn amlwg yn torri Rheol 5 (1) b a Rheol 5 (1) c.
- 3.5 Nodwn fod llawer o wrthwynebiadau ynghylch rhannu Cwm Cynon. Yn benodol, gwahanu Aberdâr oddi wrth Aberaman. Nodwn yn arbennig y sylwadau gan Gyngor Rhondda Cynon Taf (9866), a chynrychiolaethau 9190, 9685 a 9647. Hefyd, mae Plaid Lafur Cwm Cynon (9793) a'r cynghorydd dros Ogledd Aberaman (9790) yn dangos y cysylltiadau agos iawn rhwng Aberdâr ac Aberaman .
- 3.6 Felly, credwn fod achos helaeth dros gynnwys Gogledd Aberaman a De Aberaman yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Wrth hepgor Nelson, byddai'n cynnwys dau awdurdod lleol yn hytrach na thri, gan gydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b. Gan y byddai cysylltiadau lleol yn cael eu hadfer rhwng Aberdâr ac Aberaman, byddai hefyd yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 3.7 Nodwn y daw cynrychiolaethau o Aberpennar, ond nid oes modd cynnwys Aberpennar hefyd, felly mae angen ei chynnwys ym Mhontypridd. Byddem hefyd yn cynnwys ward Cwmbach, sydd â chysylltiadau ag Aberpennar.
- 3.8 Ni fyddem yn gwrthwynebu cynnwys Aberpennar yn enw'r etholaeth, fel yr awgrymwyd yng nghynrychiolaeth 9339.
- 3.9 Nodwn fod nifer o wrthwynebiadau yn erbyn cynnwys Pont-y-clun a Ffynnon Taf yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn y drefn honno.
- 3.10 Er y credwn fod angen cynnwys Pont-y-clun mewn etholaeth Caerdydd oherwydd y niferoedd, credwn hefyd fod cysylltiadau da rhwng Pont-y-clun a Chreigiau a Sain Ffagan yng Ngorllewin Caerdydd.
- 3.11 Nodwn hefyd fod rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig hwn, e.e. 9088, 9165, 9774, a'r Blaid Lafur (10049).
- 3.12 Nodwn hefyd fod llawer o'r cynrychiolaethau o Bont-y-clun o dan y camagraff eu bod yn cael eu cynnwys yng Nghyngor Caerdydd ac y bydd gwasanaethau'n newid. Mae cynrychiolaeth 9090 yn enghraifft o rywun sydd wedi'i gamarwain.
- 3.13 Fodd bynnag, nid chredwn fod angen cynnwys dwy ward o Riondda Cynon Taf yn etholaethau Caerdydd.
- 3.14 Felly, byddem yn gosod Ffynnon Taf, sy'n cynnwys Nantgarw, ym Mhontypridd.

- 3.15 Nodwn fod nifer o wrthwynebiadau yn erbyn cynnwys Ffynnon Taf yng Ngogledd Caerdydd, gan gynnwys oddi wrth Gyngor Rhondda Cynon Taf (9866), Plaid Lafur Pontypridd (9743), y Cyng. Jonathan Bishop (9000) a 9661.
- 3.16 Wrth gynnwys Ffynnon Taf ym Mhontypridd, nodwn fod Rhondda Cynon Taf yn cael ei rannu rhwng pedair etholaeth yn hytrach na phump o dan y cynigion cychwynnol. Felly, mae hyn yn welliant o dan Reol 5 (1) b.
- 3.17 Nodwn nad oes llawer o wrthwynebiadau yn erbyn etholaeth arfaethedig Rhondda. Ar ben hynny, o ran yr ardal a ddaw i mewn i'r etholaeth o etholaeth bresennol Ogwr, nodwn gefnogaeth gan y Cyng. Williams, sy'n Gynghorydd Cymuned yn ward Llanharan (9240). Felly, rydym yn cefnogi etholaeth Rhondda fel y'i cynigiwyd gan y Comisiwn.
- 3.18 Nodwn mai prin yw'r cynrychiolaethau o Gaerdydd ynghylch y cynigion. Daw'r rhan fwyaf o'r cynrychiolaethau o wardiau mewn awdurdodau lleol gwahanol sydd wedi'u cynnwys yn etholaethau Caerdydd.
- 3.19 Nodwn fod cynrychiolaeth gan wasanaethau etholiadol Caerdydd (9623). Mae'n yn tynnu sylw at yr anghyfleustra o gynnwys wardiau o awdurdodau eraill. Gobeithiwn, o dan ein cynigion, y byddwn yn gwella hyn ychydig wrth gynnwys un ward yn llai, sef Ffynnon Taf, yn un o etholaethau Caerdydd (Gogledd Caerdydd), a fydd yn cynnwys un awdurdod lleol yn unig yn hytrach na dau. Mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b.
- 3.20 Nodwn fod nifer o sylwadau ar etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth sy'n crybwyll diffyg unrhyw gysylltiad rhwng wardiau Sblot a Trowbridge.
- 3.21 Mae cynrychiolaeth 10070 yn dweud bod yr etholaeth yn anghyswllt. Mae cynrychiolaeth 8896 yn herio'r Comisiwn i gerdded o Trowbridge i weddill yr etholaeth heb wlychu. Mae'r gynrychiolaeth hon yn dangos y cysylltiadau rhwng Tredelerch a Trowbridge ac mae'n darparu map defnyddiol. Mae 9038 hefyd yn awgrymu lle y dylid cynnwys Tredelerch.
- 3.22 Nodwn fod ychwanegu Tredelerch at Dde Caerdydd a Phenarth a hepgor Dinas Powys yn golygu bod yr etholaeth wedi'i llunio'n gyfan gwbl o wardiau o'r etholaeth bresennol. Felly, mae'n cydymffurfio'n dda â Rheol 5 (1) c. Gan nad oes unrhyw rannau datgysylltiedig, mae hefyd yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) a.
- 3.23 Nodwn fod gan y Democratiaid Rhyddfrydol (9992) yr un cynigion yn union ag sydd gennym ninnau ar gyfer De Caerdydd a Phenarth.
- 3.24 Byddem yn cynnwys Llanrhymni yng Ngogledd Caerdydd a nodwn fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud hynny hefyd (9992). Yn ogystal, mae ein sedd Gogledd Caerdydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Cyngor Cymuned Llaneirwg (9490).
- 3.25 Yn ogystal â hepgor Ffynnon Taf, byddem yn hepgor Ystum Taf, gan ei chyfuno â Llandaf yng Ngorllewin Caerdydd.
- 3.26 Nodwn fod llawer o wrthgynigion yn cyfuno'r ddwy ward yn yr un etholaeth, gan gynnwys rhai Plaid Cymru (10021), Plaid Werdd Cymru (9924) a 9622, 9766, 9822, 10055 a 10070.
- 3.27 O ganlyniad i uno Llandaf â Gorllewin Caerdydd, gallwn ychwanegu ward Riverside at holl wardiau presennol Canol Caerdydd. Nodwn fod Plaid Werdd Cymru (9924) yn cynnwys Riverside â nifer o wardiau Canol Caerdydd.
- 3.28 O ganlyniad i'r newidiadau hyn, gallwn gadw ward Dinas Powys yn ei hetholaeth bresennol, sef Bro Morgannwg.

- 3.29 Nodwn mai dyma'r unig etholaeth yng Nghymru lle mae nifer yr etholwyr yn caniatáu iddi beidio â newid. Credwn mai dyma'r ateb gorau posibl ac mae'n cydymffurfio'n dda â Rheol 5 (1) c.
- 3.30 Nodwn lawer o wrthwynebiadau yn erbyn cynnwys Dinas Powys yn Ne Caerdydd a Phenarth, ac er bod rhai o'r rhain yn gwneud pwyntiau ynghylch y cyswllt â Chaerdydd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos y cysylltiadau sy'n cael eu torri wrth wahanu oddi wrth y Barri.
- 3.31 Nodwn fod yr Aelod Seneddol, Alun Cairns (9930), yn cefnogi cadw Dinas Powys ym Mro Morgannwg, ynghyd â nifer o gynrychiolaethau gan gynnwys, er enghraifft, 9657, 9798, 9808, 9888, 9905, 9909, 9920, 9960 a 10020.
- 3.32 Nodwn hefyd fod y Democratiaid Rhyddfrydol (9992) a gwrthgynnig 9875 yn rhoi'r union un cynnig â ninnau o ran cynnwys Dinas Powys ym Mro Morgannwg.
- 3.33 Wrth gadw Dinas Powys ym Mro Morgannwg, rydym yn adfer cysylltiadau lleol, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 3.34 Nodwn gefnogaeth y Cyng. Adrian Robson (9815) i'n cynigion ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.
- 3.35 Nodwn y cynrychiolaethau gan Andrew RT Davies AS, Aelod Rhanbarthol o'r Senedd dros Ganol De Cymru (9903). Nodwn ei fod yn dadlau bod cysylltiadau cymunedol yn cefnogi ein gwrthgynigion ar gyfer y rhanbarth hwn.
- 3.36 Yn ogystal, nodwn y gefnogaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd dros gynnwys Dinas Powys ym Mro Morgannwg. Yn benodol, nodwn dystiolaeth [REDACTED], sy'n breswlydd gydol oes ac yn gynghorydd dros ward Dinas Powys.
- 3.37 Nodwn fod nifer o wrthgynigion sydd heb eu hategu gan unrhyw gynrychiolaeth leol a fyddai'n rhannu Bro Morgannwg, gan gysylltu'r Barri â Phenarth a Chaerdydd mewn rhai achosion, ac mae rhai sy'n cysylltu Porthcawl â Bro Morgannwg. Gwrthodwn yr holl newidiadau hyn gan eu bod yn rhannu etholaeth bresennol, felly maent yn waeth o dan Reol 5 (1) c, a Rheol 5 (1) b mewn rhai achosion. Maent hefyd yn torri cysylltiadau lleol â Bro Morgannwg, ac mae hyn yn waeth o dan Reol 5 (1) d.
- 3.38 Felly, cynigiwn newidiadau bach ym Morgannwg Ganol a De Morgannwg sy'n adlewyrchu'n benodol y pryderon yn Aberaman a Dinas Powys. Mae ein cynigion yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) b, Rheol 5 (1) c a Rheol 5 (1) d.

4. GORLLEWIN MORGANNWG A RHAN O BOWYS

- 4.1 Mae'r is-ranbarth hwn yn cynnwys awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, ac Abertawe, ac ardaloedd Brycheiniog a Maesymfed ym Mhowys.
- 4.2 Mae gan yr ardal hon hawl i chwe etholaeth, dyna sydd wedi'u dyrannu iddi, a chefnogwn hyn yn llawn.
- 4.3 Mewn perthynas â dwy etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl a Phen-y-bont, credwn fod y wardiau sy'n ffurfio'r ddwy etholaeth hyn yn gywir, ond bod y ffin arfaethedig rhwng y ddwy yn ddiffygiol ac nid yw'n cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 4.4 Nodwn fod mwy o wrthwynebiadau yn erbyn y ddwy etholaeth arfaethedig hyn nag unman arall yn Ne Cymru. Nodwn y daw'r gwrthwynebiadau o Bort Talbot a Phorthcawl, a daw'r nifer fwyaf o Ben-y-bont ar Ogwr ei hun.
- 4.5 Nodwn rai o'r gwrthwynebiadau yn unig yn sylwadau 8939, 8942, 8961, 8973, 8986, 8993, 9006, 9016, 9017, 9050, 9057, 9173, 9180, 9225, 9308, 9547, 9630, 9666.
- 4.6 Nodwn hefyd y gwrthwynebiadau cynhwysfawr gan yr AS dros Ben-y-bont ar Ogwr, Jamie Wallis (9878).
- 4.7 Nodwn fod llawer o gynrychiolaethau'n nodi hefyd fod tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i rhannu rhwng dwy etholaeth. Nodwn yn benodol y cynrychiolaethau niferus o wardiau Cefn Glas, Llangewydd and Brynhyfryd, a Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr. Mae'r cynrychiolaethau hyn yn dangos yn glir y cysylltiadau lleol sy'n cael eu torri, gan wahanu'r wardiau hyn oddi wrth wardiau Pen-y-fai, Y Castellnewydd, a'r Hengastell ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- 4.8 Credwn mai hwn yw un o'r achosion mwyaf difrifol o dorri cysylltiadau lleol yng Nghymru gyfan, a byddai ein cynnig yn unioni hyn, gan adeiladu ar etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr. Felly, byddai'n cydymffurfio'n llawer gwell â Rheol 5 (1) c a Rheol 5 (1) d.
- 4.9 Nodwn fod y Democrataid Rhyddfrydol (9992) hefyd yn adfer etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr, er eu bod yn ychwanegu wardiau gwahanol ati.
- 4.10 Nodwn hefyd nifer o wrthgynigion sy'n adfer Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys 9622 a 10070.
- 4.11 Nodwn hefyd fod nifer o gynigion, fel ein rhai ninnau, yn cysylltu Port Talbot â Maesteg, megis rhai'r Democrataid Rhyddfrydol (9992), 9622 a 10070.
- 4.12 Felly, cefnogwn ffordd amgen o gyflunio'r ddwy etholaeth, sy'n parchu cysylltiadau lleol ac etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr yn llawer gwell.
- 4.13 Cefnogwn yn gryf gyfansoddiad etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesymfed.
- 4.14 Er bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r etholaeth hon, nodwn fod hyn yn llai na nifer o wrthwynebiadau eraill, er enghraifft, mewn perthynas ag etholaeth Pen-y-bont.
- 4.15 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gwrthwynebiad hwn, er bod rhywfaint ohono yn seiliedig ar gamsyniad a chamddealltwriaeth. Er enghraifft, mae 9119 a 9120, sy'n rhugl iawn ac yn dadlau'n dda, yn rhagdybio y bydd yn rhaid iddynt fynd i Aberhonddu i weld eu AS.
- 4.16 Mae llawer o'r gwrthwynebiadau yn ymwneud â maint yr etholaeth. Rydym yn cydnabod mai hon yw'r etholaeth fwyaf a gynigir, ond mae'n rhaid i etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesymfed ehangu, a byddai unrhyw newid arall yn cynyddu ei maint yn fwy na'r cynnig hwn.
- 4.17 Un o'r camddealltwriaethau amlwg yw natur etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesymfed.
- 4.18 Nid Aberhonddu yw'r dref fwyaf yn yr etholaeth bresennol, ond Ystradgynlais, sy'n rhan o Gwm Tawe ac sy'n cysylltu'n dda iawn ag Ystalyfera a Phontardawe. Mae pob un o'r cymunedau hyn

yn rhan o Gwm Tawe ac yn gyfagos i Afon Tawe.

- 4.19 Nodwn fod nifer o'r cynrychiolaethau, er mai gwrthwynebiadau ydynt mewn rhai achosion, yn cydnabod y cysylltiadau rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera, er enghraifft, cynrychiolaethau 8852, 10041 a 10044.
- 4.20 Nodwn fod y blaid Lafur (10049) yn cefnogi'r etholaeth gan ddweud ei bod yn "estyniad naturiol o'r etholaeth bresennol sy'n cynrychioli cysylltiadau rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera."
- 4.21 Nodwn hefyd gefnogaeth yr AS dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, Fay Jones (9932) a'r gefnogaeth gan gynrychioliadau 8876, 8905 a 9980, a byddem yn tynnu sylw'r Comisiwn yn benodol at yr un olaf.
- Yn ogystal, nodwn dystiolaeth Tom Giffard, Aelod Rhanbarthol o'r Senedd dros Orllewin De Cymru, yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe.
- 4.22 Daw bron i 25% o'r etholwyr o awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot, ac ynghyd ag ardal Ystradgynlais, yng Nghwm Tawe y byddai tua thraean yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig.
- 4.23 Pwy bynnag fyddai'r Aelod Seneddol dros yr etholaeth hon, ni allent anwybyddu'r etholwyr hyn. Byddent yn sicr yn cynnal cymorthfeydd yn ardal Cwm Tawe. (Mae'r AS dros Frycheiniog a Sir Faesyfed yn cynnal cymorthfeydd yn Ystradgynlais ar hyn o bryd). Mae'n bosibl y byddant hyd yn oed yn penderfynu cael swyddfa neu is-swyddfa yng Nghwm Tawe. Nid oes unrhyw reswm pam y byddai angen i etholwyr fynd i Aberhonddu, oherwydd byddai'r AS yn dod atyn nhw.
- 4.24 Nodwn y daw cynrychiolaeth 10070 o Gastell-nedd ac mae'n rhoi gwrthgynnig ar gyfer Cymru gyfan. Cymeradwywn y datganiad yn y gynrychiolaeth hon sy'n dweud; "Rwy'n cytuno mai Cwm Tawe Uchaf yw'r man gorau i etholaeth Aberhonddu a Maesyfed groesi ffin sirol Powys i ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad poblogaeth yr etholaeth yn dda, gan mai Aberhonddu ac Ystradgynlais yw'r trefi mwyaf o bell ffordd, ac maent ar lwybr y bws T6 TrawsCymru i Gastell Nedd ac Abertawe. Mae Ystradgynlais yn rhan o ardal drefol gyffyrddol gydag Ystalyfera sydd ar draws y ffin sirol yng Nghastell-nedd Port Talbot – dyma groesi ffin mewn ffordd gwbl hwylus. Da iawn i'r Comisiwn am daro ar y syniad hwn".
- 4.25 Nodwn fod cynrychiolaethau 8923, 9715 a 9980, er eu bod yn cefnogi'r etholaeth, yn awgrymu y dylid adlewyrchu ardal Cwm Tawe yn yr enw. Dywedodd un o'r cynrychiolaethau y byddai hynny'n fwy cynhwysol. Rydym yn cytuno, a chredwn y gellir ymdrin â llawer o'r camddealltwriaethau pe rhoddir iddi enw fel Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe Uchaf, neu Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, neu unrhyw ddewis arall sy'n cynrychioli'r ardal a ddaw i mewn i'r etholaeth yn ogystal ag Ystradgynlais.
- 4.26 Nodwn fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot (9890) yn gwrthwynebu ond heb unrhyw wrthgynigion amgen. Hefyd, mae Plaid Lafur Castell-nedd (9870) yn rhoi gwrthgynnig lle mae'r ddau gynnig amgen y tu allan i'r cwmpas, gyda Chastell-nedd ymhell dros y cwota ac Aberhonddu a Maesyfed ymhell o dan y cwota.
- 4.27 Cytunwn â'r ddwy gynrychiolaeth hyn wrth ddweud mai Castell-nedd fydd ardal fwyaf etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd ac felly dylai ddod yn gyntaf yn enw'r etholaeth. Nodwn hefyd mai dyna yw barn Cyngor Tref Castell-nedd (9492) ac yng ngwrthgynnig 10070.
- 4.28 Nodwn fod llawer o wrthwynebiadau yn erbyn cysylltu Castell-nedd ag Abertawe. Gobeithiwn y bydd cael Castell-nedd yn gyntaf yn enw'r etholaeth yn lleddfu rhywfaint ar hynny.
- 4.29 Nodwn fod Cyngor Cymuned Coed-ffranc (9574) o blaid cynnwys Coed-ffranc yn etholaeth Castell-nedd.
- 4.30 Cefnogwn etholaethau arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, a Chanol a Gogledd

Abertawe, er y byddem yn newid enw'r un gyntaf ac yn dynodi'r ail yn etholaeth sirol.

- 4.31 Edrychom i weld a ellir cael cyfluniad arall ar gyfer y ddwy sedd. Nodom gynrychiolaeth 9792 sy'n datgan bod y Comisiwn wedi llunio "sedd resymegol Gŵyr a Gorllewin Abertawe sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r hyn y mae barn leol yn ei ystyried yw Gŵyr".
- 4.32 Nodwn fod y gynrychiolaeth yn datgan achos cryf, ond mae'n rhaid rhannu wardiau er mwyn cyflawni'r gwrthgynnig ar gyfer y ddwy sedd hyn. Pe bai ffordd well o gyflunio'r ddwy sedd hyn, byddem yn agored iddi, ond credwn mai maint y wardiau yn benodol sy'n gwneud hyn yn anodd iawn.
- 4.33 Cefnogwn yn gryf etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr, ond gan mai Gŵyr sydd â'r nifer fwyaf o etholwyr, credwn mai Gŵyr ddylai ddod yn gyntaf yn yr enw.
- 4.34 Nodwn fod Cymdeithas Gŵyr (9429) hefyd yn credu y dylai elfen Gŵyr ddod yn gyntaf yn yr enw, er ei bod yn ymddangos nad oes ganddi unrhyw wrthwynebiad i gyfansoddiad yr etholaeth.
- 4.35 Nodwn fod cefnogaeth o blaid etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr yng nghynrychiolaeth 9827 a gwrthgynnig 9822.
- 4.36 Nodwn hefyd y gefnogaeth gan y Cyng. Lyndon Jones (10071) a'r cynghorydd dros ward Fairwood (9804) sy'n dangos y dadleuon cryf dros y cysylltiad a gynigir. Nodwn hefyd y dystiolaeth a roddwyd gan y Cyng. Lyndon Jones, [REDACTED] a [REDACTED] yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe.
- 4.37 Ceir rhai gwrthgynigion amgen ar gyfer y tair sedd, ond nid ydym yn credu bod gan y rhain lawer o gefnogaeth leol a chredwn eu bod yn israddol i'r cynigion.
- 4.38 Yn benodol, nodwn y gwrthgynnig gan Geraint Davies AS (9908) a'r Blaid Lafur (10049) sy'n hepgor Sgeti a Mayals o'r etholaeth arfaethedig.
- 4.39 Un o agweddau cadarnhaol y cynnig yw aduno Cyngor Cymuned y Mwmbwls wrth gynnwys Mayals â West Cross, Newton ac Ystumllwynarth. Byddai'r gwrthgynnig hwn yn golygu rhannu'r Mwmbwls. Deallwn mai un o nodau'r Comisiwn, a gyflawnodd yn y cynnig hwn ac mewn un yn Ne Ddwyrain Cymru, oedd sicrhau nad oedd unrhyw gyngor cymuned yn cael ei rannu. Cefnogwn y nod hwn yn llwyr ac felly cefnogwn y cynnig a gwrthodwn y gwrthgynnig.
- 4.40 Nodwn fod gwrthgynnig 10070 yn datgan, "Rwy'n cymeradwyo'r Comisiwn am aduno cymuned y Mwmbwls o fewn un etholaeth. Mae awydd pobl ward Mayals i fod yn etholaeth Gŵyr gyda gweddill cymuned y Mwmbwls yn etholaeth Gŵyr wedi codi dro ar ôl tro mewn arolygon blaenorol."
- 4.41 Felly, rydym yn cefnogi cyfansoddiad yr etholaethau yn Abertawe, Castell-nedd ac Aberhonddu a Maesfed, yn amodol ar rai newidiadau i enwau a dynodiadau.

5 DYFED

- 5.1 Mae'r is-ranbarth hwn yn cwmpasu awdurdodau lleol Sir Gâr, Ceredigion a Sir Penfro.
- 5.2 Mae gan y tri awdurdod lleol hyn hawl i bedair etholaeth yn union. Nodwn mai dyma'r hyn y mae'r Comisiwn yn ei ddyrannu iddynt a chefnogwn hyn yn llwyr.
- 5.3 Nodwn fod gan Sir Gaerfyrddin hawl i ddwy etholaeth yn union, a bod hawl i ddwy etholaeth yn union gan Geredigion a Sir Benfro ar y cyd. Nodwn fod hyn yn cynrychioli'r dyraniad a gynigir gan y Comisiwn a chefnogwn hyn yn llwyr.
- 5.4 Nodwn fod pob un o'r pedair plaid wleidyddol sydd â chynrychiolaeth yn San Steffan neu Senedd Cymru, sef y Blaid Geidwadol (9809), y Democratiaid Rhyddfrydol (9992), Plaid Cymru (10021) a'r Blaid Lafur (10049), yn cefnogi'r cynnig y dylid dyrannu dwy etholaeth i Sir Gaerfyrddin a dwy etholaeth i Geredigion a Sir Benfro, er bod rhai ohonynt yn cynnig mân newidiadau o fewn y grwpiau hyn.
- 5.5 Mae'r dyraniad hwn yn cydymffurfio'n dda â Rheol 5 (1) b a chredwn y byddai unrhyw newid yn israddol i'r cyfuniad hwn.
- 5.6 Er bod cytundeb cyffredinol y dylai Sir Gaerfyrddin gynnwys dwy sedd gyfan, mae rhywfaint o anniddigrwydd ynghylch y ffordd y mae'r ddwy etholaeth arfaethedig wedi'u cyflunio.
- 5.7 Nodwn fod y Blaid Lafur (10049) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (9992) yn cefnogi dyrannu'r ddwy etholaeth arfaethedig yn llawn. Nodwn hefyd y gefnogaeth yng nghynrychiolaethau 9224 a 9359.
- 5.8 Y prif bryder yw bod ardaloedd sydd â chysylltiadau agos iawn â Chaerfyrddin yn cael eu cynnwys yn etholaeth Llanelli yn hytrach nag etholaeth Caerfyrddin. Amlinellir hyn mewn nifer o gynrychiolaethau gan gynnwys 8848, 8978, 9046, 9112, 9355, 9361, 9362, 9368, 9369, 9532, 9570, 9718, 9950, 9968.
- 5.9 Credwn fod achos cryf iawn dros gynnwys ward Llangynnwr yng Nghaerfyrddin. Rydym wedi cynnig hyn, fel y gwna gwrthgynnig 9766 a'r Cyng. Rob Jones, Arweinydd Llafur Cyngor Sir Gâr (9958). Nodwn fod Plaid Cymru (10021) yn symud y ward hon hefyd, er y byddent yn symud wardiau eraill yn ogystal. Gellir symud ward Llangynnwr heb unrhyw newidiadau eraill gan fod y ddwy etholaeth yn aros o fewn y cwota.
- 5.10 Nodwn y cefnogir hyn yn benodol gan Gyngor Cymuned Llangynnwr (10015) hefyd.
- 5.11 Wedyn, mae'n rhaid i chi benderfynu a gaiff wardiau eu cyfnewid rhwng y ddwy etholaeth, fel yr awgrymwyd, er enghraifft, gan Gyngor Tref Llanelli (9435) a Chyngor Cymuned Llandyfaelog (9439).
- 5.12 Nodwn y gwrthgynigion hyn, ond ni allwn gysoni eu ffigurau o ran nifer yr etholwyr. Fodd bynnag, mae eu holl newidiadau yn aros o fewn y cwota.
- 5.13 Yn ogystal â Llangynnwr, tybiwn eu bod yn dymuno cynnwys wardiau Llanismel a Llangyndeyrn yng Nghaerfyrddin.
- 5.14 Nodwn fod llawer o'r pryderon y cyfeirir atynt yn 5.8 yn dod o'r wardiau hyn, a nodwn fod Cyngor Cymuned Llangyndeyrn (10006) hefyd yn dymuno cael ei osod yng Nghaerfyrddin.
- 5.15 Nodwn fod Cyngor Tref Llanelli (9435) a Chyngor Cymuned Llandyfaelog (9439) wedi awgrymu wardiau gwahanol y dylid eu trosglwyddo o Gaerfyrddin i Lanelli fel canlyniad. Mae 9435 yn awgrymu Saron a Phenygroes ac mae 9439 yn awgrymu Rhydaman, Pontaman a Betws. Mae'r ddau awgrym hyn yn ymarferol.

- 5.16 Rydym yn meddwl bod rhinwedd i'r cynigion amgen hyn, a chefnogaeth leol iddynt. Ni fyddem yn gwrthwynebu'r cynnig amgen hwn, yn ogystal â Llangynnwr. Felly, byddem yn cynnwys Llanismel a Llangyndeyrn yng Nghaerfyrddin a symud y naill neu'r llall o'r ddau ddewis a awgrymwyd uchod i Lanelli. Gan fod Cyngor Tref Lanelli wedi awgrymu un ohonynt, byddai'n well gennym gytuno â hynny, ond y mater pwysicaf yw tawelu pryderon lleol yn union i'r de o Gaerfyrddin.
- 5.17 Nodwn fod gan Blaid Cymru (10021) ddatrysiad gwahanol; byddent yn cynnwys Gorslas yn hytrach na Llanismel a Llangyndeyrn. Credwn nad yw hyn yn adlewyrchu pryderon lleol yn briodol.
- 5.18 Fodd bynnag, y prif reswm y byddem yn gwrthwynebu Plaid Cymru yw oherwydd yr hyn y maent yn cynnig ei hepgor o etholaeth arfaethedig Caerfyrddin.
- 5.19 Maent yn cynnig symud Maestref Talacharn, Sanclêr a Llansteffan i Lanelli. Gwrthwynebw'n hyn yn llwyr. Nid oes unrhyw gefnogaeth leol o blaid hyn a chredwn y byddai gwrthwynebiad eang. Mae gan y tair ward hyn gysylltiadau agos â Chaerfyrddin a fyddai'n cael eu torri gan y cynnig hwn, yn groes i Reol 5 (1) d.
- 5.20 Nodwn fod nifer o wrthgynigion a nifer fach iawn o gynrychiolaethau sy'n awgrymu torri ffin Sir Gaerfyrddin er bod ganddi hawl i ddwy etholaeth. Ni allwn weld unrhyw gyfiawnhad dros unrhyw un o'r cynigion hyn, sy'n groes i Reol 5 (1) b.
- 5.21 Nodwn y daw un o'r cynigion hyn oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion (9864). Byddai eu hetholaeth yn cynnwys Ceredigion yn ogystal â wardiau o Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Felly, wrth gynnwys tri awdurdod lleol, byddai'n waeth o dan Reol 5 (1) b. Byddai'n cymryd strbyn hir o ogledd Sir Gaerfyrddin, a fyddai'n torri cysylltiadau lleol pwysig â Chaerfyrddin, a byddai hyn yn waeth o dan Reol 5 (1) d.
- 5.22 Yn ogystal, mae'r cynnig yn hepgor Abergwaun o'r etholaeth arfaethedig. Nodwn gynrychiolaeth 9548 sy'n cefnogi'r cynnig i gysylltu Abergwaun â Cheredigion.
- 5.23 Nodwn hefyd y byddai etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn cynnwys wardiau o Sir Benfro, felly byddai'n cynnwys dau awdurdod lleol yn hytrach nag un o dan y cynnig. Byddai Sir Gaerfyrddin yn cael ei rhannu rhwng tair etholaeth yn hytrach na dwy o dan y cynnig.
- 5.24 Mae'r cynnig hwn yn waeth o lawer o dan y Rheolau, ac yn arbennig Rheol 5 (1) b, ac fe'i gwrthodwn.
- 5.25 Nodwn fod mwy o gynrychiolaethau o blaid etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli nag unrhyw gynnig arall yng Nghymru. Nodwn fod y cynrychiolaethau hyn yn cynnwys 9242, 9411, 9910, 9912, 9913, 9994, 9995, 10019 a llawer o rai eraill.
- 5.26 Nodwn hefyd y gefnogaeth i etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro, gan gynnwys yng nghynrychiolaethau 9097, 9233 a 9403.
- 5.27 Nodwn ymhellach y gefnogaeth i'r ddwy etholaeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol (9992) a gwrthgynigion 9822 a 10070.
- 5.28 Nodwn fod rhywfaint o wrthwynebiad yn erbyn etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli, a ddaw'n bennaf o'r ardal sydd yng Ngheredigion. Mae llawer o'r dadleuon yn ymwneud â maint yr etholaeth arfaethedig ac mae llawer eisiau cadw Ceredigion ar ei phen ei hun. Mae rhai yn awgrymu y dylai Ceredigion fod yn un etholaeth a Sir Benfro'n un etholaeth. Mae hyn yn amlwg y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth.
- 5.29 Ychydig iawn o wrthwynebiadau sydd yn erbyn cynnwys rhannau penodol o ogledd Sir Benfro â Cheredigion.

- 5.30 Nodwn y byddai'r Blaid Llafur (10049) a Phlaid Cymru (10021) yn cynnwys ward Maenclochog â Cheredigion. Mae ganddynt gynlluniau ychydig yn wahanol o ran pa wardiau y dylid eu cynnwys yng Nghanol a De Sir Benfro.
- 5.31 Rydym yn gwrthwynebu cynnwys ward Maenclochog yng Ngheredigion. Nodwn yr awgrymwyd mewn arolwg blaenorol y dylid cynnwys Maenclochog yng Ngheredigion a bod gwrthwynebiad eang i hyn ymhlith preswylwyr y ward.
- 5.32 Yn y gwrthgynnig yng nghynrychiolaeth 10070, nodwn y dywedir, "Rwy'n cytuno'n benodol â'r Comisiwn y dylid cadw ward Maenclochog yng Nghanol a De Sir Benfro o ystyried ei chysylltiadau lleol cryf â thref Arberth".
- 5.33 Felly, cefnogwn ddyrannu pedair etholaeth i Ddyfed, a chefnogwn gyfansoddiad etholaeth Ceredigion Preseli ac etholaeth Canol a De Sir Benfro. Byddem yn cefnogi rhai mân newidiadau rhwng Caerfyrddin a Llanelli i sicrhau bod mwy o wardiau sydd â chysylltiad cryf â Chaerfyrddin yn cael eu cynnwys yn etholaeth Caerfyrddin.

6 GOGLEDD CYMRU

- 6.1 Mae'r is-ranbarth hwn yn cynnwys awdurdodau lleol Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac ardal Sir Drefaldwyn ym Mhowys. Mae gan yr ardal hon hawl i saith etholaeth, dyna beth mae'r Comisiwn wedi'i ddyrannu, a chefnogwn hyn.
- 6.2 Nodwn na fyddai modd dyrannu nifer union o etholaethau i bum awdurdod lleol Gogledd Cymru, ac felly mae ychwanegu Sir Drefaldwyn yn galluogi dyraniad synhwyrol o saith etholaeth.
- 6.3 Cefnogwn yn gryf y cynnig i gadw Maldwyn yn gyfan ac yn gydffiniol â'r etholaeth, ac mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c. Nodwn fod nifer o wrthgynigion sy'n rhannu Maldwyn; rydym yn gwrthwynebu'r rhain.
- 6.4 Nodwn fod y Comisiwn wedi cynnig rhannu Maldwyn mewn arolwg blaenorol. Fodd bynnag, bryd hynny roedd nifer y seddau a nifer yr etholwyr yn wahanol, ac nid oedd ffordd resymegol o gadw Maldwyn yn gyfan, ond gellir gwneud hynny'r tro hwn.
- 6.5 Nodwn y bu gwrthwynebiadau eang yn erbyn rhannu Maldwyn yn ystod yr arolwg blaenorol, a disgwyliwn mai dyma fydd y sefyllfa'r tro hwn.
- 6.6 Nodwn fod nifer o gynrychiolaethau o blaid cadw Maldwyn yn gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolaethau 8865, 9419, 9430, 9434, 9438, 9829 a 9914, sy'n cefnogi'r etholaeth ond yn awgrymu newid yr enw. Nodwn hefyd gefnogaeth yr Aelod Seneddol, Craig Williams (9814).
- 6.7 Yn ogystal, nodwn y gefnogaeth o blaid cadw Maldwyn yn gyfan a glywyd yn y gwrandawriad yn Wrecsam gan y cyn ASau [REDACTED], [REDACTED] ac [REDACTED].
- 6.8 Nodwn fod llawer o'r gwrthwynebiadau yn dod o ardaloedd Wrecsam a Sir Ddinbych, y cynigir eu hychwanegu at Faldwyn. Nodwn fod llawer ohonynt yn cwyno am faint yr etholaeth arfaethedig.
- 6.9 Nodwn fod nifer o wrthgynigion sy'n cynnig Maldwyn a Meirionnydd. Gwelir hyn mewn gwrthgynigion sy'n cadw Maldwyn yn gyfan, ac mewn gwrthgynigion sy'n ei rhannu. Byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn llawer mwy o faint na chynnig y Comisiwn, ac felly byddai cwynion ynghylch ei maint yn fwy priodol fyth. Nodwn fod llawer o'r cynrychiolaethau hyn yn cynnig etholaeth sy'n ymestyn o arfordir Cymru i'r ffin â Lloegr. Nid ydym yn credu bod hyn yn dderbyniol.
- 6.10 Credwn fod gan Gorwen a Llandrillo gysylltiad gwell â wardiau Sir Ddinbych. Nodwn gynrychiolaeth 9557 o Gorwen ar ran Cyngor Cymuned Cynwyd, sy'n dymuno peidio â chysylltu'r ardal honno â Maldwyn.
- 6.11 Nodwn gynrychiolaethau 9202 a 9328 sy'n dangos y cysylltiadau cryf rhwng ward Pen-y-cae, y cynigir ei chynnwys yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr, a chymuned Rhosllannerchrugog, ac awgrymir yng nghynrychiolaeth 9328 mai un pentref ydynt. Mae'r ddwy gynrychiolaeth yn awgrymu y dylent fod yn yr un etholaeth. Rydym ninnau'n gosod y ddwy ym Maldwyn a Glyndŵr, gan adfer cysylltiadau a gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) d.
- 6.12 Cefnogwn yn gryf y dylid cadw Maldwyn yn gyfan ac ychwanegu'r ardal leiaf bosibl ati, sef ward Llangollen yn Sir Ddinbych, 11 o wardiau Wrecsam, a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng nghymuned Rhosllannerchrugog.
- 6.13 Mae gwneud yr addasiadau hyn yn galluogi cynnwys wardiau Brymbo a'r Mwynglawdd yn etholaeth Wrecsam.
- 6.14 Nodwn wrthwynebiad eang yn erbyn cynnwys y wardiau hyn yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cynrychiolaethau 8870, 8882, 8927, 8994, 9141, 9209, 9367, 9387, 9483, 9761, 9762, 9712, 9771, 9818, 9837, 9846, 10033.

- 6.15 Nodwn yn y cynrychiolaethau hyn y cysylltiadau agos sydd gan y ddwy ward â Wrecsam. Sonnir yn benodol am ward Coedpoeth, lle mae cysylltiadau'n cael eu torri yn y cynnig a'u hadfer yn ein cynnig amgen ninnau, gan fod hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 6.16 Nodwn y cynrychiolaethau gan y ddau AS sy'n cynrychioli wardiau Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd, sef Sarah Atherton, AS dros Wrecsam (9731), a Simon Baynes, AS dros Dde Clwyd (9907). Nodwn hefyd y cynrychiolaethau gan y Cyngorydd dros Frymbo, Paul Rogers (9975), a gwrthgynnig yn ymwneud â'r ddwy ward (9572). Nodwn fod Sarah Atherton, Simon Baynes a Paul Rogers wedi pwysleisio'r pwynt hwn yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam. Fe'i hailadroddwyd hefyd yn y gwrandawriad cyhoeddus ym Mangor gan [REDACTED].
- 6.17 Wrth gynnwys y ddwy ward hyn yn Wrecsam, rydych yn sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael ei rhannu rhwng dwy etholaeth yn hytrach na thair o dan y cynigion, a bod etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy wedi'i chynnwys o dan un awdurdod yn hytrach na dau. Felly, caiff y sefyllfa ei gwella'n sylweddol o dan Reol 5 (1) b.
- 6.18 Nodwn fod rhai cynigion na fyddent yn cynnwys holl etholaeth bresennol Wrecsam yn yr etholaeth ehangach arfaethedig. Rydym yn falch bod y Comisiwn wedi adeiladu ar yr etholaeth bresennol ac wedi cynnwys pob etholwr o'r etholaeth bresennol yn yr etholaeth arfaethedig. Mae hyn yn cydymffurfio'n llawn â Rheol 5 (1) c a byddem yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newid i hyn.
- 6.19 Nodwn fod amryw o ffyrdd amgen o ffurfweddu etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Unwaith eto, credwn ei bod yn briodol cynnwys yr etholaeth bresennol gyfan gan fod hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 6.20 Fodd bynnag, byddem yn ychwanegu wardiau'r Fflint a Bagillt at yr etholaeth bresennol. Nodwn fod hyn yn cael cefnogaeth mewn nifer o gynrychiolaethau gan gynnwys 9002, 9499, 9755 a 9860, ymhlith eraill.
- 6.21 Wedyn, gallwch gynnwys wardiau sydd â chysylltiadau agos â'r Wyddgrug i'w hailuno yn etholaeth Delyn.
- 6.22 Nodwn fod cynrychiolaeth 9972 yn dangos cysylltiadau agos rhwng Mynydd Isa a'r Wyddgrug. Mae o fewn ward Argoed ac mae cysylltiadau'r ward hon â'r Wyddgrug yn cael eu torri gan y Comisiwn a'u hadfer o dan ein gwrthgynnig ninnau, gan wella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) d.
- 6.23 Nodwn fod nifer o wrthwynebiadau yn erbyn cynnwys Rhuthun yn etholaeth arfaethedig Delyn. Deallwn hyn a gobeithiwn y bydd cynnwys wardiau eraill cyfagos yn Sir Ddinbych sydd â chysylltiadau â Rhuthun – Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern yn ogystal â Chorwen a Llandrillo – a hepgor y Fflint a Bagillt, yn lliniaru'r pryderon hyn i raddau.
- 6.24 Nodwn fod nifer o gynrychiolaethau yn awgrymu y dylid cael etholaeth Gorllewin Clwyd ac etholaeth Dwyrain Clwyd. Nodwn fod cynrychiolaeth 9927 yn cefnogi gwahanu'r Rhyl a Phrestatyn, gan alw am wneud y Rhyl yn rhan o Orllewin Clwyd a Phrestatyn yn rhan o Ddwyrain Clwyd.
- 6.25 Nodwn fod cynrychiolaethau'r Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd, James Davies (9982), a'r Aelod o'r Senedd dros Ddyffryn Clwyd, Gareth Davies (10018), yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig hyn. Nodwn fod James Davies wedi rhoi tystiolaeth bellach ar hyn yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam.
- 6.26 Nodwn hefyd y gefnogaeth dda i'r newid a wnawn yng Ngogledd Cymru yng nghynrychiolaethau 9789, 9810, 9813, 9915, 9991, 10007, 10050 a 10069.
- 6.27 O ran sedd Clwyd a fyddai'n ailenwi Gorllewin Clwyd, byddem yn hepgor ward Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern yn unig.

- 6.28 Nodwn fod rhywfaint o bryder ynghylch hepgor Llandrillo-yn-Rhos oherwydd cysylltiadau'r ward â Bae Colwyn. Mae cynrychiolaeth 9426 yn gwrthwynebu hyn, ond yn erbyn cynnwys Llandrillo-yn-Rhos â Bae Colwyn.
- 6.29 Nodwn fod gwrthgynnig a gefnogir gan yr Aelod Seneddol dros Orllewin Clwyd, David Jones AS (9708) a'r Aelod o'r Senedd dros Orllewin Clwyd, Darren Millar (9709), yn cynnwys Llandrillo-yn-Rhos yng Nghlwyd.
- 6.30 Mae gennym rywfaint o gydymdeimlad â'r safbwynt hwn, ond credwn fod y newidiadau canlyniadol i Aberconwy yn annerbyniol. Byddai'r etholaeth yn fawr iawn, yn ymestyn o Fangor i Ddinbych ac yn cynnwys tri awdurdod lleol (Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych). Credwn fod hyn yn annerbyniol ac yn waeth o dan Reol 5 (1) b.
- 6.31 Nodi fod y nifer fwyaf o gynrychiolaethau yng Nghymru yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig Aberconwy.
- 6.32 Nodwn nifer fawr o wrthwynebiadau yn erbyn cysylltu Bangor ag Aberconwy, er gwaethaf y ffaith y buont yn yr un etholaeth hyd at 2010.
- 6.33 Nodwn hefyd fod rhywfaint o gefnogaeth i'r etholaeth hon. Un enghraifft, o Fangor, y byddem yn tynnu sylw'r Comisiwn ati yw cynrychiolaeth 8969.
- 6.34 Nodwn hefyd y gefnogaeth i Aberconwy yn sylwadau 9707, 9782, 9783, 9830, 9836, 9900. Yn ogystal, nodwn y gefnogaeth gan Robin Millar, AS dros Aberconwy (9788).
- 6.35 Unwaith eto, fel yn achos Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, mae'n dda bod etholaeth Aberconwy wedi'i chadw'n gyfan, yn unol â Rheol 5 (1) c.
- 6.36 Nodwn hefyd fod y Blaid Lafur (10049) yn cefnogi etholaeth arfaethedig Aberconwy.
- 6.37 Nodwn fod llawer o'r gwrthwynebiadau yn ymwneud â rhannu Bangor, yn groes i Reol 5 (1) d.
- 6.38 Credwn fod rhinwedd i'r ddadl hon a nodwn mai hepgor ward Pentir o etholaeth arfaethedig Aberconwy sy'n achosi'r rhwyg hwn.
- 6.39 Nodwn rai gwrthgynigion, ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol (9992) yn cynnwys y ward hon yn Aberconwy.
- 6.40 Byddai hepgor y ward hon yn unig o Ddwyfor Meirionnydd yn parhau i adael Dwyfor Meirionnydd o fewn y cwota. Byddai cynnwys y ward yn Aberconwy hefyd yn cadw Aberconwy o fewn y cwota, ac ni fyddai angen hepgor wardiau o Aberconwy, fel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei awgrymu.
- 6.41 Felly, ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad yn erbyn symud ward Pentir o Ddwyfor Meirionnydd i Aberconwy.
- 6.42 Credwn hefyd y gallai Bangor fod â gwrthwynebiad yn erbyn peidio â chael ei chynnwys yn enw'r etholaeth, a phe awgrymir enw arall, sef Aberconwy a Bangor, er enghraifft, ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad.
- 6.43 Felly, rydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd, o bosibl gan hepgor un ward, sef Pentir. Nodwn fod yr etholaeth yn cynnwys wardiau o Wynedd yn unig a bod etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd yn cael ei chadw'n gyfan, fel y mae Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, a Wrecsam. Felly, mae'r etholaeth hon yn cydymffurfio'n dda â Rheol 5 (1) b a Rheol 5 (1) c.
- 6.44 Nodwn fod cynrychiolaethau 9035, 9259 a 9591 yn cefnogi'r etholaeth ond yn awgrymu newid yr enw. Pe bai enw amgen sydd â mwy o gefnogaeth, ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad.

- 6.45 Nodwn fod nifer o wrthgynigion, ac mae rhai ohonynt yn ceisio mynd i'r afael â mater Bangor/Aberconwy/Dwyfor Meirionnydd. Credwn fod y rhain yn israddol i gynig y Comisiwn.
- 6.46 Nodwn gynig Plaid Cymru ar gyfer Gogledd Cymru (10021). Er eu bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn, maent yn gwneud hynny wrth gynig etholaeth fawr ac anhylaw sy'n cynnwys pedwar awdurdod lleol (Gwynedd, Powys, Conwy a Sir Ddinbych). Nid yw'r Comisiwn wedi cynnig unrhyw etholaethau sy'n cynnwys pedwar awdurdod lleol, a dim ond dwy sydd â thri awdurdod lleol, a gostyngir y nifer hwn i un gan ein cynigion ninnau. Hefyd, mae Plaid Cymru'n rhannu awdurdod lleol Conwy rhwng tair etholaeth yn hytrach na dwy o dan y cynigion; caiff Sir Ddinbych ei rhannu rhwng pedair etholaeth yn hytrach na thair o dan y cynigion; rhennir Sir y Fflint rhwng tair etholaeth yn hytrach na dwy o dan y cynigion; a chaiff Powys ei rhannu rhwng tair etholaeth yn hytrach na dwy o dan y cynigion. Felly, mae gwelliant yn sefyllfa Wrecsam o ddau i dri ond dyna a wnawn ninnau hefyd. Felly, mae'r cynigion hyn yn sylweddol waeth o dan Reol 5 (1) b.
- 6.47 Mae nifer o wrthgynigion yn mynd i'r afael â materion ar y cyd yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi gwneud sylwadau ar nifer o'r cynigion hyn, ond unwaith eto, byddem yn amlygu maint etholaethau arfaethedig Maldwyn a Meirionnydd. Byddem yn tynnu sylw at faint yr etholaeth Meirionnydd Nant Conwy a Maldwyn a gynigir yng nghynrychiolaeth 9766.
- 6.48 Nodwn yr awgrymwyd mewn rhai achosion y dylai Sir Ddinbych fod yn etholaeth gydffiniol. Er ein bod yn cydymdeimlo â hyn gan fod yr awgrym yn cydymffurfio'n dda â Rheol 5 (1) b, credwn fod yr effeithiau canlyniadol yn annerbyniol.
- 6.49 Felly, credwn fod y Comisiwn wedi gwneud cynigion synhwyrol i raddau helaeth ar gyfer Gogledd Cymru, ond byddem yn gwneud nifer o newidiadau cymharol fach i wella'r sefyllfa, yn enwedig mewn perthynas â Rheol 5 (1) b a Rheol 5 (1) d.

7 GWRTHGYNIGION

- 7.1 Rydym wedi gwneud sylwadau ar nifer o wrthgynigion drwy gydol testun yr ymateb hwn.
- 7.2 Rydym yn barnu cynigion y Comisiwn Ffiniau a gwrthgynigion yn benodol ar sail y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau, ac yn arbennig, Rheol 5 (1) b, cysylltiadau awdurdodau lleol a Rheol 5 (1) c, etholaethau presennol.
- 7.3 Felly, rydym wedi ceisio asesu cynigion y Comisiwn Ffiniau, cynigion amgen y pleidiau gwleidyddol, a nifer o wrthgynigion, o ran cysylltiadau awdurdodau lleol a nifer yr etholwyr a symudir. Nid ydym wedi gwneud sylwadau ar wrthgynigion nad ydynt yn gredadwy, yn ein barn ni, neu sy'n cynnig etholaethau sydd y tu hwnt i'r amrediad a ganiateir.
- 7.4 Nodwn fod cynigion Plaid Cymru (10021) a Phlaid Werdd Cymru (9924) yn sylweddol waeth na rhai'r Comisiwn o ran Rheol 5 (1) b a Rheol 5 (1) c.
- 7.5 O ran y gwrthgynigion eraill, nodwn fod pob un ohonynt yn waeth na chynigion y Comisiwn o ran Rheol 5 (1) c. Mae rhai sydd ychydig yn well na chynigion y Comisiwn o ran Rheol 5 (1) b. Fodd bynnag, mae'r un gorau yng Ngogledd Cymru (9002) hefyd yn cynnwys y gwrthgynnig gwaethaf yng Ngogledd Cymru o ran Rheol 5 (1) c. Mae'r gwrthgynnig cyffredinol gorau o ran Rheol 5 (1) b (9766) hefyd yn waeth na chynigion y Comisiwn o ran Rheol 5 (1) c.
- 7.6 Rydym wedi llunio tabl sy'n dangos nifer yr etholwyr a gedwir, a chysylltiadau awdurdodau lleol ar gyfer cynigion amgen gwahanol.
- 7.7 Ar ôl pwyso a mesur, credwn mai ni sy'n darparu'r canlyniad gorau ar y cyfan, yn enwedig mewn perthynas â Rheol 5 (1) b ond hefyd mewn perthynas â Rheol 5 (1) c, gan gadw ychydig mwy o etholwyr yn eu hetholaeth bresennol.

8. CASGLIAD

- 8.1 Cymeradwywn y ddogfen hon i'r Comisiwn, yn ogystal â'n dogfen wreiddiol, rhif 9809, a'n cyfraniadau yn y gwrandawladau cyhoeddus yng Nghaerdydd ac Aberystwyth.
- 8.2 O'n dogfen wreiddiol, credwn fod y cynrychiolaethau wedi arwain at ychydig o fân newidiadau:
 - (a) Newid enw etholaeth Aberhonddu a Maesymfed.
 - (b) Newid enw etholaeth arfaethedig Aberconwy, ac o bosibl, cynnwys ward Pentir yn yr etholaeth hon.
 - (c) Newid pellach posibl i Gaerfyrddin a Llanelli i gydnabod wardiau sydd â chysylltiadau agos â Chaerfyrddin.
- 8.3 Ac eithrio'r newidiadau hyn, credwn fod ein cynigion yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng y rheolau, ac fe'u cymeradwywn i'r Comisiwn.
- 8.4 Gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn adolygu eu cynigion yn unol â'n hawgrymiadau. Edrychwn ymlaen at wneud sylwadau pellach ar y cynigion diwygiedig maes o law.

ATODIAD A

	BCW	Ceidwadwyr	Plaid	Democratiaid Rhyddfrydol	Y Blaid Lafur	Blaid Werdd Cymru		BCW	BCW	Ceidwadwyr	Ceidwadwyr	Plaid	Plaid	Democratiaid Rhyddfrydol	Democratiaid Rhyddfrydol	Y Blaid Lafur	Y Blaid Lafur	Blaid Werdd Cymru	Blaid Werdd Cymru		
								Aberafan Porthcawl	2	Aberafan ac Ogwr	2	Y Fenni, Brycheiniog a Maesfedyddwyrain Abertawe	2	Aberafan gyda Maesteg a Ddwyrain Abertawe	3	Aberafan Porthcawl	2	Cymoedd Aman, Nedd a Thawe	3		
Seddau 1 awdurdod	16	18	12	17	16	10		Aberconwy	2	Aberconwy	2	Alun a Glannau Dyfrdwy	1	Aberconwy	2	Aberconwy	2	Blaenau Gwent a Rhymni	3		
Seddau 2 awdurdod	13	12	17	12	13	14		Alun a Glannau Dyfrdwy	2	Alun a Glannau Dyfrdwy	1	Y Barri & De Caerdydd	2	Alun a Glannau Dyfrdwy	1	Alun a Glannau Dyfrdwy	2	Caerffili	3		
Seddau 3 awdurdod	2	1	1	2	2	7		Blaenau Gwent a Rhymni	2	Blaenau Gwent a Rhymni	2	Blaenau Gwent a Phont-y-pŵl	2	Blaenau Gwent a Rhymni	2	Blaenau Gwent a Rhymni	2	Caerdydd Bute	1		
Seddau 4 awdurdod	0	0	1	0	0	0		Aberhonddu a Maesfedydd	2	Aberhonddu a Maesfedydd	2	Pen-y-bont ar Ogwr	1	Aberhonddu a Maesfedydd gyda De Sir Drefaldwyn	1	Aberhonddu a Maesfedydd	2	Caerdydd Llanisien	1		
								Pen-y-bont ar Ogwr	1	Pen-y-bont ar Ogwr	1	Caerffili	2	Pen-y-bont ar Ogwr	1	Pen-y-bont ar Ogwr	1	Caerdydd Sain Ffagan	1		
								Caerfyrddin	1	Caerfyrddin	1	Canol a Dwyrain Caerdydd	1	Caerfyrddin	1	Caerfyrddin	1	Sir Gâr	2		
Cyfanswm yr etholwyr a gedwir	1584164	1596394	1442574	1616215	1601008	1352948		Canol Caerdydd	1	Canol Caerdydd	1	Gogledd Caerdydd	1	Caerffili	1	Canol Caerdydd	1	Ceredigion a'r Preselau	3		
								Gogledd Caerdydd	2	Gogledd Caerdydd	1	Gorllewin Caerdydd	1	Canol Caerdydd	1	Gogledd Caerdydd	2	Arfordir Conwy	2		
	2270262	2270262	2270262	2270262	2270262	2270262		De Caerdydd a Phenarth	2	De Caerdydd a Phenarth	2	Caerfyrddin & Dinefwr	1	Gogledd Caerdydd	2	De Caerdydd a Phenarth	2	Cwmbrân a Phont-y-pŵl	2		
	69.8%	70.3%	63.5%	71.2%	70.5%	59.6%		Gorllewin Caerdydd	2	Gorllewin Caerdydd	2	Ceredigion & Preseli	2	De Caerdydd a Phenarth	2	Gorllewin Caerdydd	2	Glannau Dyfrdwy	1		
								Ceredigion Preseli	2	Ceredigion Preseli	2	Delyn	2	Gorllewin Caerdydd	2	Ceredigion Preseli	2	Gogledd Sir Ddinbych	3		
								Clwyd	2	Dwyrain Clwyd	2	Llandudno & Colwyn	2	Ceredigion Preseli	2	Clwyd	2	Eifionydd	2		
Blaenau Gwent	1	1	2	1	1	1		Delyn	2	Gorllewin Clwyd	2	Llanelli	1	Gorllewin Clwyd	2	Delyn	2	Gŵyr	2		
Pen-y-bont ar Ogwr	2	2	2	3	2	3		Dwyfor Meirionnydd	1	Dwyfor Meirionnydd	1	Lliw & Tawe	2	Delyn	2	Dwyfor Meirionnydd	1	Llanelli	1		
Caerffili	4	3	3	3	4	3		Islwyn	1	Gŵyr a Gorllewin Abertawe	1	Maldwyn a Glyndŵr	3	Dwyfor Meirionnydd	1	Islwyn	1	Merthyr Tudful a Gogledd	2		

Caerdydd	4	4	5	4	4	5		Llanelli	1	Islwyn	1		Meirionn ydd	4	Llanelli	1	Llanelli	1	Rhondda		
Sir Gâr	2	2	2	2	2	4		Merthyr Tudful ac Aberdâr	3	Llanelli	1		Menai	2	Merthyr Tudfil ac Uwch Cynon	2	Merthyr Tudful ac Aberdâr	3	Castell- nedd Phort Talbot	2	
Ceredigion	1	1	1	1	1	1		Canol a De Sir Benfro	1	Merthyr Tudful ac Aberdâr	2		Merthyr Tudful ac Aberdâr	2	Canol a De Sir Benfro	1	Canol a De Sir Benfro	1	Casnewy dd	1	
Conwy	2	2	3	2	2	3		Sir Fynwy	1	Canol a De Sir Benfro	1		Canol a De Sir Benfro	1	Sir Fynwy	1	Sir Fynwy	1	Bro Ogwr a Phorthca wl	2	
Sir Ddinbych	3	3	4	3	3	3		Maldwyn a Glyndŵr	3	Sir Fynwy	1		Trefynwy a Chwmbrâ n	2	Castell-nedd gyda Gogledd Ddwyrain Abertawe	2	Maldwyn a Glyndŵr	3	Arfordir Sir Benfro	1	
Sir y Fflint	2	2	3	2	2	3		Dwyrain Casnewydd	1	Maldwyn a De Clwyd	3		Castell- nedd ac Aberafan	1	Dwyrain Casnewydd	1	Dwyrain Casnewydd	1	Penarth a r Barri	2	
Gwynedd	2	2	2	2	2	2		Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	2	Castell-nedd a Dwyrain Abertawe	2		Dwyrain Casnewy dd	2	Gorllewin Casnewydd ac Islwyn	2	Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	2	Pencoed a Bro Morgann wg	2	
Merthyr Tudfil	1	1	2	1	1	3		Pontypridd	1	Dwyrain Casnewydd	1		Gorllewin Casnewy dd	2	Gogledd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr	3	Pontypridd	1	Pontyprid d	1	
Sir Fynwy	1	1	3	1	1	2		Rhondda	1	Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	2		Pontyprid d	2	Pontypridd gyda Cynon Isaf	1	Rhondda	1	Sengheny dd	1	
Castell-nedd Port Talbot	3	3	2	2	3	3		Canol a Gogledd Abertawe	1	Pontypridd	1		Porthcawl a Bro Morgann wg	2	Rhondda ac Ogwr	2	Canol Abertawe	1	Eryri a Gogledd Maldwyn	2	
Casnewydd	2	2	2	2	2	4		Dwyrain Abertawe a Chastell- nedd	2	Rhondda	1		Rhondda	1	Gogledd Abertawe	1	Dwyrain Abertawe a Chastell- nedd	2	Abertawe	1	
Sir Penfro	2	2	2	2	2	3		Gorllewin Abertawe a Gŵyr	1	Canol a Gogledd Abertawe	1		Sirhowy	2	Gorllewin Abertawe a Gŵyr	1	Gorllewin Abertawe a Gŵyr	1	Bannau Brycheini og a De Maldwyn	2	
Powys	2	2	3	2	2	4		Torfaen	1	Torfaen	1		Dwyrain Abertawe	1	Torfaen	1	Torfaen	1	De Rhondda	2	
Rhondda Cynon Taf	5	4	3	5	5	3		Bro Morgannw g	1	Bro Morgannwg	1		Gorllewin Abertawe a Gŵyr	1	Bro Morgannwg	1	Bro Morgannwg	1	Y Gororau a De Wrecsam	3	
Abertawe	3	3	3	4	3	3		Wrecsam	1	Wrecsam	1		Wrecsam	2	Wrecsam	1	Wrecsam	1	Gogledd Wrecsam a r Wyddgru g	2	
Torfaen	1	1	2	1	1	2			48		45			53		47		48		59	
Bro Morgannwg	2	2	2	2	2	2															
Wrecsam	3	2	2	2	3	2															
	48	45	53	47	48	59															

ATODIAD B

	R 9766	R 9822	R 9875	R 9952	R 10055	R 10070	R 9766	R 9766	R 9822	R 9822	R 9875	R 9875	R 9952	R 9952	R 10055	R 10055	R 10070	R 10070
							Y Barri	1	Aberafan Porthcawl	2	(Aberafan)	2	Aberafan a Porthcawl	2	Aberafan	2	Blaenau Gwent a Rhymni	2
Seddau 1 awdurdod	19	18	16	17	16	16	Blaenau Gwent a Rhymni	2	Alun	2	(Arfon Dwyfor)	2	Alun a Glannau Dyfrdwy	2	Aberdâr	1	Aberhonddu a Maesyfed	3
Seddau 2 awdurdod	11	11	13	13	14	14	Aberhonddu, Maesyfed a'r Drenewydd	1	Arfon Dwyfor	2	(Blaenau Gwent a Rhymni)	2	Bangor a Chonwy	2	Bae Ceredigion	2	Pen-y-bont	1
Seddau 3 awdurdod	1	2	2	0	1	1	Pen-y-bont	2	Blaenau Gwent a Gogledd Islwyn	2	(Aberhonddu, Maesyfed a'r Drenewydd)	2	Blaenau Gwent a Rhymni	2	Y Barri a Phenarth	1	Caernarfon	2
Seddau 4 awdurdod	0	0	0	1	0	0	Caerfyrddin	1	Pen-y-bont	1	(Pen-y-bont)	1	Aberhonddu a Maesyfed	1	Aberhonddu a Maesyfed	1	Dwyrain Caerdydd	2
							Caernarfon	2	Caerfyrddin	1	(Caerfyrddin)	1	Pen-y-bont	1	Pen-y-bont	2	Gogledd Caerdydd	1
							Caerffili a Gogledd Caerdydd	1	Chwm Rhymni	1	(Canol a Gogledd Ddwyrain Caerdydd)	1	Canol Caerdydd	1	Caerfyrddin	1	De Caerdydd a Phenarth	2
Cyfanswm yr etholwyr a gedwir	1497997	1435042	1569074	1553415	1511974	1537576	De Ddwyrain Caerdydd	1	Gogledd Ddwyrain Caerdydd	1	(Gogledd Orllewin Caerdydd)	2	Gogledd Caerdydd	1	Gogledd Caerdydd	2	Gorllewin Caerdydd	1
							Gorllewin Caerdydd	1	Gogledd Orllewin Caerdydd	2	(De Caerdydd a Phenarth)	3	De Caerdydd a Phenarth	2	De Caerdydd	1	Caerfyrddin	2
	2270262	2270262	2270262	2270262	2270262	2270262	Ceredigion a Phreseli	2	De Ddwyrain Caerdydd	1	(Gorllewin Caerdydd a Llantrisant)	2	Gorllewin Caerdydd	1	Gorllewin Caerdydd	1	Ceredigion Preseli	2
	66.0%	63.2%	69.1%	68.4%	66.6%	67.7%	Arfordir Conwy	1	De Orllewin Caerdydd a Phenarth	2	(Ceredigion Preseli)	2	Caerfyrddin	1	Dinbych	2	Conwy	1
							Dinbych	1	Ceredigion Preseli	2	(Arfordir Conwy)	2	Ceredigion a Gogledd Sir Benfro	2	Glyn Ebwy	2	Sir Ddinbych	2
							Y Fflint	1	Glannau Dyfrdwy	1	(Glannau Dyfrdwy)	1	Delyn	1	Y Fflint	1	Dwyrain Sir y Fflint	2
Blaenau Gwent	1	1	1	1	1	1	Gŵyr	1	Sir Ddinbych	1	(Delyn)	2	Dinbych a Maldwyn	4	Gŵyr	1	Gŵyr	1
Pen-y-bont ar Ogwr	2	3	3	3	3	2	Islwyn	1	Llandudno a Bae Colwyn	1	(Islwyn)	1	Dwyfor Meirionnydd	1	Llandudno	2	Islwyn a Gelligaer	1
Caerffili	3	3	3	3	4	3	Llanelli	1	Llanelli Dyffryn Aman	3	(Llanelli)	1	Gŵyr a Gorllewin Abertawe	1	Llanelli	1	Llanelli	1
Caerdydd	4	4	4	4	4	4	Meirionnydd Nant Conwy a Maldwyn	3	Maldwyn Meirionnydd Nant Conwy	3	(Meirionnydd ac Eryri)	3	Islwyn	1	Meirion ydd a Chaernarfon	3	Merthyr Tudful ac Aberdâr	2
Sir Gâr	2	2	2	2	2	2	Merthyr Tudful ac Aberdâr	2	Merthyr Tudful ac Aberdâr	2	(Merthyr Tudful ac Aberdâr)	2	Llanelli	2	Merthyr a Rhymni	2	Canol a De Sir Benfro	1
Ceredigion	1	1	1	1	2	1	Yr Wyddgrug ac Alun	2	Canol a De Sir Benfro	1	(Canol a De Sir Benfro)	1	Merthyr Tudful ac Aberdâr	2	Canol Caerdydd	1	Sir Fynwy	1
Conwy	3	3	3	3	2	3	Mynwy	1	Canol a De Powys	1	(Sir Fynwy)	1	Sir Benfro	1	Mynwy	1	Maldwyn a Meirionnydd	2
Sir Ddinbych	1	1	2	2	2	2	Castell-nedd	2	Sir Fynwy	1	(Maldwyn a De Clwyd)	2	Sir Fynwy	1	Maldwyn	2	Castell-nedd a Chifai	2
Sir y Fflint	2	2	3	2	3	2	Dwyrain Casnewydd	1	Castell-nedd a Dwyrain Abertawe	2	(Dwyrain Casnewydd)	1	Castell-nedd	2	Castell-nedd	2	Dwyrain Casnewydd	1
Gwynedd	2	2	2	2	2	2	Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	2	Dwyrain Casnewydd	1	(Gorllewin Casnewydd a Chaerffili)	2	Dwyrain Casnewydd	1	Dwyrain Casnewydd	1	Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	2
Merthyr Tudful	1	1	1	1	1	1	Ogwr	2	Gorllewin Casnewydd a De Islwyn	2	(Pontypridd)	1	Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	2	Gorllewin Casnewydd a Rhisga	2	Pontypridd	1
Sir Fynwy	1	1	1	1	1	1	Penfro	1	Pontypridd	1	(Rhondda a Dwyrain Ogwr)	2	Pontypridd	1	Ogwr	2	Port Talbot a Maesteg	2
Castell-nedd Port Talbot	2	3	2	2	2	4	Pontypridd a Gogledd Orllewin Caerdydd	2	Rhondda ac Ogwr	2	(Canol Abertawe a Chastell-nedd)	1	Rhondda ac Ogwr	2	Penfro	1	Rhondda	1
Casnewydd	2	2	3	2	2	3	Rhondda ac Aberpennar	1	Canol Abertawe	1	(Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd)	2	Rhyl a Cholwyn	2	Pen-y-pŵl	1	Abertawe	1

Sir Penfro	2	2	2	2	2	2	Canol Abertawe	1 Gorllewin Abertawe	1 (Gorllewin Abertawe a Gŵyr)	1 Dwyrain Abertawe	1 Pontypridd	1 Torfaen	1
Powys	2	2	2	2	3	2	Dwyrain Abertawe a Phort Talbot	2 Torfaen	1 (Torfaen)	1 Torfaen	1 Prestatyn	2 Bro Morgannwg	1
Rhondda Cynon Taf	4	4	5	4	3	3	Torfaen	1 Bro Morgannwg	1 (Bro Morgannwg)	1 Bro Morgannwg	2 Abertawe	1 Gorllewin Sir y Filint	1
Abertawe	4	4	3	4	3	4	Wrecsam	1 Wrecsam	1 (Wrecsam)	2 Wrecsam	1 Wrecsam	2 Wrecsam	2
Torfaen	1	1	1	1	1	1		44	46	48	47	47	47
Bro Morgannwg	2	2	2	2	2	2							
Wrecsam	2	2	2	3	2	2							
	44	46	48	47	47	47							

ATODIAD C

	BCW	R 9002	R 9414	R 9991	R 10066				BCW	BCW	R 9002	R 9002	R 9414	R 9414	R 9991	R 9991	R 10066	R 10066
									Aberconwy		2 Aberconwy		1 (Alun a Glannau Dyfrdwy)		1 Aberconwy		2 (Alun a Glannau Dyfrdwy)	1
Seddau 1 awdurdod	2	2	2	3	1				Alun a Glannau Dyfrdwy		2 Alun		2 (Arfon Dwyfor)		2 Alun a Glannau Dyfrdwy		1 (Arfon Dwyfor)	2
Seddau 2 awdurdod	4	5	4	2	5				Clwyd		2 Delyn a Glannau Dyfrdwy		1 (De Clwyd)		4 Gogledd Clwyd		2 (Arfordir Conwy)	2
Seddau 3 awdurdod	1	0	0	2	0				Delyn		2 Dwyfor Arfon		2 (Delyn)		2 Gorllewin Clwyd		3 (Delyn)	2
Seddau 4 awdurdod	0	0	1	0	1				Dwyfor Meirionnydd		1 Maldwyn a Meirionnydd		2 (Maldwyn a Meirionnydd)		2 Dwyfor Meirionnydd		1 (Dwyrain Maldwyn a Glyndŵr)	2
									Maldwyn a Glyndŵr		3 Dyffryn Clwyd		2 (Arfordir Gogledd Cymru)		2 Maldwyn		3 (Gorllewin Maldwyn, Meirionnydd ac Eryri)	4
									Wrecsam		1 Wrecsam a Glyndŵr		2 (Wrecsam)		1 Wrecsam		1 (Wrecsam)	2
Cyfanswm yr etholwyr a gedwir	340465	292436	312602	347646	294907						13		12		14		13	15
	516428	516428	516428	516428	516428													
	65.9%	56.6%	60.5%	67.3%	57.1%													
Conwy	2	3	3	2	3													
Sir Ddinbych	3	2	3	3	3													
Sir y Fflint	2	2	3	3	3													
Gwynedd	2	2	2	2	2													
Powys	1	1	1	1	2													
Wrecsam	3	2	2	2	2													
	13	12	14	13	15													
* Nid yw rhif Powys yn cynnwys Aberhonddu a Maesfedydd																		

BCW-10209/ [REDACTED] / Abertawe

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 10:02

I: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynigion ar gyfer Ffin Seneddol Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Annwyl Syr

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â chynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer sedd Seneddol Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Dymunaf gofnodi fy nghefnogaeth lawn i'r cynnig.

Yn y blynyddoedd blaenorol, mae ffin Seneddol Gŵyr wedi bod yn anarferol. Mae cymunedau gwledig yn y penrhyn ei hun wedi ymuno â chyn-gymunedau diwydiannol yng Nghwm Tawe, er nad oes ganddyn nhw ddim cysylltiad â nhw. Roedd Clydach, sy'n estyniad naturiol i gymuned Treforys, yng Ngŵyr, tra bod Treforys yn Nwyrain Abertawe. Mae hyn yn amlwg yn hurt.

Mae cynnig y Comisiwn Ffiniau yn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn drwy gysylltu cymunedau gwledig y penrhyn gyda maestrefi gorllewinol Abertawe, sy'n gwneud mwy o synnwyr.

Mae cymuned y Mwmbwls, a symudwyd o Orllewin Abertawe i etholaeth Gŵyr ym 1979, yn cael ei haduno â ward Mayals Gorllewin Abertawe, sy'n ffurfio rhan o ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Mae cysylltiadau cryf rhwng West Cross, Sgeti a Mayals, a dydy hi ond yn iawn bod y cymunedau hyn yn yr un etholaeth.

Hefyd, mae Ffordd Cocyd A4216 yn ffin naturiol rhwng cymunedau Sgeti a Chocyd ar un ochr (Gorllewin Abertawe a Gŵyr) a chymunedau Pantygwydr a Townhill (Canol a Gogledd Abertawe).

Gobeithiaf y bydd y ffiniau arfaethedig yn cael eu cytuno heb eu diwygio.

Diolch yn fawr

[REDACTED]

BCW-10210/ Cyng Julie Sangani/ Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 11:02

I: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Rhannaf 'Dogfen ar gyfer Ffiniau Cymru

Helo,

Gweler ymateb wedi'i atodi.

Cofion cynnes

Cyng Julie Sangani

Ysgrifennaf fel cynghorydd lleol, preswlydd a llywodraethwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol yn Ysgol Gynradd Ton yr Ywen. Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd, a byddaf yn cyfeirio'n gryno at dair sedd gyfagos arall – Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn trafod y gwrthgynigion a gynigiwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori mewn perthynas â Gogledd Caerdydd.

Croesawaf y Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Caerdydd lle bydd yr etholaeth yn aros yn gyfan i raddau helaeth, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rydw i hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth a fydd, gyda'i gilydd, yn golygu symud dim ond dwy ward yn etholaeth Caerdydd. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Rhymni a Llanrhymni i Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol yr Afon Taf, ac o ystyried y cysylltiadau trafndiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd y ddinas, byddai Ffynnon Taf yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth. Nid yw'r gwrthgynnig a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo'n gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd, a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tua'r Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol yr Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf oddi wrth Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd heb lawer o gysylltiadau trafndiaeth a dim ymdeimlad o gysylltiad â'i gilydd. Does gan y ddwy gymuned ar ochrau cyferbyniol yr afon ddim llawer yn gyffredin rhyngddyn nhw heblaw am yr enw Saesneg, felly dydy'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd ddim yn synhwyrol na chwaith yn cydnabod cysylltiadau lleol presennol. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn torri un o ystadau tai hynaf Cymru yn ei hanner. Mae Mynachdy yng Ngabalfa yn rhannol. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd oll yn gysylltiedig, ac rydych yn eu cyrraedd drwy gylchdro Gabalfa.

Does dim cysylltiad naturiol rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge chwaith. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd, a'r cysylltiadau trafndiaeth prin o ganlyniad i hynny rhwng Trowbridge a Gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n arwain at symud Gabalfa a'r Mynydd Bychan i Ganol Caerdydd hefyd yn methu ag ystyried y cysylltiadau lleol cryf sydd yn y wardiau hyn. Fel wardiau cyfagos, mae cysylltiadau agos gan y Mynydd Bychan a Llanisien drwy drafndiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Siopa Tŷ Glas, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I gloi, rydw i'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodwyd uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a nhw yw'r rhai lleiaf ymyrrol eu natur, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel yr hyn a gynigir yn y gwrthgynigion.

Diolch am eich ystyriaeth.

Yn gywir,
Cyng Julie Sangani

BCW-10211/ [REDACTED] / Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 11:53

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: cyflwyniad

Fe welwch wedi eu hatodi fy sylwadau am y newidiadau arfaethedig.
Diolch,

[REDACTED]

AT Y SAWL DAN SYLW,

Bydd y cyflwyniad hwn yn cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, y gwrthgynigion a'u cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylostod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad wedi'i gyfyngu gan hynny felly.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel trigolyn. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae etholaethau mawr nodweddiadol wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O gofio bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelech a Llanrhyddi yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd â chysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. I raddau helaeth iawn, dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol iawn o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn edrych tuag at ardal siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae'r plant yn ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed yn ddaearyddol. Mae trigolion y ddwy ward yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield yn enwedig ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafndiaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu, ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Lanrhymni, trwy Dredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Y prif fan chwarae yw Cae Chwarae Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Gwnaed sawl gwrthgynnig yn ymwneud â Chanol Caerdydd a thair etholaeth gyfagos Caerdydd. Ar ôl darllen y gwrthgynigion a gwrando ar y dystiolaeth lafar a'r cwestiynau a'r atebion yn ymwneud â nhw yng ngwrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd ddydd Iau 17 Chwefror 2022, awgrymaf nad ydynt yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf.

Gwrthgynnig y Blaid Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb unrhyw resymeg gymhellol amlwg) symud ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd canfod unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o'u cymharu â chynnig gwreiddiol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), y mae'r cyfan ohoni i'r dwyrain i Afon Taf. Ceir eiddo masnachol (siopau, bwytai, bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) a rhai fflatiau yng nghanol y ddinas yn bennaf.

Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac er gwaethaf ei henw mae'n ymestyn ymhell i ffwrdd o gyffiniau uniongyrchol yr afon. De Riverside yw un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, â chysylltiadau agos iawn â Threganna gyfagos gydag ardal siopa'r ardal, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sef y prif lwybr bysiau hefyd) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r 2 ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn mynd i siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. A dweud y gwir, mae rhannau mawr o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o drigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae ardal Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Riverside trwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae Treganna gyfagos yn gynyddol. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu ysgol uwchradd hynod amrywiol Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn ymarferol, prin iawn yw'r cysylltiadau cymunedol ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol hynod arwyddocaol Afon Taf, ond gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, ac ardaloedd mawr o dir parc.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth. Mae hyn eto yn anwybyddu cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth Gogledd Caerdydd ddiwygiedig. Nid oes unrhyw gysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontpennau a Phentref Llaneirwg. Yn wir, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn arbennig o gyfyngedig rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward hyn, ac mae'r cynnig i symud wardiau

Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig hwn, sy'n dychwelyd Tredelerch a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd Bychan at Ganol Caerdydd eto yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae gan ward Gabalfa gysylltiadau agos iawn â ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, un o ystadau tai hynaf Cymru, yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa ynghyd. Mae trigolion yng Ngabalfa ac yn Ystum Taf yn edrych tuag ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ward Llanisien. Ceir cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ond trwy ddalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O gofio lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw yn gyfagos yn Llanisien yn mynychu. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, a cheir rheilffordd sy'n rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad at amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair.

Mae'r gwrthgynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i wahanol etholaeth.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau

Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth ac mae ateb y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y gwahanol wrthgynigion i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n datgan felly y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.



Preswylydd Penylan

BCW-10212/ [REDACTED] / Abertawe

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 12:10

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Dymunaf ddatgan fy nghefnogaeth i gynigion y Comisiwn Ffiniau Seneddol am etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Rwyf wedi byw yn Sgeti am y rhan fwyaf o'm hamser yn Abertawe, ers i fy rhieni symud yma o Lincoln ym 1959.

Yn fy marn i, mae trigolion Sgeti yn wastad wedi meddwl amdanynt eu hunain fel rhan o gymuned sy'n cymryd rhan helaeth o'i hunaniaeth o fod i'r gorllewin o Abertawe gan uniaethu â'r Mwmbwls, Ystumllwynarth, Mayals, Cliâ a Gŵyr yn fwy nag y mae'n wneud â bod yn rhan o ganol dinas Abertawe.

Mae gan Sgeti, fel y cymunedau gorllewinol uchod, ei hunaniaeth bendant ei hun nad yw'n seiliedig ar y dref.

Mae ganddi fan siopa gymunedol, ynghyd â bwytai, dwy ysgol gyfun fawr, dwy ysgol gynradd, coleg addysg bellach mawr a Phrifysgol o fewn ei ffiniau.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r parc cyhoeddus mwyaf a Gerddi Botanegol nodedig sy'n cysylltu'r rhan fwyaf o Sgeti â glan y môr.

Mae Sgeti yn bendant yn edrych tua'r gorllewin yn hytrach na'r dref am ei hunaniaeth.

Mae eich cynigion yn hynod synhwyrol gan eu bod yn cyfuno'r holl gymunedau i'r gorllewin o Abertawe yn un etholaeth, nid eu hollti fel y gwnaeth y trefniant blaenorol.

Yn bendant, mae llinell wahanu rhwng ardaloedd gorllewinol Abertawe ac ardaloedd y dref. Mae'r llinell honno rhwng Sgeti ac, i'r dwyrain, Uplands a Brynmill.

Yr unig newid y buaswn i'n wneud i'ch cynigion fyddai y dylid galw'r etholaeth yn Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Fy rhesymau am hynny yw:

- 1) ei fod yn hawdd a rhwydd i'w ynganu,
- 2) mae'n pwysleisio'r cyswllt rhwng Gŵyr a chymunedau'r gorllewin,
- 3) mae'n adfer y cysylltiad hynafol rhwng Gŵyr ac Abertawe oni bai am y dref ei hun.

[REDACTED]
Preswyliwr Sgeti,

Cynghorydd ward Sgeti 2017-2022.

BCW-10213/ Cyng Myles Langstone- Grŵp Ceidwadol Cyngor Dinas a Sir Abertawe / Abertawe

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 13:04

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i Ymgynghoriad – Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Fel Dirprwy Arweinydd y Grŵp Ceidwadol (Cyngor Dinas a Sir Abertawe), hoffwn gefnogi eich cynigion am Etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr ac amlygu rhai pwyntiau pwysig.

Yr ydym yn llawn gefnogi'r cynnig i ail-gysylltu Cymuned y Mwmbwls.

Ar hyn o bryd, mae Newton, Ystumllwynarth a West Cross yn rhan o ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls ac y maent yn Etholaeth Seneddol Gŵyr, ond mae Mayals, er ei bod yn rhan o Gyngor Cymuned y Mwmbwls, yn Etholaeth Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn anghysondeb sydd yn anghywir am ei fod yn rhannu cymuned bwysig ac eiconig y Mwmbwls. Mae hefyd yn golygu dau AS gwahanol a dau Aelod Senedd dros etholaethau gwahanol.

Yn naturiol, mae trigolion yn Mayals yn rhan o gymuned y Mwmbwls. Rwyf wedi byw yn wardiau Mayals ac Ystumllwynarth ac y mae'n hollol glir mai un gymuned yw hon. Nid yw ond yn iawn fod hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu gan ffiniau'r ardal. Dan eich cynigion chi, caiff Cymuned y Mwmbwls ei uno yn un etholaeth, ac y mae'n hen bryd i hyn ddigwydd.

Fodd bynnag, un newid y buasem ni'n awgrymu yw galw'r etholaeth newydd yn Gŵyr a Gorllewin Abertawe ac nid Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Rhan Gŵyr o'r etholaeth sy'n ffurfio rhan fwyaf yr etholaeth newydd (mae gan Gŵyr 58.4% o'r etholaeth a 41.6% sydd gan Orllewin Abertawe.

Gŵyr hefyd yw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf, ac y mae hyn yn haeddu cael ei adlewyrchu yn enw'r etholaeth.

Cofion caredig,

Cyng. Myles Langstone

Mae etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe yn rhedeg i'r gorllewin o Afon Tawe gan ymestyn i benrhyn Gŵyr.

Dewis arall yw ail-greu cysylltiadau lleol ac elfennau cyfleus, i adlewyrchu daearyddiaeth a pharchu ffiniau sy'n bod eisoes.

- A. Cadw'r pedair ward yn sedd wreiddiol Gŵyr- Pontarddulais , Mawr (Llangyfelach a Phenllergaer, yn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn lle eu symud i Ganol a Gogledd Abertawe
- B. Adleoli dwy ward oedd yn wreiddiol yn etholaeth Gorllewin Abertawe - Sgeti a Mayals i ail-ymuno ag Uplands yng Nghanol a Gogledd Abertawe
- C. Symud Treforys o Ganol a Gogledd Abertawe i Ddwyrain Abertawe a Chastell Nedd yn gyfnewid am Fonymaen a St.Thomas
- D . Byddai hyn yn rhoi i etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr 74653 o bleidleiswyr
- E. Byddai gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 75,560 o bleidleiswyr

Ffactorau gaiff eu hystyried:-

Mae'r arfordir ac Afon Tawe yn ffiniau naturiol i etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. I'r gorllewin o Afon Tawe, mae wardiau'r Castell, Uplands, Sgeti a Mayals yn rhedeg yn ddiwniad i'w gilydd ac y maent yn ddaearyddol gyfagos ar hyd yr arfordir. Felly, dylent barhau yn gysylltiedig yn yr un etholaeth. Byddai ychwanegu St.Thomas a Bonymaen yn parhau ar hyd yr arfordir i'r dwyrain o Afon Tawe.

Mae'r cynigion hyn yn parchu ffiniau presennol a sefydledig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. Daw'r holl wardiau dan awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe.

Mae'r awgrymiadau hyn yn ategu'r cysylltiadau lleol yn cynnal cymunedau sefydledig

Anghyfleustra

Mae'n dilyn o'r uchod y byddai cynnig y CFf heb ei newid yn creu anghyfleustra y gellid ei osgoi trwy hollti'r cymunedau myfyrwyr, Mwslemaidd ac eraill.

Rwy'n ysgrifennu atoch fel rhywun sy'n byw yn Rhaeadr Gwy parthed y cynigion am Frycheiniog a Maesyfed ac i gefnogi awgrym y Democratiaid Rhyddfrydol i uno gyda rhannau o Sir Drefaldwyn. Fel rhywun fu'n byw yno ers amser, aeth fy holl blant i Ysgol Uwchradd Llanidloes ac y mae llawer o'r dref yn parhau i wneud hynny. Mae cysylltiadau cymdeithasol cryf rhwng y ddwy dref ar lefel chwaraeon a'r celfyddydau hefyd.

Fodd bynnag, rwyf yn pryderu fwyaf am effaith cyfuno cyfres o wardiau sydd yn bennaf yn drefol i mewn i etholaeth wledig. Byddai'r newidiadau hyn yn golygu y byddai bron i draean o'r etholaeth mewn ardal ddaearyddol fechan iawn o gymharu â gweddill yr etholaeth, a hyn yn ei dro yn creu atyniad cryf i swyddfa'r AS fod yno. Ar hyn o bryd, dim ond un daith fws mae'n rhaid i'r sawl heb gludiant wneud i gyrraedd swyddfa, ond byddai symud i Aberhonddu yn golygu dwy daith, a thair i Ystradgynlais petai'n rhaid iddynt fynd i'r swyddfa.

Yr wyf yn pryderu hefyd fod yr ardal ychwanegol hon mewn ardal cyngor wahanol, gyda heddlu a bwrdd iechyd gwahanol. Oni fydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r AS a'i staff lunio cyfresi lluosog o gysylltiadau, ac a fydd y rhain oll ganddynt os bydd arnaf eu hangen? Onid yw'n well cadw ffiniau cyngorau lle bo modd? Yr ydych eisoed wedi creu cysylltiadau ymhellach i'r gogledd, felly beth am fanteisio ar awgrymiadau'r Democratiaid Rhyddfrydol a gwneud o leiaf un o seddi Powys yn gyfan gwbl y tu mewn i ardal y cyngor a chaniatáu i'r AS ganolbwyntio ar faterion gwledig heb orfod ymboeni am faterion y cymoedd trefol hefyd.

BCW-10216/ Cyng Phillipa Marsden/ Crosskeys

Mae'r newidiadau a gynigir o ran uno Caerffili a Gorllewin Casnewydd mor llym fel fy mod yn teimlo bod yn rhaid i mi ymateb i'r ymgynghoriad, o ystyried bod y terfyn amser mor agos fel na allaf roi gwrthgynnig llawn gerbron, ond hoffwn rannu fy mhryderon.

Rwy'n byw yn etholaeth Islwyn ac fel Cyngorydd Sir dros CBSC, rydym yn gwneud penderfyniadau i bawb yng Nghaerffili, Islwyn a'r rhan sy'n Rhymni o etholaethau Merthyr Tudful a Rhymni; mae'r ffaith fod dwy etholaeth yn gyfan gwbl o fewn ffiniau'r ALL yn fuddiol iawn o ran penderfyniadau democrataidd, gwybodaeth a chysylltedd.

Nid yw uno Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn dal dŵr.

Mae'n ymddangos bod y cyfan seiliedig ar dynnu lluniau ar fap heb unrhyw ystyriaeth o'r cymunedau ynddynt, a buaswn yn dadlau nad yw hyn yn helpu democratiaeth.

Beth sydd gan y cymunedau hyn yn gyffredin? Dim. Yn hanesyddol, nid ydynt yn gysylltiedig, e.e., Ridgeway i Senghennydd a Choedcernyw ag Abertridwr? Mae cymunedau'r cymoedd yn endidau gwahanol, ac y mae'n bwysig cydnabod hanes cymdeithasol yr holl lefydd hyn, ac y mae hynny'n wir am Gasnewydd hefyd.

A fydd pob CDLI wedi cael eu hystyried, oherwydd maent wrthi yn cael eu ffurfio, a bydd elfen ynddynt o gynnydd mewn tai. A ystyriwyd hyn?

Sut beth fyddai uno Gorllewin Casnewydd a Dwyrain Casnewydd? A yw hynny'n ddewis posib, gan gymryd ymylon allanol Casnewydd a symud allan yn gylchol, oherwydd mae gan y cymunedau hynny gysylltiadau a gellid eu rhoi gyda'i gilydd i ehangu naill ai Islwyn a/neu Gaerffili, gyda'r ardaloedd pellaf megis Rhiwderyn a'r Graig yn mynd i Gaerffili a'r Tŷ-Du yn mynd i Islwyn.

Petai modd gosod y terfynau isaf ar seddi'r cymoedd oherwydd eu cymunedau unigryw a'r dopograffeg, byddai gennym ddosbarthiad tecach ar draws yr holl etholaethau, a byddai hynny'n fwy derbyniol. Mae aberthu cymaint o seddi yn edrych fel cam yn ôl. Felly buaswn yn awgrymu dod o hyd i ffordd arall i greu dosbarthiad tecach ar draws yr holl etholaethau yng Nghymru.

Llawer o ddiolch

BCW-10217/ Julie Morgan AS/ Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 13:49

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Julie Morgan AS – Cyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer yr Ail Gyfnod Ymgynghori

Prynhawn da

Atodaf fy nghyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer yr Ail Gyfnod Ymgynghori.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ystyriaeth ddyledus iddo.

Dymuniadau gorau,
Julie

Julie Morgan AS/MS
Aelod o'r Senedd dros Ogledd
Caerdydd
Member of the Senedd for Cardiff
North

Julie Morgan

Aelod o'r Senedd dros
Ogledd Caerdydd

—
Member of the Senedd for
Cardiff North

Trwy e-bost: bcw@boundaries.wales

30 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn

Ysgrifennaf fel yr Aelod o'r Senedd dros Ogledd Caerdydd ynghylch Cynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ffin etholaeth Seneddol Gogledd Caerdydd. Rwyf wedi cynrychioli etholaeth Gogledd Caerdydd ers 24 mlynedd, fel Aelod Seneddol ac fel Aelod o'r Senedd, felly rwy'n adnabod yn dda dros ben y cymunedau sy'n llunio'r etholaeth bresennol.

Rwy'n croesawu'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n gweld yr etholaeth yn parhau'n gyfan, ond gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, ar y cyfan, yn golygu y bydd dwy ward yn unig o fewn Caerdydd yn newid o un etholaeth i etholaeth arall. Gan fod Canol Caerdydd yn rhy fach a De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymni at etholaeth Canol Caerdydd yn un priodol.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan ond gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol â ffin naturiol Afon Taf, ac o ystyried y cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog sy'n bodoli yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn ystyried yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf oddi wrth Landaf yng Ngorllewin Caerdydd, sydd heb lawer o gysylltiadau trafnidiaeth nac ymdeimlad o gysylltiad â'i gilydd. Nid oes gan y ddwy gymuned, ar y naill ochr a'r llall i'r afon,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

fawr ddim yn gyffredin ac eithrio eu henwau, ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol nac yn cydnabod y cysylltiadau lleol presennol. Yn ogystal, byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn rhannu un o ystadau tai hynaf Cymru – sef Mynachdy, sydd yn rhannol yng Ngabalfa. Roedd adeiladu Rhodfa'r Gorllewin eisoes wedi rhannu ystad Mynachdy, felly byddai rhannu'r etholaethau sy'n cynrychioli'r ystad yn gwahanu ymhellach y gymuned sy'n byw yno. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd yn gysylltiedig a cheir mynediad iddynt drwy gylchfan Gabalfa.

Nid oes ychwaith unrhyw gysylltiad naturiol rhwng Gogledd Caerdydd a Llanrhymni. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol sy'n bodoli rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd, a'r cysylltiadau trafniadaeth cyfyngedig dilynol rhwng Llanrhymni a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n gweld Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu ystyried y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau sy'n gyfagos i'w gilydd, ceir cysylltiad clos rhwng y Mynydd Bychan a Llanisien o ran trafniadaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Cardiff Lifestyle Park, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd, a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros o fewn Gogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

Byddai Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i gadw ffiniau presennol Gogledd Caerdydd, ond gan ychwanegu Ffynnon Taf, hefyd yn golygu y byddai ffiniau etholaethau'r Senedd a ffiniau etholaethau Seneddol San Steffan yn cael eu hadlewyrchu, ac eithrio Ffynnon Taf yn unig. Pe bai'r ffiniau'n cael eu newid ymhellach, fel yn y gwrthgynnig uchod, byddai etholaeth Gogledd Caerdydd yn y Senedd ac etholaeth Seneddol Gogledd Caerdydd yn San Steffan yn wahanol iawn, ac er y byddent yn cynrychioli'r un etholaeth o ran ei henw, byddai'r Aelod o'r Senedd a'r Aelod Seneddol yn cynrychioli cymunedau tra gwahanol.

I gloi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynnigion a nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol, a dyma'r cynigion sy'n achosi'r tarfu lleiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn lle tair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynnigion.

Diolch i chi am ystyried hyn.

Yr eiddoch yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Julie Morgan

Aelod o'r Senedd dros Ogledd Caerdydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

BCW-10218/ Chris Elmore AS/ Ogwr

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 14:11

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cyflwyniad Chris Elmore AS

Annwyl Dîm,

Anfonaf gyflwyniad Chris Elmore AS ar gyfer Ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau. Os oes unrhyw broblemau o gwbl, rhowch wybod i mi.

Dymuniadau gorau,

[REDACTED]



[REDACTED]
Parliamentary Assistant

Chris Elmore AS

Member of Parliament for Ogmore

Shadow Minister for Media, Data & Digital Infrastructure

Sylwadau agoriadol

Mae gwaith y Comisiwn Ffiniau yn anodd, o ystyried pa mor gaeth yw'r Ddeddf. Mae'r Comisiwn wedi'i gyfyngu gan y cylch gwaith a osodwyd, ac mae hyn yn cynnwys gorfod cael etholaethau sy'n croesi ffiniau mwy nag un awdurdod lleol.

Mae'r her a gyflwynir gan dopograffi a daearyddiaeth Cymru yn cymhlethu argymhellion y Comisiwn. Ym mhob arolwg diweddar, mae'r Comisiwn wedi cydnabod nad yw'n ddoeth rhannu cymunedau'r cymoedd yn llorweddol, a chroesawir hyn, ac mae bellach yn arddel bod ffiniau o fewn ardaloedd y cymoedd, lle bo hynny'n ymarferol, yn fertigol neu'n dilyn topograffi naturiol y cwm. Mae hyn yn osgoi hollti cymunedau.

O blaid cynnig y Comisiwn

Croesawir cynigion y Comisiwn mewn perthynas ag etholaeth bresennol Ogwr ac etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr. Mae newid yr enw i Ben-y-bont yn cydnabod maint y dref, sydd eto i'w groesawu.

Mae'r cynnig yn cydnabod y cysylltiadau lleol hirsefydlog rhwng y ddwy etholaeth ac yn sicrhau bod yr etholaeth newydd yn cwmpasu un ardal sirol â chysylltedd da o ran trafnidiaeth, yn ogystal â chysylltiadau economaidd, diwylliannol a hanesyddol cryf.

Llywodraeth Leol: Mae creu'r etholaeth a awgrymir yn sicrhau bod rhannau helaeth o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn aros o fewn un etholaeth, ac mae hynny i'w groesawu. Mae hyn oherwydd y ffaith bod preswylwyr sy'n byw yng nghymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, ynghyd â chymuned Evanstown yng Nghwm Gilfach, yn ogystal ag ardaloedd porth y cymoedd o amgylch Sarn ac Abercynffig a thref Pencoed, yn cael mynediad i wasanaethau awdurdod lleol gan CBSP, felly mae'r ffin newydd a awgrymir, sy'n symud llawer o dref Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â'r cymunedau sy'n ffinio ag etholaeth bresennol Ogwr, megis Pen-y-fai, Coety a Bracla, i un etholaeth, yn gwneud synnwyr.

Hanesyddol: Mae cadw cymunedau cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr gyda'i gilydd yn cydnabod y cysylltiadau hanesyddol hirsefydlog sy'n bodoli rhyngddynt, trwy ddiwydiant trwm megis mwyngloddio glo neu haearn. Mae hyn yr un mor wir am gymunedau o amgylch Sarn a Phencoed, a sefydlwyd

oherwydd pyllau lleol ac a ddaeth yn aneddiadau mwy o faint wrth i ddiwydiant ehangu yn y tri chwm, felly mae cysylltiad rhyngddynt oherwydd eu hanes cyffredin. Roedd tref Pen-y-bont ar Ogwr yn arfer bod yn rhan o etholaeth wreiddiol Ogwr cyn 1983, ac mae llawer o'i hanes yn gysylltiedig â'r tri chwm, felly mae eu hadfer mewn un etholaeth yn gynnig rhesymegol.

Economaidd: Mae'r cymunedau yn etholaeth bresennol Ogwr, yr awgrymir eu cynnwys yn etholaeth newydd Pen-y-bont, yn ystyried canol tref Pen-y-bont ar Ogwr fel eu hardal siopa a gwasanaethau bancio. Mae rhannau o ardaloedd cymoedd Garw ac Ogwr, ynghyd â'r cymunedau o fewn porth y cymoedd fel Sarn, Abercynffig a Phencoed, yn profi lefelau uchel o amddifadedd, ac mae gwasanaeth hanfodol y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer yr holl gymunedau hyn wedi'i leoli yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynnig a awgrymir gan y Comisiwn yn ffurfioli'r cyswllt, o safbwynt hirsefydlog preswylwyr yr ardal, mai tref Pen-y-bont ar Ogwr yw eu canolfan ar gyfer gwasanaethau economaidd-gymdeithasol.

Trafnidiaeth: Mae gan y wardiau ar draws cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, ynghyd â holl wardiau porth y cymoedd a Phencoed, wasanaethau trafnidiaeth hirsefydlog a sefydledig i Ben-y-bont ar Ogwr. Mae'r brif orsaf fysiau, sy'n cysylltu â phob cymuned, wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr orsaf fysiau lai ym Maesteg a gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr. Mae holl breswylwyr etholaeth bresennol Ogwr yn defnyddio gorsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer gwasanaethau'r brif linell reilffordd, sy'n atgyfnerthu'r cysylltiad hirsefydlog rhwng y ddwy etholaeth. Yn achos cymoedd Garw ac Ogwr, mae gwasanaethau bysiau yn defnyddio gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr fel canolfan ar gyfer teithio ymlaen, a cheir gwasanaethau uniongyrchol cyfyngedig iawn i gyrchfannau eraill.

Gwasanaethau cymunedol: Mae darpariaeth gwasanaethau iechyd, gan gynnwys yr adran damweiniau ac achosion brys, ar gyfer cymunedau CBSP sydd yn etholaeth bresennol Ogwr, wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys y prif ysbyty a gwasanaethau iechyd cymunedol ehangach megis gwasanaethau mamolaeth ac ôl-enedigol.

Byddai cynnig y Comisiwn yn cadarnhau'n rhesymegol y cysylltiadau hirsefydlog o ran chwaraeon, diwylliant a chymunedau.

Gwrthgynigion ar gyfer etholaethau Pen-y-bont ac Aberafan Porthcawl

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cynigion cychwynnol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a sedd gyfagos newydd Aberafan Porthcawl, rwy'n ymwybodol o bryderon ynghylch nifer fach o wardiau sy'n rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr ond sy'n ymuno ag Aberafan a Phorthcawl yn hytrach nag etholaeth newydd Pen-y-bont.

Mae'n destun pryder y byddai'r cynigion amgen a gyflwynwyd gan y Blaid Geidwadol yn cynnwys cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, yn ogystal â rhannu wardiau ardal y porth, h.y. Abercynffig, oddi wrth wardiau Sarn ac Ynysawdre, a'u hychwanegu at y 13 o wardiau yn etholaeth bresennol Aberafan. Byddai hyn yn creu cymuned hollt gyda diffyg cysylltiadau trafniadaeth neu gysylltiadau anodd, ac yn y pen draw, nid yw'r cynigion hyn yn cydnabod y pellter teithio i breswylwyr pan fyddant yn dymuno cael cymorth gan eu Haelod Seneddol.

Cymunedau Hollt: Wrth hepgor ward Abercynffig, caiff cymunedau Abercynffig, Tondy a Choetre-hen eu gwahanu oddi wrth Sarn, Ynysawdre, Bryncethin a'r pentrefi cyfagos. Mae'r cymunedau hyn yn rhannu gwasanaethau addysgol (cynradd ac uwchradd) a gwasanaethau iechyd. Maent yn rhannu gwasanaethau hamdden, gan gynnwys canolfan chwaraeon, maes criced a chyfleusterau chwaraeon lleol. Mae'r ardal yn gymuned sefydledig.

Byddai hepgor y ward yn creu anghysondeb pellach o ran ffiniau'r cynnig a awgrymir, gan y byddai hepgor ward Abercynffig yn golygu y byddai cymuned Coetre-hen yn cael ei hynysu. Er enghraifft, pe derbynnir y gwrthgynnig, byddai preswylwyr sy'n byw yng Nghoetre-hen yn teithio ddwywaith drwy etholaeth newydd Aberafan er mwyn cyrraedd etholaeth arfaethedig Pen-y-bont, gan y byddai wardiau cyfagos Ynysawdre a Sarn wedi'u lleoli yn etholaeth newydd Aberafan Maesteg.

Dylid nodi hefyd y byddai hyn yn golygu na fyddai'r cymunedau ymhellach i fyny Cwm Llynfi, sef Llangynwyd, Maesteg a Chaerau, wedi'u cysylltu drwy'r prif rwydwaith ffyrdd, o ran ffiniau, â'r gwrthgynnig a awgrymir sy'n cynnwys cymoedd Garw ac Ogwr, ynghyd â chymuned Evanstown yng Nghwm Gilfach. Yn lle hynny, byddent yn dibynnu ar ffyrdd trac sengl, a ddefnyddir yn aml ar gyfer amaethyddiaeth a mynediad i ffermydd anghysbell yn unig. Neu gellir

gyrru i lawr Cwm Afan ac yna yn ôl ar draws yr M4 neu i fyny Cwm Afan i Gwm Ogwr ac ymlaen i Gwm Garw er mwyn peidio â gadael yr etholaeth a awgrymir.

Byddai datgysylltu cymunedau cyfan, fel yr awgrymir yn y gwrthgynigion, yn groes i uchelgeisiau'r Comisiwn.

Diffyg cysylltedd trafnidiaeth: Er bod gwasanaethau'n rhedeg rhwng y cymunedau ym Maesteg a'r cyffiniau i lawr Cwm Afan, nid oes llawer o wasanaethau, os oes rhai o gwbl, rhwng cymoedd Garw ac Ogwr, yn ogystal â chymuned Evanstown. Er enghraifft, mae taith fws o Gwm Garw i Bort Talbot yn cymryd awr a 40 munud, sy'n cynnwys newid ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai'n ddryslyd i breswylwyr fod ag etholaeth Seneddol sy'n gysylltiedig ag Aberafan er nad oes ganddynt lawer o gysylltiad ffisegol neu hanesyddol â'r ardal, os oes unrhyw gysylltiad o gwbl. Byddai amser teithio ar draws yr etholaeth a awgrymir yn y gwrthgynnig, o ystyried y diffyg rhwydweithiau ffyrdd ffisegol rhwng Cwm Garw a chymoedd Llynfi, Ogwr, Afan ac unrhyw un o'r ardaloedd o amgylch Port Talbot, yn golygu taith o hyd at awr yn y rhan fwyaf o achosion, sy'n ymddangos yn afresymegol wrth ystyried nod y Comisiwn o gadw cysylltiadau cymunedol lle bo hynny'n bosibl.

Cael cymorth: Dywedwyd llawer am hygyrchedd gwleidyddion cyn y pandemig ac ers hynny. Mae'n bwysig bod unrhyw wrthgynigion a awgrymir yn uno ardaloedd sydd â chysylltiadau rhesymegol. Pe bai'r Comisiwn yn cefnogi'r gwrthgynnig, gallai ymgysylltu â dwy gymuned wahanol sydd heb unrhyw gysylltiad fod yn heriol, yn enwedig o ran cymunedau mwy diarffordd fel y rhai yng nghymoedd Garw ac Ogwr, sydd â rhesi o fynyddoedd yn eu gwahanu oddi wrth ardaloedd ym Mhort Talbot a'r cyffiniau, a cheir mynediad i'r ardaloedd hyn drwy Ben-y-bont ar Ogwr, a fyddai mewn etholaeth wahanol.

Mae'r gwrthgynigion a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn awgrymu chwalu cymunedau sydd â chysylltiadau sefydledig, gan gynnwys cymunedau yng ngogledd y cymoedd sydd, er enghraifft, yn rhannu darpariaeth gwasanaethau iechyd ac addysg. Nodaf gyfres o bryderon ynghylch y cynigion hyn isod.

Yn gyntaf, mae'r gwrthgynnig ar gyfer Aberafan a Maesteg a De-ddwyrain Abertawe yn anwybyddu cymuned sefydledig Llangynwyd fel rhan o Gwm

Llynfi. Mae Llangynwyd yn rhannu cysylltiadau a gwasanaethau addysgol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau diwylliannol â Maesteg. Byddai chwalu'r cymunedau hyn, o ystyried pa mor gydgysylltiedig yw eu ffiniau, yn golygu rhannu cwm yn ddau, a fyddai'n mynd yn groes i egwyddorion y Comisiwn o beidio â rhannu cymunedau lle gellir osgoi hynny. Yn yr un modd, mae ehangu etholaeth dros dair ardal fwrdeistref sirol yn groes i uchelgais y Comisiwn i gadw ffiniau etholaethau o fewn y nifer isaf o ardaloedd cyngorau, ac mae'n bosibl y gallai cymunedau fel Maesteg gael eu hynysu, o ystyried yr heriau o gynrychioli etholaeth sy'n cynnwys dinas.

Nid yw'r gwrthgynnig a awgrymir ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod y cysylltiadau hirsefydlog sy'n bodoli rhwng cymuned Betws a Chwm Garw, a bod y ward yn rhan o gyngor cymuned Cwm Garw. Mae hollti ffiniau cymunedau fel hyn yn annefnyddiol, gan nad yw'n cydnabod y cysylltiadau hanesyddol sydd rhwng cymunedau Blaengarw, Pontycymer a Llangeinor, a Betws. Yn ogystal, mae'n anwybyddu'r gwasanaethau meddygon teulu a rennir yn y cymunedau hyn, a'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd i ddarparu addysg cyn ysgol ac addysg gynradd ar gyfer y cwm cyfan, sydd wedi'i lleoli ym Metws. Er nad yw'r Comisiwn yn gyfrifol am benderfyniadau'r awdurdod lleol, gobeithiaf y rhoddir ystyriaeth i ymrwymïadau a wnaed i gadw cymunedau gyda'i gilydd wrth wella'r ystad addysg ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ar ben hynny, mae'r cynnig yn gwahanu cymuned Bryncethin oddi wrth ei hardal cyngor cymuned, sef Llansanffraid-ar-Ogwr. Unwaith eto, nid yw hyn yn gwneud llawer o synnwyr o ystyried yr ymdeimlad o gymuned a rennir â wardiau Bryncoch, Sarn ac Ynysawdre. Mae hefyd yn destun pryder oherwydd mae ward Bryncethin yn rhannu cyfleusterau addysg gynradd ac uwchradd â'r wardiau uchod yn ogystal â meddygon teulu a gwasanaethau iechyd cymunedol ehangach. Nid yw rhannu'r cymunedau ar sail cyflawni'r niferoedd cywir ar gyfer gwrthgynnig gwahanol yn helpu cyflawni uchelgais y Comisiwn o gadw cymunedau hirsefydlog a sefydledig yn gyflawn, lle bo modd.

Mae'r wardiau sy'n cynnwys Felindre, Penprysg a Hendre yn ffurfio tref Pencoed, ac mae cyfleusterau addysg uwchradd ac addysg bellach ym Mhencoed yn gydgysylltiedig â thref Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae preswylwyr Pencoed yn dibynnu ar Ben-y-bont ar Ogwr am wasanaethau economaidd-

gymdeithasol gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng Pencoed a'r cymunedau sy'n rhan o Rongdd. Dychwelaf at hyn yn fy mhryderon ynghylch y gwrthgynnig ar gyfer Rhongdd.

Yn olaf, o ran y gwrthgynnig ar gyfer Pen-y-bont, mae gan wardiau Cwm Ogwr gysylltiad agos â bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys gwasanaethau bysiau, cysylltiadau rheilffordd, a darpariaeth gwasanaethau iechyd, yn ogystal â rhannu canolfan economaidd a masnachol. O fancio i brynu bwyd, mae'r cymunedau'n troi at Ben-y-bont ar Ogwr; ni fyddai er lles gorau'r preswylwyr i osod y cwm mewn cymuned nad oes ganddo lawer o gysylltiad â hi.

Nid yw'r cynnig ar gyfer Gorllewin Caerdydd, gan ychwanegu wardiau Brynna, Llanhari a Llanharan, yn adlewyrchu unrhyw gysylltiadau cymunedol o gwbl ar gyfer y cymunedau hyn. Nid ydynt yn agos i Gaerdydd ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad hanesyddol â'r ddinas. Nid yw'n gywir dweud bod ardaloedd mawr o dir agored rhwng y wardiau a gweddill etholaeth bresennol Ogwr. Mae llwybrau troed i dref Pencoed ar ffiniau ward Brynna; mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a datblygiadau tai yn yr ardal yn cysylltu'n uniongyrchol â naill ai Pencoed neu ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, a hysbysebir gwasanaethau masnachol a thrafnidiaeth i'r mannau hyn; ceir darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg a'r sector uwchradd rhwng Pencoed a'r tair ward hyn. Byddai cynnig presennol y Comisiwn i leoli'r wardiau hyn yn etholaeth ehangach Rhongdd yn cydnabod barn preswylwyr eu bod yn rhan o ardal cyngor Rhongdd Cynon Taf (RhCT), ac nid wedi'u rhannu rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT. Byddai'n destun syndod y gallent ffurfio rhan o etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Yn olaf, nid yw'r cynnig ar gyfer etholaeth Rhongdd yn cydnabod y ffaith nad oes gan dref Pencoed a chymunedau Bryncethin unrhyw gysylltiad â chymunedau cymoedd y Rhongdd Fach a'r Rhongdd Fawr. Mae Pencoed a Bryncethin yn troi at Ben-y-bont ar Ogwr am wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau economaidd a gwasanaethau diwylliannol. O fewn y newidiadau arfaethedig, mae cymunedau Blaengarw, Pontycymer a Llangeinor yng Nghwm Garw yn symud i'r etholaeth newydd. Mae hyn yn broblemus, oherwydd byddai cael mynediad i'r tair ward hyn ar y prif rwydwaith ffyrdd yn golygu gadael yr etholaeth arfaethedig, mynd i etholaeth Pen-y-bont, ac yna mynd yn ôl i etholaeth newydd Rhongdd. Yr

unig ddewis arall yw gyrru i ben draw etholaeth bresennol Rhondda, teithio i lawr Cwm Ogwr, ac yna defnyddio isffyrdd B i gyrraedd Cwm Garw. Nid oes llawer o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, os oes rhai o gwbl, rhwng cymunedau cymoedd y Rhondda a Chwm Garw. Wrth gwrs, mae holl gymunedau cymoedd Garw ac Ogwr, unwaith eto, yn troi at Ben-y-bont ar Ogwr am wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau economaidd-gymdeithasol ehangach, a dylid ystyried hyn wrth greu etholaethau newydd.

Pwynt ehangach, a phwynt terfynol y newidiadau a awgrymir, yw eu bod yn arwain at chwalu cymunedau sydd, yn aml, heb unrhyw gysylltiad â'u hetholaeth newydd, ac mewn dau achos, fe'u cysylltir â dinasoedd nad ydynt erioed wedi rhannu ffiniau â nhw yn hanesyddol. Nid yw'r newidiadau yn ystyried y problemau sy'n deillio o rannu un o gymunedau'r cymoedd rhwng dwy etholaeth, nac yn wir y cysylltiadau hanesyddol rhwng dau gwm, sef Cwm Ogwr a Chwm Garw, ac mae'r newidiadau yn dymuno gwahanu'r cymunedau yng ngogledd Cwm Llynfi rhwng dwy etholaeth – er nad yw'n ymddangos bod hyn yn cyflawni uchelgeisiau'r Comisiwn ei hun.

Dewis amgen

O ystyried y pryderon yn yr ymatebion gan etholwyr ynghylch cynnwys wardiau sy'n rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr yn y cynnig ar gyfer Aberafan Porthcawl, efallai y gall y Comisiwn ailystyried ei gynnig cychwynnol drwy wneud mân newid.

O ystyried y cysylltiadau cymunedol agos sydd gan yr ardaloedd preswyl hyn â thref Pen-y-bont ar Ogwr, addasiad llai fyddai cynnwys ward Llangewydd and Brynhyfryd a ward Cefn Glas yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Mae'r ddwy ardal yn rhyng-gysylltiedig, gydag ystadau mawr o dai wedi'u hadeiladu dros nifer o flynyddoedd, ac fe'u cysylltir drwy wasanaethau addysg, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymunedol, a fyddai'n llunio achos cryf dros osod y ddwy ward hyn yn etholaeth newydd Pen-y-bont fel yr awgrymwyd gan y Comisiwn. Er y deallir na fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau wardiau y tu hwnt i 1 Rhagfyr 2020, dylid nodi y bydd Llangewydd, Brynhyfryd a Cefn Glas yn ffurfio un ward o fis Mai 2022, sy'n cefnogi ymhellach y newid bach hwn er mwyn ymateb i bryderon etholwyr yn yr ardal.

Byddai hyn yn gadael etholaeth Aberafan Porthcawl â 73,554 o etholwyr, sydd ar ben isaf Cwota Etholiadol y DU, ac mae'n golygu y byddai etholaeth arfaethedig Pen-y-bont yn rhagori ar Gwota Etholiadol y DU â 77,626 o etholwyr.

Er mwyn galluogi hyn, gallai ward Cefn Cribwr symud o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont i etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl, a fyddai'n eu gadael â 76,446 a 74,734 o etholwyr, yn y drefn honno.

Mae gan Gefn Cribwr gysylltiadau agos â Mynydd Cynffig a'r Pîl, a fydd yn rhan o'r ward etholiadol newydd yn dilyn etholiadau'r cyngor ym mis Mai 2022, ac maent hefyd yn rhannu gwasanaethau addysg uwchradd a gwasanaethau iechyd sylfaenol. Cynigir eisoes y dylai Mynydd Cynffig a'r Pîl fod yn rhan o etholaeth Aberafan Porthcawl.

Casgliad

Mae tasg y Comisiwn yn un anodd a hoffwn ddiolch iddynt am eu hymdrechion i gynnal yr arolwg heriol hwn a llunio set o gynigion sydd i raddau helaeth yn sicrhau bod cysylltiadau cymunedol yn cael eu cadw, yn ogystal â'u bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf.

Rwy'n ddiolchgar i'r Comisiwn am ganiatáu amser i mi gyflwyno fy natganiad.

BCW-10219/ [REDACTED] / Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 15:10

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]

Pwnc: Gwrthwynebiad y Grŵp Uwch i Gynigion y Comisiwn Ffiniau

At y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Gwrthwynebiad Conway 50+ i symud Glanyrafon o Etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Mae canolfan clwb Conway 50+ yng Nglanyrafon, [REDACTED]

Mae mwyafrif aelodau ein grŵp yn byw yn wardiau Glanyrafon a Threganna, ac eraill o wardiau'r Tyllgoed, Llandaf a Radur yng Ngorllewin Caerdydd. Yr ydym yn grŵp cymunedol fu mewn bodolaeth ers bron i wyth mlynedd ac yr ydym yn ganolbwynt pwysig iawn i bobl hŷn yng nghymuned Glanyrafon, gyda mwy o weithgareddau yn deillio o'r sesiynau bore Mercher rheolaidd.

Mae gennym 138 o aelodau ar ein cronfa ddata o gysylltiadau a daw rhyw 45 o bobl ar gyfartaledd i'r sesiwn wythnosol ar ddydd Mercher.

Yn ein cyfarfod 50+ rheolaidd y bore yma, gyda 46 o bobl hŷn yn bresennol, mynegwyd ein dymuniad llethol i wrthwynebu gosod ward Glanyrafon yng Nghanol Caerdydd. Mae Glanyrafon ar lan orllewinol Afon Taf ac felly yn ddaearyddol, y mae'n rhan o Orllewin Caerdydd. Mae'r tri choridor afon yn nodwedd bwysig o Gaerdydd ac yn amlwg yn rhannu cymunedau.

Nid yn unig y mae Afon Taf yn nodwedd ddaearyddol ffisegol, ond y mae'r afon yn ffin rhwng cymunedau. Mae dalgylchoedd ein hysgolion oll yn canoli ar Orllewin Caerdydd. Aiff pobl ifanc o deuluoedd Cymraeg eu hiaith i Ysgol Plasmawr yn y Tyllgoed, Gorllewin Caerdydd. Mae'r tair ysgol gynradd yng Nglanyrafon: Kitchener, Severn ac ysgol gynradd Gatholig y Santes Fair yn bwydo i ysgolion uwchradd yng Ngorllewin Caerdydd. Kitchener a Severn i Fitzalan neu Cantonian, ac Ysgol Gynradd y Santes Fair i'r Fair Ddifrycheulyd yng Nghaerau.

Yn ogystal â'r ffaith fod gan ysgolion gysylltiad â Gorllewin Caerdydd, mae cymunedau Glanyrafon yn cysylltu â'r ardal siopa yn y ward. Cyfeirir at yr ardal siopa leol yn aml fel 'Stryd Fawr Treganna', ond mewn gwirionedd mae'r siopau ar Heol Dwyrain y Bontfaen o Ysbyty Dewi Sant at hen dafarn y Corporation ar gornel Heol Llandaf oll yn ward Glanyrafon.

Teimlwn hefyd fod Pentyrch a Radur yn rhan annatod o Orllewin Caerdydd ac y dylid eu cadw yn yr etholaeth hon. Rhaid i ogledd-orllewin Caerdydd aros yng Ngorllewin Caerdydd.

Anogaf chi i wrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i ffiniau wardiau ac ychwanegu eich llais at ein rhai ni.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]

BCW-10220/ [REDACTED] **Grwpiau Gwleidyddol yng Nghyngor Sir Fynwy**
/ Sir Fynwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 16:02

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb Sir Fynwy i Ffiniau Seneddol

Prynhawn da

Fe welwch wedi ei atodi lythyr Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn Sir Fynwy sydd am ailadrodd eu safbwynt blaenorol o gefnogi'r cynigion drafft am un etholaeth Sir Fynwy.

Cofion Caredig

[REDACTED]

[REDACTED]

CP i'r Cadeirydd a'r Arweinydd
Cyngor Sir Fynwy

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Isaf
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL



Y sawl sy'n ymdrin â'r
mater hwn yw:



E-bost:



Annwyl Syr / Fadam

Adolygiad Ffiniau Seneddol 2023 – Cynigion Sir Fynwy

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 2 Tachwedd, ysgrifennwn eto fel arweinyddion grwpiau gwleidyddol Cyngor Sir Fynwy i ailadrodd ein safbwynt blaenorol i gefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau i Gymru i wneud etholaeth Sir Fynwy yn gyd-ffiniol â'r awdurdod lleol.

Mae'r cynigion yn synhwyrol, yn gyfleus ac yn welliant ar y sefyllfa bresennol. Byddant yn helpu'r cyhoedd i ddeall pwy sy'n eu cynrychioli ac annog mwy o gyfranogiad mewn democratiaeth.

Yr ydym oll yn gwrthwynebu unrhyw gynigion fyddai'n hollti Sir Fynwy rhwng dwy neu dair o etholaethau gwahanol.

Yr eiddoch yn gywir

Richard John

Arweinydd y Grŵp Ceidwadol

Dimitri Batrouni


Arweinydd y Grŵp Llafur

Simon Howarth

Arweinydd y Grŵp Annibynnol

Jo Watkins

Arweinydd Grŵp y Democratiaid
Rhyddfrydol



BCW-10221/ [REDACTED] / Caerdydd

Helo

Fe welwch wedi ei atodi fy ymateb i'r Ail Ymgynghoriad cyfredol. Fe wneuthum gyflwyno yn gynharach trwy adran sylwadau'r wefan, ond ni dderbyniais unrhyw beth i ddweud ei fod wedi ei dderbyn, a dyna pam rwy'n anfon yr e-bost hwn. Buaswn yn ddiolchgar pe gallech gydnabod ei dderbyn.

Cofion

[REDACTED]

Ymateb i gynigion y Comisiwn Ffiniau a Gwrth-gynigion gan [REDACTED], preswlydd Cathays, Caerdydd. 30/3/2022

Bydd y cyflwyniad hwn yn cynnig sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, y gwrthgynigion a'u cydymffurfiad â'r ffactorau statudol yn adran 3.4 Canllaw y Comisiwn i Adolygiad 2023.

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi y gallai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried wrth i'r Comisiwn ddatblygu cynigion

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygrychedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n ddarpar ffiniau ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anhwylostod a fyddai'n dilyn newidiadau o'r fath.

Mae'r Adolygiad Ffiniau hwn a'i gynigion wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i fodloni'r fframwaith Cwota Etholiadol a nifer yr etholwyr ar y gofrestr ym mis Rhagfyr 2020. Mae fy nghyflwyniad wedi'i gyfyngu gan hynny felly.

Cynigion Cychwynnol

Rwy'n croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd fel trigolyn. Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r cynigion a wnaed ar gyfer Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Mae etholaethau mawr nodweddiadol wardiau yng Nghaerdydd yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn. O gofio bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach a bod etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r estyniad rhesymegol i etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu Tredelerch a Llanrhymini yn synhwyrol ac felly i'w groesawu.

Byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd â chysylltiadau cymunedol presennol sydd eisoes o fewn Canol Caerdydd:

Cathays a Phlasnewydd

Mae gan Cathays a Phlasnewydd lawer o gysylltiadau cymunedol. I raddau helaeth iawn, dyma'r ddwy brif ward lle mae'r boblogaeth fyfyrwyr sylweddol iawn o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys rhannau o Blasnewydd.

Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed o'r fath fel bod trigolion ym mhob un o'r tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath o gwmpas ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Plwca. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn, gan gynnwys y

cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus allan o ganol y ddinas, yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

Plasnewydd /y Rhath a Phen-y-lan

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a Phlasnewydd yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir mewn enwau ysgolion, Ysgol Gynradd Parc y Rhath, ac ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Cae Chwarae y Rhath, "The Rec." sydd yn ward Pen-y-lan.

Mae etholwyr Pen-y-lan yn edrych tuag at ardal siopa Heol Albany a Heol Wellfield ym Mhlasnewydd. Mae'r plant yn ysgolion cynradd Pen-y-lan yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays gan deithio ar hyd prif ffyrdd trwodd Heol Albany a Heol y Crwys ar eu teithiau i'r ysgol.

Pen-y-lan a Chyncoed

Mae llawer o drigolion Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath ac mae'r enw "y Rhath" wedi'i hen sefydlu a cheir dealltwriaeth dda ohono. Fe'i gwelir ar ein nodweddion daearyddol blaenllaw fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau ohonynt yn ward Cyncoed yn ddaearyddol. Mae trigolion y ddwy ward yn edrych tuag at Heol Albany a Heol Wellfield yn enwedig ar gyfer siopa ac amwynderau eraill.

Tredelerch a Llanrhymni

Mae cynnig y Comisiwn i gynnwys Tredelerch a Llanrhymni yng Nghanol Caerdydd yn adeiladu ar y ffaith fod gan y ddwy ward gysylltiadau trafndiaeth da iawn ac wedi'u hen sefydlu, ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ag etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r brif ffordd o Llanrhymni, trwy Tredelerch, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays. Mae Tredelerch a Llanrhymni yn wardiau â chysylltiadau lleol dwfn a helaeth â'i gilydd. Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Y prif fan chwarae yw Cae Chwarae Tredelerch, sydd wedi'i leoli yn Llanrhymni.

Gwrthgynigion

Gwnaed sawl gwrthgynnig yn ymwneud â Chanol Caerdydd a thair etholaeth gyfagos Caerdydd. Ar ôl darllen y gwrthgynigion a gwrando ar y dystiolaeth lafar a'r cwestiynau a'r atebion yn ymwneud â nhw yng ngwrandawriad y Comisiwn yng Nghaerdydd ddydd Iau 17 Chwefror 2022, awgrymaf nad ydynt yn cynnig gwell atebion ac amlinellaf isod y meysydd ym mhob cynnig sy'n methu â bodloni'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5, Atodlen 2 y Ddeddf.

Gwrthgynnig y Blaid Geidwadol

Mae hwn yn awgrymu (heb unrhyw resymeg gymhellol amlwg) symud ward Riverside, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf, o etholaeth Gorllewin Caerdydd a'i hychwanegu at etholaeth Canol Caerdydd.

Mae'n anodd canfod unrhyw resymeg yn y cynigion hyn o'u cymharu â chynnig gwreiddiol y Comisiwn, sy'n bodloni meini prawf rheol 5 o ran etholaethau presennol ac ystyriaethau daearyddol trwy gadw sedd bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd wedi'i lleoli i'r gorllewin i Afon Taf.

Mewn gwirionedd, mae ward Riverside yn wahanol iawn o ran cymeriad i ganol y ddinas (ward Cathays), y mae'r cyfan ohoni i'r dwyrain i Afon Taf. Ceir eiddo masnachol (siopau, bwytai, bariau, swyddfeydd, y stadiwm, y castell, yr orsaf drenau ac ati) a rhai fflatiau yng nghanol y ddinas yn bennaf.

Eiddo preswyl sydd yn ward Riverside yn bennaf ac er gwaethaf ei henw mae'n ymestyn ymhell i ffwrdd o gyffiniau uniongyrchol yr afon. De Riverside yw un o ardaloedd mwyaf amrywiol Cymru, â chysylltiadau agos iawn â Threganna gyfagos gydag ardal siopa'r ardal, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (sef y prif lwybr bysiau hefyd) yn ffurfio asgwrn cefn sy'n cysylltu'r 2 ward.

Mae'r rhan fwyaf o bobl leol yn mynd i siopa ar hyd Heol y Bont-faen yn hytrach na chanol y ddinas. A dweud y gwir, mae rhannau mawr o'r ardal y byddai'r rhan fwyaf o drigolion lleol yn eu hystyried fel Treganna yn ward Riverside, gan ei fod yn terfynu yn Heol Lecwydd a Heol Llandaf. Lle mae wardiau Treganna a Riverside yn cyfarfod ger y groesffordd hanesyddol ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yw'r man y mae trigolion lleol yn ei ystyried fel calon cymuned Treganna.

Mae ardal Pontcanna yn ychwanegu at amrywiaeth unigryw ward Riverside trwy fod yn gartref i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, fel y mae Treganna gyfagos yn gynyddol. I raddau helaeth iawn, mae plant o ward Riverside yn mynychu ysgolion yng ngorllewin y ddinas. Ar lefel uwchradd maent yn bennaf yn mynychu ysgol uwchradd hynod amrywiol Fitzalan (Ward Treganna), ysgol cyfrwng Cymraeg Plasmawr (Tyllgoed), ac Ysgol Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf (Llandaf).

Yn ymarferol, prin iawn yw'r cysylltiadau cymunedol ar draws yr afon, gan fod ardaloedd preswyl Riverside ac ardaloedd preswyl Canol Caerdydd wedi'u gwahanu, nid yn unig gan bresenoldeb daearyddol hynod arwyddocaol Afon Taf, ond gan ganol masnachol y ddinas, y ganolfan ddinesig, ac ardaloedd mawr o dir parc.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud wardiau Tredelerch a Llanrhymni i ddwy wahanol etholaeth. Mae hyn eto yn anwybyddu cysylltiadau lleol sylweddol rhwng y wardiau. Mae'r dalgylchoedd ysgol ar gyfer Llanrhymni a Thredelerch yn rhyng-gysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Eastern.

Mae'r cynnig hwn yn symud Llanrhymni i etholaeth Gogledd Caerdydd ddiwygiedig. Nid oes unrhyw gysylltiadau arbennig o gryf rhwng Llanrhymni a Phontprenau a Phentref

Llaneirwg. Yn wir, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn arbennig o gyfyngedig rhwng Llanrhymni a Gogledd Caerdydd. Yn ymarferol, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol arbennig o gryf o gwbl rhwng y ddwy ward hyn, ac mae'r cynnig i symud wardiau Llanrhymni a Thredelerch i wahanol etholaethau yn gwbl groes i Reol 5 a pharchu cysylltiadau lleol.

Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn golygu symud cyfanswm o dair ward etholaethol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol; o'u cymharu â'r ddwy ward sy'n cael eu heffeithio gan Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol

Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu symud nifer sylweddol uwch o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Mae'r gwrthgynnig hwn, sy'n dychwelyd Tredelerch a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd Bychan at Ganol Caerdydd eto yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli.

Mae gan ward Gabalfa gysylltiadau agos iawn â ward Ystum Taf. Yn wir, mae Ystâd Gabalfa, un o ystadau tai hynaf Cymru, yn pontio'r ddwy ward hyn. Mae cylchfan Gabalfa yn dod â chymunedau'r Eglwys Newydd a Gabalfa ynghyd. Mae trigolion yng Ngabalfa ac yn Ystum Taf yn edrych tuag ardal siopa Heol Merthyr yn yr Eglwys Newydd.

Mae ward y Mynydd Bychan yn ffinio ward Llanisien. Ceir cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned, nid yn unig trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ond trwy ddalgylchoedd ysgolion, gwasanaethau ac amwynderau. O gofio lleoliad agos ysgolion fel Ton-Yr-Ywen yn y Mynydd Bychan, mae llawer o blant sy'n byw yn gyfagos yn Llanisien yn mynychu. Mae gan y ddwy ward gysylltiadau trafnidiaeth da, a cheir rheilffordd sy'n rhedeg drwyddynt. Mae'r ddwy ward yn rhannu mynediad at amwynderau fel Canolfan Hamdden Llanisien, Parc Lifestyle Caerdydd, Clybiau Chwaraeon, Canolfannau Cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy.

Crynodeb

Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn nodi nifer o ffactorau y gall y Comisiwn eu cymryd i ystyriaeth.

Ffiniau etholaethau presennol

Mae'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn symud dwy ward o etholaethau presennol.

Mae'r gwrthgynigion gan y Ceidwadwyr yn symud tair.

Mae'r gwrthgynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn symud pum ward yng Nghaerdydd i wahanol etholaeth.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth.

Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
Fel yr amlinellir uchod, mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan wrthgynnig y Ceidwadwyr yn sylweddol o ran effaith eu cynigion ar Riverside, Ystum Taf a Llanrhymni.

Mae'r 'cysylltiadau lleol' sy'n cael eu heffeithio gan gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol o ran Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llanrhymni, Radur a Phen-tyrch.

Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn well ateb na chynigion cychwynnol y Comisiwn. A dweud y gwir, mae'r ddau yn ateb gwaeth ac mae ateb y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddol waeth am y rhesymau a nodir uchod.

Casgliad

Rwy'n derbyn bod rhai pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng Trowbridge a'r Sblot yn y gyfres gychwynnol o gynigion. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y gwahanol wrthgynigion i gyd fethiannau mwy o ran cydymffurfio â'r ffactorau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rheol 5, Atodlen 2.

Rwy'n datgan felly y dylai'r Comisiwn wrthod y gwrthgynigion.

Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholaethol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf ond y rhain yw'r cynigion sydd hefyd yn tarfu leiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol ac ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf.

BCW-10222/ [REDACTED] / Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 17:22

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Sylw am y cynnig i symud ward Glanyrafon o Etholaeth Gorllewin Caerdydd

Rhesymau i wrthwynebu symud Ward Glanyrafon o Etholaeth Gorllewin Caerdydd

Dinas yw Caerdydd sydd wedi ei rhannu'n ddwy, yr ochr ddwyreiniol a'r ochr orllewinol. Fe'n rhennir gan ddaearyddiaeth – mae'r Afon Taf a Pharc Bute yn gwneud teithio rhwng dwyrain a gorllewin yn anodd. Mae'r system cludiant cyhoeddus yn adlewyrchu'r rhagfur hwn. Mae bysus yr ochr orllewinol yn teithio i'r canol ac nid ymhellach. Mae'r un peth yn wir am fysus yr ochr orllewinol. Nid yw'r nifer fechan o fysus traws-ddinas (1,2 a C3) yn hysbys iawn ac nid oed llawer yn eu defnyddio.

Mae dinasyddion Ward Glanyrafon yn siopa'n lleol (Heol y Bontfaen, Rhodfa'r Gorllewin, Croes Cwrlwys, Lecwydd), gan deithio o bryd i'w gilydd i'r dref. Mae'r un peth yn wir am yr ochr orllewinol. Ni fyddwn fyth yn siopa ac yn anaml yn ymweld â chanolfannau yn y dwyrain. I Chapter y byddwn yn mynd am ffilmiau a chelf a dosbarthiadau. At y Rhath y mae'r dwyrain yn edrych. Bydd y newid i Ganol Caerdydd felly yn lladd diddordeb trigolion Pontcanna mewn diddordeb lleol - ychydig fydd yn dod i ddigwyddiadau cymdeithasol a gwleidyddol. Byddwn yn mynd i gyfarfodydd yn Transport House, ond nid ydym yn croesi ffiniau'r ddinas i wneud hynny.

Yn hanesyddol, bu Ward Glanyrafon, gan gynnwys Pontcanna, yn rhan o Dreganna ac yn troi tuag at eglwys Sant Ioan [\[1\]](#). Mewn gwirionedd, yn y ddeunawfed ganrif, ystyriwyd Treganna yn esgobaeth ac yn bentref yn ei hawl ei hun.

Mae Glanyrafon felly eisiau cynnal ei chysylltiad hanesyddol â Gorllewin Caerdydd. Mae Ward Glanyrafon yn rhan o gryfder Gorllewin Caerdydd. Mae ganddi dri Chynghorydd Llafur ac y mae mewn etholaeth gydag AS Llafur ac Aelod Senedd Llafur, y Prif Weinidog Mark Drakeford. Bydd trigolion lleol yn edrych ar y cynnig i'w symud i Ganol Caerdydd fel ymgais i ystumio ffiniau Gorllewin Caerdydd. Fe'i gwelir fel ymgais uniongyrchol i wanhau'r Prif Weinidog. Pa mor wir bynnag yw hynny - prin y dymunai'r Comisiwn Ffiniau greu'r argraff hon.

[REDACTED]

BCW-10223/ Dr James Davies AS/ Dyffryn Clwyd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 18:07

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]

Pwnc: Cyflwyniad CFfG

Annwyl Syr/Madam,

Atodaf lythyr gan Dr James Davies AS.

Dymuniadau gorau,

[REDACTED]



[REDACTED]



Dr James Davies AS
Aelod Seneddol dros Dyffryn Clwyd



Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Trwy e-bost at: bcw@boundaries.wales

30 Mawrth 2022

Annwyl Syr/Madam,

Cefnogaeth o blaid cais i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr dyddiedig 2 Tachwedd 2021 a'm cyflwyniad i'r Comisiwn yn y Gwrandawriad Cyhoeddus yn Wrecsam ddydd Mercher 23 Chwefror. Cyn cau'r ail gyfnod ymgynghori, credaf y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at rai pwyntiau allweddol sy'n deillio o'r ymatebion i'r cyfnod ymgynghori cychwynnol, a godais yn y gwrandawriad.

Rwy'n meddwl ei bod yn amlwg bod cefnogaeth sylweddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y gwrthgynigion y mae'r Blaid Geidwadol, a minnau a rhanddeiliaid eraill wedi'u nodi ar gyfer fy rhan i o Ogledd Cymru. Yn ogystal, mae Plaid Cymru a'r Blaid Werdd wedi cytuno, i'r graddau eu bod wedi awgrymu y byddai'n amhriodol uno ardaloedd arfordirol ac ardaloedd diwydiannol fel Prestatyn a'r Fflint.

Mae gwrthwynebiad sylweddol yn ardal Rhuthun, gan gynnwys gan Gyngor Tref Rhuthun, ynghylch cynlluniau i gynnwys y dref farchnad hanesyddol hon o fewn sedd arfaethedig "Delyn". Mae'r Blaid Lafur hefyd wedi mynegi barn fod Rhuthun yn cydweddu'n wael â'r "Delyn" newydd. Mae'r sylwadau hyn yn cyd-fynd â gwrthgynigion y Ceidwadwyr a fyddai'n gweld – o fewn unrhyw sedd newydd o'r fath – Rhuthun yn ymuno â mwy o'i chefnwlad (h.y. ardaloedd sy'n gweddu'n well â'r dref), a hepgor ardaloedd Aber Afon Dyfrdwy. Mae'n werth nodi hefyd fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi awgrymu ychwanegu rhai ardaloedd yn ne Sir Ddinbych at sedd arfaethedig "Delyn".

Mewn mannau eraill, bu awgrymiadau o gael sedd ar gyfer Sir Ddinbych.





Dr James Davies AS

Aelod Seneddol dros Dyffryn Clwyd

[REDACTED]

[REDACTED]

Yn olaf, mae nifer o leisiau eraill wedi mynegi eu hanghytundeb ag enw'r etholaeth arfaethedig, "Delyn", a nodais safbwyntiau tebyg yn fy llythyr dyddiedig 2 Tachwedd.

Diolch yn fawr i chi am ystyried yr uchod.

Cofion cynnes.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]

MA MB BChir (Cantab)

Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd

[REDACTED]

BCW-10224/ Cyng Jane Pratt/ Sir Fynwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 20:14

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymgynghoriad ar Ffiniau

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwyf yn Gyngorydd dros ward Llanelly Hill yn Sir Fynwy ac yn aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth.

Yr oeddwn yn falch iawn fod y Comisiwn Ffiniau wedi cynnig y dylai Sir Fynwy fod yn etholaeth gyffiniol, gyda'r un ffiniau â'r awdurdod lleol.

Byddai hyn yn hwylus iawn ac yn esiampl o lywodraethiant da; mae hefyd yn well na'r sefyllfa bresennol lle rhennir Sir Fynwy rhwng dwy etholaeth ac etholaeth Mynwy yn cynnwys rhannau o ddau awdurdod lleol.

Rwy'n deall y gwnaed rhai cynigion fyddai'n rhannu awdurdod Sir Fynwy rhwng dwy neu dair o etholaethau, ac y byddai etholaeth Mynwy yn cynnwys rhannau o ddau neu dri o awdurdodau lleol. Gofynnaf i chi wrthod y dewisiadau hyn yn gyfan gwbl a chadw at eich cynigion gwreiddiol i gadw etholaeth Sir Fynwy yn gyffiniol â'r awdurdod lleol.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane

Cyngorydd Sir Jane Pratt
Aelod Cabinet dros seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth
Aelod Ward dros Llanelly Hill
Cyngor Sir Fynwy

BCW-10225/ Cyng Will Thomas/ Abertawe

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 21:08

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Gŵyr a Gorllewin Abertawe

Helo,

Carwn fynegi fy nghefnogaeth i gynigion y Comisiwn Ffiniau am Etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Rwyf yn Gyngorydd Sir dros Newton a hefyd yn cynrychioli ward Newton ar Gyngor Cymuned Mwmbwls. Mae Mayals yn bendant yn rhan o ardal y Mwmbwls ac yn amlwg, dyna pam ei bod yn rhan o ardal y cyngor cymuned. Yr ydym wedi teimlo ers amser ei bod yn od ei bod dros y ffin mewn etholaeth arall, ond yn falch y bydd, gobeithio, yn cael ei huno yn y dyfodol ac yn dwyn y gymuned at ei gilydd.

Awgrymwn hefyd y dylid galw'r etholaeth yn 'Gŵyr a Gorllewin Abertawe' gan mai dyna yw'r ardal arfaethedig ac y bydd yn hawdd i bobl deimlo cysylltiad â hi, gan na fydd llawer o bobl yn edrych ar y map newydd.

Cofion caredig

Cyng Will Thomas

BCW-10226/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 21:17

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynnig ffiniau ar gyfer Gogledd Caerdydd

30 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn,

Rwyf yn ysgrifennu fel preswylwr lleol a phleidleisiwr tro cyntaf yng Ngogledd Llandaf. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a byddaf yn cyfeirio yn gryno at y tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd - Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn rhoi sylw i'r gwrthgynigion a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gysylltiedig â Gogledd Caerdydd.

Rwy'n croesawu'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n golygu bod yr etholaeth yn aros fwy neu lai yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, yn eu cyfanrwydd, yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fyddai'n newid etholaeth. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymni at Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol Afon Taf ac o gofio'r cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos fel ychwanegiad naturiol at yr etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tuag at yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf o Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth prin a dim synnwyr o gysylltiad â'i gilydd. Prin sydd gan y ddwy gymuned ar y naill ochr i'r afon a'r llall yn gyffredin ac eithrio'r enw Saesneg ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol ac nid yw'n cydnabod y cysylltiadau lleol presennol chwaith. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn haneru un o'r ystadau tai hynaf yng

Nghymru. Mae Mynachdy yn rhannol yng Ngabalfa. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd wedi'u cysylltu a cheir mynediad atynt trwy gylchfan Gabalfa.

Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol chwaith rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig dilynol rhwng Trowbridge a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n golygu bod Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau nesaf at ei gilydd, mae gan y Mynydd Bychan gysylltiadau agos â Llanisien o ran trafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Lifestyle Caerdydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I grynhoi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a'r rhain sy'n tarfu leiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynigion.

Diolch am roi eich ystyriaeth i hyn.

Yr eiddoch yn gywir,



BCW-10227/ [REDACTED] / Caerdydd

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 21:27

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynnig newid ffiniau ar gyfer Gogledd Caerdydd

30 Mawrth 2022

Annwyl Gomisiwn,

Rwyf yn ysgrifennu fel preswylwr lleol yng Ngogledd Llandaf. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â Chynigion Cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd a byddaf yn cyfeirio yn gryno at y tair sedd gyfagos arall yng Nghaerdydd - Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn rhoi sylw i'r gwrthgynigion a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gysylltiedig â Gogledd Caerdydd.

Rwy'n croesawu'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd a fyddai'n golygu bod yr etholaeth yn aros fwy neu lai yn gyfan, gan ychwanegu Ffynnon Taf. Rwyf hefyd yn croesawu'r Cynigion Cychwynnol a wnaed ar gyfer Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a fyddai, yn eu cyfanrwydd, yn golygu mai dim ond dwy ward yng Nghaerdydd fyddai'n newid etholaeth. Gan werthfawrogi bod Canol Caerdydd yn rhy fach a bod De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr, mae'r cynnig i ychwanegu wardiau Tredelerch a Llanrhymni at Ganol Caerdydd yn synhwyrol ac i'w groesawu.

Mae'r cynnig i gadw Gogledd Caerdydd yn gyfan gan ychwanegu Ffynnon Taf yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol Afon Taf ac o gofio'r cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Ffynnon Taf a gogledd Caerdydd, byddai Ffynnon Taf yn ymddangos fel ychwanegiad naturiol at yr etholaeth.

Nid yw'r gwrthgynnig a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn cydnabod nac yn parchu'r cysylltiadau cymunedol presennol a hirsefydlog yng Ngogledd Caerdydd. Mae Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn teimlo yn gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r ddwy ward yn rhannu amwynderau, ysgolion, mannau gwyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Ystum Taf yn edrych tuag at yr Eglwys Newydd fel ei phrif ardal siopa.

Mae ffin naturiol Afon Taf yn gwahanu Ystum Taf o Landaf yng Ngorllewin Caerdydd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth prin a dim synnwyr o gysylltiad â'i gilydd. Prin sydd gan y ddwy gymuned ar y naill ochr i'r afon a'r llall yn gyffredin ac eithrio'r enw Saesneg ac felly nid yw'r cynnig i symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd yn synhwyrol ac nid yw'n cydnabod y cysylltiadau lleol presennol chwaith. Byddai symud Ystum Taf i Orllewin Caerdydd hefyd yn haneru un o'r ystadau tai hynaf yng

Nghymru. Mae Mynachdy yn rhannol yng Ngabalfa. Mae Gabalfa, Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i gyd wedi'u cysylltu a cheir mynediad atynt trwy gylchfan Gabalfa.

Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol chwaith rhwng Gogledd Caerdydd a Trowbridge. Mae'r gwrthgynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol sylweddol rhwng wardiau Ystum Taf, Gabalfa a'r Eglwys Newydd a'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig dilynol rhwng Trowbridge a gogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol y mae'n rhaid eu cydnabod o dan Reol 5 Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae'r gwrthgynnig a fyddai'n golygu bod Gabalfa a'r Mynydd Bychan yn symud i Ganol Caerdydd hefyd yn methu â chymryd i ystyriaeth y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Fel wardiau nesaf at ei gilydd, mae gan y Mynydd Bychan gysylltiadau agos â Llanisien o ran trafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, canolfannau hamdden, Parc Lifestyle Caerdydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol, mannau gwyrdd a llawer mwy, ond byddai Llanisien yn aros yng Ngogledd Caerdydd, gan greu gwahaniad afresymegol ac annaturiol.

I grynhoi, rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac yn gwrthod y gwrthgynigion fel y nodir uchod. Mae cynigion y Comisiwn Ffiniau yn parchu cysylltiadau lleol a'r rhain sy'n tarfu leiaf, gan gynnig symud dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn hytrach na thair neu bump fel y nodir yn y gwrthgynigion.

Diolch am roi eich ystyriaeth i hyn.

Yr eiddoch yn gywir

[REDACTED]

Preswyliwr lleol yng Ngogledd Llandaf

[REDACTED]

BCW-10228/ Beth Winter AS/ Cwm Cynon

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 21:48

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau

Helô,

Atodaf adborth yn ymwneud â chynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Cwm Cynon.

Cofion Cynnes,

Beth Winter

Ymateb i Gynigion y Comisiwn Ffiniau

Mae'r pwyntiau isod yn bwyntiau y mae etholwyr lleol wedi'u codi â mi:

1. Cymru'n gyffredinol

- Mae gostyngiad yn nifer yr ASau yng Nghymru'n lleihau llais a dylanwad democrataidd Cymru yn Senedd y DU.
- Mae'r ffiniau newydd yn seiliedig ar faint y boblogaeth ac nid ar angen.

2. Penodol i Gwm Cynon

- Yn ddaearyddol, mae Cwm Cynon yn uned â mynyddoedd ar y naill ochr a'r llall. Bydd rhannu'r cwm rhwng Pontypridd a Merthyr Tudful yn tanseilio'r cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n rhedeg drwy'r cwm.
- Hefyd, ceir cysylltiadau trafnidiaeth sy'n rhedeg yn glir ar hyd y cwm, sef rheilffordd a ffyrdd o'r gogledd i'r de. Nid oes gan gysylltiadau trafnidiaeth â Merthyr Tudful y patrwm hwn o hygyrchedd.
- Bydd y cynnig yn arwain at osod hanner yr etholaeth y tu allan i'w Hawdurdod Lleol, sef Rhondda Cynon Taf, gan ychwanegu at gymhlethdod y perthnasoedd rhwng cynghorwyr, yr Aelod o'r Senedd a'r Aelod Seneddol.
- Bydd y cynnig yn creu anawsterau i etholwyr yng Nghwm Cynon o ran cael mynediad at eu Haelod Seneddol. Mae gan Gwm Cynon gyfradd uwch na'r cyfartaledd o bobl oedrannus a phobl anabl, a lefelau uchel o amddifadedd.
- Un cynnig amgen gan aelodau yw bod rhan o etholaeth Pontypridd yn cael ei huno â Chwm Cynon. Byddai hyn yn cadw patrwm daearyddol y cymoedd ac yn cadw'r cysylltiad â ffiniau presennol yr Awdurdod Lleol.
- Ar lefel ficro, mae pryderon pendant ynghylch ble mae'r llinell yn cael ei thynnu o fewn Cwm Cynon, os oes rhaid tynnu'r llinell o fewn Cwm Cynon. Mae'r pryder penodol yn ymwneud â ward Aberaman, a fydd yn cael ei rhannu yn ôl y cynigion presennol. Nid oes angen rhannu'r ward hon a bydd yn creu problemau sylweddol i bobl leol a'r tri chynghorydd lleol sy'n cynrychioli'r ward. Felly, byddwn yn annog y Comisiwn i ddiwygio hyn ar fyrder fel bod ward Aberaman yn parhau'n gyfan.

BCW-10229/ [REDACTED] **Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Caerdydd / Caerdydd**

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 22:05

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: PAR: Ymateb Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Caerdydd i'r Ail Gyfnod Ymgynghori

Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Mae Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Caerdydd, sy'n cynrychioli aelodau Llafur yn Etholaeth Gorllewin Caerdydd wedi nodi'r cynigion gan y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Geidwadol parthed Etholaeth Gorllewin Caerdydd. Yr ydym yn gwrthwynebu eu cynnwys a'u rhesymeg am y rhesymau isod

O ran cynigion y Blaid Geidwadol, nodwn o ran Gorllewin Caerdydd eu bod am ychwanegu ward Gogledd Llandaf a thynnu ymaith ward Glanyrafon o'r Etholaeth.

Gwrthwynebw'n yn gryf eu cynnig i ychwanegu Gogledd Llandaf i'r Etholaeth - mae'r afon yn ffin ddaearyddol a hanesyddol glir ac nid oes cysylltiadau cryf rhwng dwy ward Gogledd Llandaf a Llandaf ar wahân i'r enw. Mae dweud hynny, fel y gwna'r Ceidwadwyr yn eu cyflwyniad, yn dangos anwybodaeth am yr ardal.

Yn yr un modd, gwrthwynebw'n y cynnig yn y cyflwyniad hwnnw i symud Glanyrafon o Orllewin Caerdydd. Mae gan gymuned Glanyrafon gydlynid daearyddol a chymunedol clir gyda ward Treganna a ward Llandaf. Bydd ei symud yn rhannu'r gymuned leol a thrwy hynny, beri difrod anadferadwy i gysylltiadau cymunedol ac adnabyddiaeth o'u cynrychiolwyr etholedig.

Yn gyffredinol, ymddengys bod cynigion y Blaid Geidwadol yn seiliedig ar yr hyn allai fod yn fanteisiol iddynt hwy yn etholiadol yn hytrach nag unrhyw rai o nodau'r Comisiwn Ffiniau.

Mae cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol i ychwanegu wardiau Llanhari a Llanharan a symud wardiau Radur a Phentyrch yr un mor afresymol.

Er ein bod yn derbyn y gall y Comisiwn ond ystyried niferoedd poblogaeth cyfredol, mae'n debyg, wedi i stad newydd Plasdwr gael ei gorffen, y bydd gan Orllewin Caerdydd boblogaeth uwch na'r targed am gynrychiolaeth a osodwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Ni fyddai'r cynnig o ychwanegu mwy o gymunedau, ymhellach na'r bwriad i ychwanegu Pont-y-clun, yn gwneud synnwyr ac, ynghyd a chadw Radur a Phentyrch, byddai'n uwch na'r targed am gynrychiolaeth. Mae gan Radur a Phentyrch gysylltiadau hanesyddol a chymunedol dwfn â Gorllewin Caerdydd ac y mae'r Afon Taf yn ffin ddaearyddol bendant, ac yr ydym yn gryf o blaid eu cadw.

Cofion,

[REDACTED]

Ysgrifennydd PLE Gorllewin Caerdydd

BCW-10230/ [REDACTED] Cymdeithas Ceidwadwyr Dwyrain Caerfyrddin / Llanwrda

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 22:17

At: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Sylw ar Adolygiad 2023 gan Geidwadwyr Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Hoffwn ymateb yn ffurfiol i gynigion 2023 y Comisiwn a rhai o'r gwrthgynigion sydd wedi'u gwneud ar ran Cymdeithas Ceidwadwyr Dwyrain Caerfyrddin.

Cefnogaeth i gynigion 2023 fel ag y maen nhw, gyda rhai mân newidiadau

Rydyn ni'n cefnogi cynigion 2023 yn gryf gan eu bod yn cynrychioli cysylltiadau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin yn gywir iawn ac yn gwneud gwaith rhagorol o baru gofynion rhifiadol y comisiwn â'r ffeithiau ar lawr gwlad o ran daearyddiaeth leol, ffiniau sirol traddodiadol a chysylltiadau cymunedol. Mae'r ymateb aruthrol i'r cynigion cychwynnol ar gyfer seddi Caerfyrddin a Llanelli wedi bod yn gadarnhaol fel y gellir gweld o'r sylwadau gan y cyhoedd a chynghorau lleol yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys y Cyngor Sir a sawl Cyngor Cymuned.

Mae ganddon ni rai awgrymiadau ar gyfer mân newidiadau a fyddai'n arwain at welliant. Rydyn ni'n cefnogi argymhelliaid Plaid Cymru/Cyngor Annibynnol Sir Gaerfyrddin a Chyngor Cymuned Llangynnwr y dylid symud Ward Llangynnwr i Gaerfyrddin gan ei bod yn ffurfio rhan ddeheuol Tref Caerfyrddin. Mae'r ward hon yn gymharol fach o ran poblogaeth, sef 2,194, felly nid yw'n effeithio'n fawr ar y ffigurau. Mae ei phoblogaeth yn credu'n gryf eu bod yn byw yn nhref Caerfyrddin ac mae'r ward yn cynnwys Ysgol Gymraeg Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin, gorsaf reilffordd Caerfyrddin, ei swyddfa bost a'i gorsaf heddlu.

Mae cynnig diddorol hefyd gan Gyngor Tref Llanelli, a reolir yn Annibynnol, sef gwneud cyfnewid pellach rhwng wardiau Saron a Phenygroes gyda Ward Llangyndeyrn gan fod gan Langyndeyrn gysylltiadau agosach â Chaerfyrddin na wardiau Llanelli, Saron a Phenygroes ac mae'r rheini'n debycach o ran cymeriad ac o ran datblygiad i Lanelli. Credwn fod rhinwedd i'r cynnig hwn hefyd, yn enwedig gan ei fod yn gyfnewidiad cymharol syml o ardaloedd tebyg o ran niferoedd – yn enwedig gan y bydd yn adlewyrchu'r cysylltiadau cymunedol yn well.

Cynigion a fyddai'n niweidio cysylltiadau cymunedol

Fodd bynnag, mae rhai awgrymiadau nad ydynt yn ddefnyddiol ac a fyddai'n torri cysylltiadau hanesyddol, daearyddol a chymunedol.

Mae'r cynnig gan Gyngor Ceredigion i groesi'r Teifi – un o'r ffiniau naturiol mwyaf arwyddocaol yn y gorllewin – gyda sedd draws-fwrdeistrefol yn arbennig o niweidiol i gysylltiadau cymunedol.

Er y gallai edrych yn dderbyniol ar daenlen, mae'r holl bleidiau gwleidyddol yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ac mae'n sathru ar gysylltiadau cymunedol hanesyddol a'r ffiniau sirol hanesyddol. Mae gwahaniaethau hirsefydlog rhwng cymunedau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel y dangoswyd yn glir gan yr elyniaeth tuag at Sir

Dyfed a'r newid yn ôl i siroedd hanesyddol yn y gorllewin. Mae gan Geredigion a Sir Gaerfyrddin hunaniaethau gwahanol a threftadaeth falch, i'r fath raddau fel ei fod yn ymylu ar ymdeimlad o gystadleuaeth rhwng cymunedau bob ochr i'r afon Teifi. Dydyn nhw erioed wedi cael eu cysylltu fel hyn yn hanesyddol, yn wahanol i Gaerfyrddin a Sir Benfro neu Geredigion a Sir Benfro dros y blynyddoedd. Byddai'r cynnig hwn yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y cynsail hanesyddol a byddai'n achosi effeithiau rhyfedd iawn.

Er enghraifft, byddai'n hollti Cynwyl Gaeo allan o ward newydd Cilycwm yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ward hon wedi'i sefydlu oherwydd y cysylltiadau cymunedol agos sy'n bodoli yn y rhan wledig hon o ogledd Sir Gaerfyrddin. Nid yn unig y byddai cynnig Cyngor Ceredigion yn hollti ward ond byddai'n golygu bod gan bobl yn y gymuned wledig hon ddau Aelod Seneddol gwahanol. Yn ogystal, byddai mwyngloddiau aur hanesyddol Dolaucothi, sef un o brif atyniadau twristiaeth Sir Gaerfyrddin, yn yr etholaeth hon yng Ngheredigion ac nid yn sedd Caerfyrddin sy'n cynnwys Amgueddfa'r Sir sy'n gartref i rai o'i arteffactau.

Prin yw'r cysylltiadau cymunedol sydd gan drigolion yn y wardiau hyn â Cheredigion oherwydd trywydd yr afon a'r rhwydwaith ffyrdd yn yr ardal. Yn gyntaf, dylid ystyried siopa a manwerthu. Mae ffyrdd gogledd Sir Gaerfyrddin yn gwyro i lawr tuag at Dref Caerfyrddin. Mae cysylltiadau cymunedol trigolion Cenarth, Llangeler, Llanybydder, Cynwyl Gaeo a Llanfihangel-ar-Arth yn bennaf â'r trefi cyfagos i'r de yn Sir Gaerfyrddin ac, yn y rhan fwyaf o achosion, tref Caerfyrddin ei hun. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod cyfleusterau siopa yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin ac mewn trefi ar y ffin, fel Llandysul, wedi dirywio'n sylweddol dros y degawdau diwethaf, tra bod Caerfyrddin wedi dod yn gyrchfan siopa manwerthu fawr gyda llawer o siopau a chyfleusterau eraill sy'n cael eu defnyddio gan y cymunedau hyn.

Yn ail, enghraifft arall o'r cysylltiadau cymunedol hyn yw'r system gofal iechyd yn Sir Gaerfyrddin. Yr ysbyty cyffredinol allweddol ar gyfer poblogaeth y wardiau hyn yw Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin. Y rheswm dros hyn yw daearyddiaeth dyffryn Teifi. Nid yw trigolion y wardiau hyn yn cael mynediad i ofal iechyd yn Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth oherwydd bod afon Teifi yn rhwystr daearyddol. Mae eu hysbyty nhw, o ran eu hadran damweiniau ac achosion brys, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'u gwasanaethau iechyd, yng Nghaerfyrddin oherwydd mai dyma sut mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i osod. O ganlyniad i hynny, ar sail gofal iechyd hefyd, cynnwys y wardiau hyn yn sedd newydd Caerfyrddin fyddai'n gwneud y mwyaf o synnwyr ac yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol ag Ysbyty Cyffredinol Glangwili.

Nid yw'n syndod felly bod y cynigion gwreiddiol fel y'u cyhoeddwyd gan y Comisiwn ar gyfer sedd newydd Caerfyrddin yn adlewyrchiad mwy cywir o'r cysylltiadau gwirioneddol sydd rhwng y wardiau hyn â'u wardiau cyfagos yn Sir Gaerfyrddin gan eu bod yn ystyried daearyddiaeth leol gan gynnwys y prif rwydwaith o ran afonydd a ffyrdd. Dyna pam mae cymaint o gefnogaeth leol i gynigion cychwynnol y Comisiwn, fel y gwelir yn ymateb y gymuned.

Mae cynnig Cyngor Ceredigion yn honni ei fod yn cywiro'r broblem y byddai etholaeth newydd Ceredigion yn rhy hir. Fodd bynnag, mae ffordd arfordir yr A487 – un o'r darnau gorau o seilwaith trafndiaeth yn y gorllewin – yn darparu cysylltiad trafndiaeth rhagorol o un pen i sedd Preseli Ceredigion y Comisiwn i'r llall. Cysylltiad

trafnidiaeth llawer gwell nag unrhyw gysylltiad sy'n bodoli rhwng Ceredigion a wardiau gogledd Sir Gaerfyrddin, sy'n ddim byd mwy na ffyrdd B mewn llawer o achosion. Ar ben hynny, mae cynsail hanesyddol i Geredigion gael ei huno â Phreseli Sir Benfro, ac ar ben hynny, cynsail i etholwyr yn y sedd hon i gael eu gwasanaethu drwy gael nifer o swyddfeydd Aelodau Seneddol.

O ganlyniad, byddai'r cynnig ar gyfer Ceredigion yn gwneud llawer mwy o ddrwg nag o les i gysylltiadau cymunedol ac yn creu cymysgedd mwy cymhleth fyth o ran cynrychiolaeth llywodraeth leol, Senedd Cymru a Senedd San Steffan.

Cynigion nad ydynt yn gwneud dim synnwyr yn ddaearyddol

Yn olaf, hoffwn droi at y cynigion hynod ddadleuol gan Blaid Cymru i osod wardiau gorllewin Sir Gaerfyrddin, Sanclêr, Trefgordd Talacharn a Llansteffan yn adran Llanelli. Nid yw'r newidiadau hyn yn gwneud dim synnwyr yn ddaearyddol gan fod rhai o'r wardiau hyn wedi'u gwahanu gan un o'r aberoedd mwyaf ym Mhrydain. Ar ben hynny, maent yn cael eu gwrthwynebu'n gryf yn lleol gan y byddai'n cyfuno cymunedau sydd mor wahanol. Does dim cysylltiadau cymunedol cyffredin rhwng Llanelli, sydd â'i sylfaen o ddiwydiant trwm, a threfi twristiaeth ac amaethyddol gorllewin Sir Gaerfyrddin. Ni allent fod yn fwy gwanol. Nid ydynt yn rhannu dim gwasanaethau cyffredin, mae preswylwyr yn cael mynediad at ofal iechyd mewn gwahanol lefydd ac mae'r gwasanaethau siopa a manwerthu, hyn yn oed, yn hollol wahanol.

Mae eu cynnwys mewn sedd sydd wedi'i dominyddu gan Lanelli yn hynod o broblemus ac mae'n ymddangos fod y cynnig yn seiliedig ar ddim rheswm heblaw am yr angen i wneud i'r niferoedd weithio.

Casgliad

Mae'r sefyllfaoedd rhyfedd a grëwyd gan rai o'r diwygiadau a awgrymwyd i gynigion 2023 yn dangos cadernid gwaith gwreiddiol y Comisiwn. Yn ein barn ni, ar ôl darllen drwy'r ymatebion cyhoeddus yn fanwl, y rhain sy'n cynrychioli'r atebion gorau i'r dasg sy'n wynebu'r Comisiwn, ond maent hefyd yn welliant sylweddol ar y ffiniau presennol sydd wedi bod yn eu lle ers nifer o flynyddoedd. Er y byddai newidiadau bach iawn i'r cynigion hyn, fel symud Llangynnwr, yn ennyn cefnogaeth boblogaidd gan gymunedau lleol o bob cefndir gwleidyddol, byddai newidiadau mawr yn niweidiol iawn i gysylltiadau cymunedol a hanesyddol.

Byddem felly'n cefnogi Argymhellion Cychwynnol y Comisiwn gan ychwanegu ward Llangynnwr at sedd newydd Caerfyrddin.

Cofion Cynnes,



Chairman / Cadeirydd

Carmarthen East & Dinefwr Conservatives / Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

BCW-10231/ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / Caerdydd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 30 Mawrth 2022 22:41

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cyflwyniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Ail rownd ymgynghori

Fe gewch yn atodedig gyflwyniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer yr ail rownd ymgynghori.

[REDACTED]

***Arolwg 2021 o'r
ffiniau ar gyfer
Etholaethau San
Steffan
Ymateb i'r ail
ymgyngoriad***

Welsh Liberal
Democrats

Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	3
Diwygiadau i'r Cynigion Gwreiddiol gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru	4
<i>Newidiadau i'r cynigion yn ardal Pen-y-bont ac Aberafan.....</i>	<i>5</i>
<i>Newidiadau i gynigion sy'n effeithio ar etholaethau Llanelli a Sir Gaerfyrddin</i>	<i>6</i>
<i>Newidiadau i'r cynigion sy'n effeithio ar ardal Ogwr a Rhondda a Phontypridd a Chynon Isaf a</i>	
<i>Chaerdydd.....</i>	<i>7</i>
<i>Newidiadau sy'n effeithio ar etholaethau Caerdydd</i>	<i>7</i>
<i>Newidiadau sy'n effeithio ar Ogwr a Rhondda a Phontypridd.....</i>	<i>8</i>
Ymateb i'r Gwrthgynigion	10
<i>Plaid Cymru a'r Blaid Werdd</i>	<i>10</i>
<i>Llafur.....</i>	<i>10</i>
<i>Y Ceidwadwyr.....</i>	<i>10</i>
<i>Aberhonddu a Maesyfed</i>	<i>11</i>
Pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf y mae cynigion Democratiaid Rhyddfrydol	
Cymru yn mynd i'r afael â nhw.15	
<i>Bro Morgannwg.....</i>	<i>15</i>
<i>Nid yw Llanhari'n rhan o'r Rhondda</i>	<i>15</i>
<i>Caerffili</i>	<i>15</i>
<i>Yr ymraniad rhwng Cynon Uchaf/Isaf.....</i>	<i>16</i>
<i>Cadw ffocws ar Ben-y-bont ar Ogwr.....</i>	<i>16</i>
<i>Cyfuno'r trefi yn ne Clwyd mewn sedd â ffocws gwledig.....</i>	<i>16</i>
<i>Cadw seddi Cyngor Wrecsam gyda'i gilydd yn y gogledd.....</i>	<i>17</i>
<i>Abertawe.....</i>	<i>17</i>
<i>Integreiddio Pentir â gweddill Bangor.....</i>	<i>17</i>
<i>Cadw'r cysylltiadau rhwng Uwchaled, Llansannan a Llangernyw</i>	<i>17</i>
Casgliadau	18

Cyflwyniad

Ar ôl cyhoeddi'r set o ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol a chyflwyniadau yn y gwrandawiadau amrywiol ledled Cymru, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi rhoi o'u hamser i adolygu ein cynigion yn sgil y cynrychiolaethau a gafwyd.

Er na fydd yn bosibl bodloni dymuniadau pob ymatebydd, rydym yn falch o weld bod llawer o'r materion a nodwyd gennym ac yr aethpwyd i'r afael â nhw yn ein hymateb i gynigion y Comisiwn yn bryderon sy'n cael eu rhannu gan lawer o bleidleiswyr yng Nghymru. Wrth gwrs, nid yw rhai ohonynt ac mae ein cynigion ni'n debygol o fod ag unigolion sydd â phroblem â'r hyn rydym yn ei awgrymu.

Fodd bynnag, nid yw ein hymateb yn derfynol ac, yn unol â hynny, mae rhan gyntaf yr ail ymateb hwn yn amlygu tair set o gynigion amgen i'n cynlluniau gwreiddiol ac yn amlygu lle y gallai'n cynigion fynd i'r afael â phryderon pobl eraill.

Nodwn hefyd y gwnaed nifer o awgrymiadau ynglŷn ag enwau. Er bod hynny'n bwysig, ar hyn o bryd, gan fod y ffiniau gwirioneddol yn debygol o fod yn wahanol i'r cynigion gwreiddiol, byddem yn disgwyl i hyn gael mwy o ystyriaeth yn y cyfnodau ymgynghori terfynol. Felly, nid ydym wedi edrych ar enwau y tu hwnt i ystyried beth ddylai'r man cychwyn ymgynghorol fod ar gyfer ein cynigion ein hunain.

Felly, mae'r ddogfen hon yn cynrychioli diwygiad i'r cyflwyniad gwreiddiol gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mewn nifer o ardaloedd i adlewyrchu sylwadau gan sefydliadau eraill ac aelodau'r cyhoedd.

Diwygiadau i'r Cynigion Gwreiddiol gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru

Er nad yw ein cynigion wedi newid rhyw lawer o'n cyflwyniadau gwreiddiol, rydym yn cynnig dau newid penodol i'n cynigion yn ardaloedd Caerfyrddin a Phen-y-bont ar Ogwr/Aberafan. Mae'r rhain yn ymateb yn uniongyrchol i gynrychiolaethau a wnaed gan bobl eraill ac maent yn newid ffurfiol i'n cyflwyniad.

Rydym hefyd wedi treulio amser ychwanegol yn edrych ar yr her yn ardal Caerdydd a'r ffordd orau i fynd i'r afael â'r broblem o ran Trowsbridge datgysylltiedig. Yn yr achos hwn, rydym wedi amlygu trefniant amgen y gellir ei gadw o fewn ffiniau pum etholaeth. Roeddem wedi ystyried y trefniant hwn gynt, ond wedi'i wrthod ar gyfer ein cynnig gwreiddiol gan fod cysylltedd un ward yn dibynnu ar fynediad i gerddwyr/beicwyr, yn hytrach na cherbydau modur.

Fodd bynnag, teimlwn ei fod yn briodol, os yn anarferol, ei gynnig i'r Comisiynwyr ei ystyried fel cynnig amgen i'n gwrthgynnig ehangach os ydynt yn fodlon â'r cysylltedd sydd wedi'i amlinellu.

Newidiadau i'r cynigion yn ardal Pen-y-bont ac Aberafan


Roedd y cynigion a amlinellwyd yn ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'r ymgynghoriad cyntaf yn canolbwyntio ar gadw cyfanrwydd daearyddol etholaethau hanesyddol fel ystyriaeth berthnasol sy'n sail i'n holl gynlluniau. Yn yr ardal hon, canolbwyntiom ar gadw etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel blaenoriaeth. Er mwyn cyflawni hyn a chadw cwota, roedd yn rhain gwahanu Maesteg oddi wrth wardiau cyfagos ymhellach i lawr Cwm Llynfi. Roeddem yn teimlo bod hwn yn ateb anfodddhaol ar y pryd ac, yn sgil yr arsylwadau a wnaed yn y gwrandawiadau yng Nghaerdydd a'r sylwadau a wnaed yn y cyflwyniadau cyntaf, rydym wedi'i adolygu.

Yn yr achos hwn, credwn fod yr ymdeimlad naturiol o hunaniaeth gymunedol yn gorbwyso'r awydd i gadw cysylltiadau hanesyddol. Nid yw'r newidiadau hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i nifer y cynghorau ym mhob etholaeth, felly nid ydynt yn cryfhau nac yn gwanhau'r mesur hwnnw ac maent o fewn y cwota o hyd, heb unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i unrhyw le arall yn ein gwrthgynnig.

Yn unol â hynny, rydym yn diwygio ein cynigion gwreiddiol yn yr ardal hon fel a ganlyn:

Cyfnewid wardiau Caerau, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg yn etholaeth arfaethedig Aberafan a Dwyrain Abertawe am wardiau Caerau ac Y Pil ym Mhen-y-bont.

Mae'r etholaethau newydd o fewn y cwota o hyd, fel a ganlyn: Aberafan a Dwyrain Abertawe (72,862) a Phen-y-bont (76,987).




Newidiadau i gynigion sy'n effeithio ar etholaethau Llanelli a Sir Gaerfyrddin

Y prif ffocws yn yr ardal hon fu rhoi Llangynnwr yn Llanelli yn hytrach nag yn Sir Gaerfyrddin. Yn ystod y cynigion cychwynnol, ni chanolbwyntiom ar yr ardal hon gan fod y ffiniau awgrymedig yn ymddangos yn hyfyw, yn arwynebol, heb unrhyw newidiadau.

Fodd bynnag, yn yr un modd ag y mae gan Bentir gysylltiad cryf â Bangor yn y gogledd, mae gan Llangynnwr gysylltiad cryf â thref Caerfyrddin. O ystyried y gellir symud y ward hon draw i Sir Gaerfyrddin heb i'r naill etholaeth neu'r llall fynd y tu allan i'r cwota, teimlwn ei fod yn briodol cymhwyso'r un egwyddorion yn fan hyn.

Yn wir, mae Cyngor Cymuned Llangynnwr, y Blaid Geidwadol leol a'r AS Llafur ar gyfer Llanelli o'r un farn, felly mae'n amlwg bod cefnogaeth leol gref a fynegwyd mewn mannau eraill, ac ni fyddwn yn ei hailadrodd yma.

Byddai hyn yn golygu y byddai gan etholaeth newydd Sir Gaerfyrddin 72683 o etholwyr a Llanelli 69895 o etholwyr.



Ffig. 2 Effaith y newidiadau arfaethedig ar ardal Llanelli a Sir Gaerfyrddin


Newidiadau i'r cynigion sy'n effeithio ar ardal Ogwr a Rhondda a Phontypridd a Chynon Isaf a Chaerdydd

Wrth ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â ward Trowbridge wedi'i gwahanu oddi wrth weddill etholaeth De Caerdydd, rydym wedi creu etholaeth sy'n ymestyn i'r gorllewin ac yn rhoi wardiau o Ogwr a Phontypridd mewn etholaeth Gorllewin Caerdydd. O edrych ymhellach ar y problemau yng Nghaerdydd, rydym wedi llunio ateb newydd sy'n lleihau'r angen i ymestyn sedd Gorllewin Caerdydd mor bell i'r gorllewin ag yr oeddem wedi cynnig yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r ateb hwn ynddo'i hyn yn dibynnu ar sut mae'r cysyniad o fod yn ddatgysylltiedig yn cael ei ddiffinio, felly rydym yn ei gynnig fel trefniant amgen i'n cynlluniau gwreiddiol yn yr ardal hon sy'n cael ei gadw o fewn ffiniau 5 o'r etholaethau yn ein cynigion gwreiddiol.

Newidiadau sy'n effeithio ar etholaethau Caerdydd

Y brif broblem â chynigion y Comisiwn oedd eu bod yn creu rhan ddatgysylltiedig, sef ward Trowbridge, mewn perthynas â gweddill De Caerdydd a Phenarth. Caiff hynny ei waethygu gan faint mawr y wardiau etholiadol yn ardal Cyngor Caerdydd, sydd â nifer fawr o wardiau aml-aelod â thros 5,000 o etholwyr.

Ar ôl gwrando ar sylwadau a wnaed yn y sesiwn gyntaf, rydym wedi edrych unwaith eto ar ein cynigion, ac rydym nawr yn cynnig y trefniant amgen canlynol i'w ystyried.



Ffig. 3 Effaith y newidiadau arfaethedig yn ardal Caerdydd

Terfynol

1 Symud ward Y Mynydd Bychan o Ganol Caerdydd i Ogledd Caerdydd. Mae hyn yn symud y ward yn ôl i'w hetholaeth flaenorol ac yn creu ffin galed â Chanol Caerdydd ar ffurf yr A44 i'r de a'r rheilffordd i'r dwyrain.

2 Symud Llanrhymni o Ogledd Caerdydd i Ganol Caerdydd. Nid yw'r ateb hwn yn un delfrydol, gan mai'r unig gysylltiad dros yr afon yw pont droed/pont feiciau, gan fod y brif ffordd yn mynd yn drwy ward gyfagos Tredelerch am fyr dro. Fodd bynnag, teimlwn erbyn hyn fod y manteision ychwanegol y mae hyn yn eu cynnig o ran hwyluso newidiadau mewn mannau eraill yn y rhanbarth yn gorbwyso'r ffaith nad oes llwybr i gerbydau.

3 Symud Pentyrch o Ogledd Caerdydd i Orllewin Caerdydd. Mae'r symudiad olaf yng Nghaerdydd yn caniatáu i Orllewin Caerdydd fodloni'r cwota unwaith eto ar ôl colli dwy ward i'r etholaeth gyfagos i'r gorllewin. Mae hefyd yn golygu bod ward Pentyrch yn yr un etholaeth â rhannau eraill o ward newydd Cyngor Caerdydd y mae'n ymuno â nhw ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2022. Mae hyn yn creu tair etholaeth sy'n bodloni'r cwota, fel a ganlyn: Gogledd Caerdydd (70,646), Gorllewin Caerdydd (71,743) a Chanol Caerdydd (73,872).

Newidiadau sy'n effeithio ar Ogwr a Rhondda a Phontypridd

Mae'r newidiadau yng Nghaerdydd yn cael effaith ganlyniadol amlwg ar y wardiau cyfagos. Felly, ar hyn o bryd, rydym yn cynnig tynnu Brynna a Llanharan o'r cynnig ar gyfer Gorllewin Caerdydd a'u hychwanegu at etholaeth Ogwr a Rhondda, ac yna symud ward Gilfach Goch o Ogwr a Rhondda i Bontypridd a Chynon Isaf, gan ddefnyddio'r afon fel ffin galed i sicrhau y caiff y cwota ei fodloni.

Mae'r cynnig hwn yn lleihau nifer y wardiau o ardal Cyngor Rhondda Cynon Taf y mae angen eu cynnwys yn sedd Gorllewin Caerdydd, wrth gadw craidd o bleidleiswyr sy'n llai tebygol o fod wedi'u datgysylltu oddi wrth weddill y sedd na'r un ward yng nghynigion y Comisiwn.


Mae hyn yn arwain at etholaethau diwygiedig, sef Ogwr a Rhondda (75,628) a Phontypridd a Chynon Isaf (75,853), y mae'r ddwy ohonynt yn bodloni'r cwota.

Mae rhywfaint o gefnogaeth i'r dull hwn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol. Dywed BCW-9091

"Fel preswilydd yn Llanhari, nid wyf yn teimlo ein bod yn rhannu'r un buddiannau â Rhondda, sef yr etholaeth y byddwn yn symud iddi, yn yr un ffordd ag y gwnawn â'r Fro, neu Orllewin Caerdydd, neu Bontypridd."

- ac mae BCW-9088 yn gefnogol hefyd**

"Cymeradwyaf ailddyrannu ardal Pont-y-clun a Meisgyn o Bontypridd i Orllewin Caerdydd"



Ffig. 4 Effaith y newidiadau arfaethedig yn ardal Pontypridd ac Ogwr/Rhondda

Ymateb i'r Gwrthgynigion

Gwnaed nifer o wrthgynigion Cymru gyfan yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf, a chyflwynwyd 5 ohonynt, gan gynnwys ein un ni, mewn gwrandawiadau. Nawr, ystyriwn y rhain ynghyd â'r ymatebion i sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf neu wrandawiadau sy'n herio ein cynigion.

Plaid Cymru a'r Blaid Werdd

Rwy'n ystyried y ddau gynnig hyn gyda'i gilydd, gan fod y sylwadau sy'n berthnasol i un ohonynt yn berthnasol i'r llall, i raddau helaeth, ond mewn perthynas â ffiniau ychydig yn wahanol. Rydym yn ymwybodol o'r Gwrandawiadau y bydd ymateb y Ceidwadwyr ar hyn o bryd yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r ddau gynnig o ran cydweddu ffiniau a chadw nifer yr etholwyr o fewn etholaethau sy'n debyg yn allanol.

Er ein bod yn cymeradwyo'r ddau gynnig am gyflwyno ymagwedd arloesol tuag at y broblem, gwelwn fod y ddau gynnig yn dibynnu ar wneud newidiadau sylweddol i'r sefyllfa bersonol a'u bod yn cynnwys nifer fwy na'r angen o etholaethau sy'n rhychwantu ffiniau awdurdodau lleol, byrddau iechyd a ffiniau rhanbarthol y Senedd. Gan mai rhan o'n nod fu lleihau'r rhain lle bynnag y bo hynny'n bosibl, does ond angen edrych ar y cynigion yn ardal Sir Fynwy i weld effaith niweidiol sylweddol yn berthynol i gynigion gwreiddiol y Comisiwn.

Llafur

Mae mwy o deilyngdod i gynigion y Blaid Lafur, ond cânt eu llesteirio gan eu methiant i fynd i'r afael â'r broblem yn Trowbridge (sy'n ddatgysylltiedig), sydd â goblygiadau sylweddol ar gyfer ei chynigion ledled de Cymru. Yn berthynol i'n cynigion ein hunain, byddem yn amlygu'r pryderon canlynol.

Yn Abertawe, collir cyfle i gysylltu cymuned Y Mwmbwls i gyd mewn un ward.

Yng Nghastell-nedd, caiff cyfle i gadw'r etholaeth hanesyddol ei wrthod o blaid sedd sydd cynnwys rhan sylweddol o etholaeth gyfredol Aberafan, ond nid yr etholaeth gyfan. Mae hyn yn cael effaith ôl-ddilynol, sef bod angen wardiau o Ben-y-bont, gan gynnwys Corneli a'r Pil, fel wardiau cyswllt, yr ydym yn cytuno â nhw, ond mae hefyd yn cynnwys gweddill ardal Porthcawl, ac nid ydym yn cytuno â hynny.

Yn y Fro, rydym yn anghytuno â'r cynlluniau ar gyfer Dinas Powys ac mae sawl amrywiad mewn mannau eraill yng Nghanol a De Morgannwg.

Rydym yn cytuno'n fwy ymhellach i'r dwyrain â'r cynigion ar gyfer Gorllewin Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, ond nid ydym yn cytuno o ran sut i rannu ardal Cyngor Caerffili.

Yng ngogledd Cymru, mae rhai cyffelybiaethau, ond mae cadw'r ffocws ar Faldwyn yn arwain at wahaniaethau sylweddol.

Y Ceidwadwyr

Er bod rhai ardaloedd lle ceir cytundeb, mae llawer o wahaniaethau sylfaenol hefyd, sef yn fwyaf nodedig y cynigion ar gyfer Aberhonddu a Maesymfed, yr edrychwn arnynt yn fanylach yn nes ymlaen. Gan anghofio am hynny am y tro, hoffem amlygu'r problemau canlynol â'r cynigion.

Yn Wrecsam, mae'r cynigion yn cynnwys Brymbo a'r Mwynglawdd, yr ydym yn cytuno â nhw; fodd bynnag, maent hefyd yn cynnwys Esclusham a rhan o ward Ponciau, nid ydym yn cytuno â nhw. Er fy mod yn cydnabod bod yr ymraniad hwn wedi'i fabwysiadu mewn arolwg blaenorol, gwnaed hynny o angenrheidrwydd ac nid yw'r canllawiau'n annog yr arfer hwn, yn enwedig os oes cynlluniau ar gael nad ydynt yn mynnu camau gweithredu tebyg.

Ym Mro Morgannwg, rydym yn cytuno a hefyd yn croesawu'r syniad yng Ngorllewin Abertawe o roi'r Mwmbwls mewn un etholaeth. Fodd bynnag, caiff hynny ei gyflawni drwy wahanu campws y Brifysgol yn Sgeti oddi wrth y fflatiau un ystafell helaeth i fyfyrwyr yn Uplands a'r Castell a chreu ffin sy'n rhannu dalgylch Ysgol Uwchradd yr Esgob Gore a'r cymunedau sy'n mynychu'r eglwys a'r mosg lleol, felly rydym yn cynnig ateb gwahanol ar gyfer yr ardal hon.

Yn yr un modd, mae sedd Canol a Gogledd Abertawe yn colli'r cyfle i gysylltu wardiau Cwmbwrla a Chocyd, y mae eu ffin gyffredin yn mynd drwy ganol ystâd fawr o dai.

Yng Nghwm Cynon, rydym yn cytuno ynghylch wardiau Aberaman, ond byddem yn atgyfnerthu'r ardal hon ymhellach ac yn gadael Ffynnon Taf gyda Chaerdydd.

Rydym yn ymdrin â Chaerffili mewn ffordd wahanol hefyd, er ein bod yn cytuno â'r 4 etholaeth yn nwyrain pellaf yr ardal .

Mae yna wahaniaethau sylweddol yn y ffordd rydym yn edrych ar weddill gogledd-ddwyrain Cymru, wedi'u sbarduno gan y ffyrdd gwahanol rydym yn ymdrin â Phowys. O ystyried bod hyn yn faen clo sylfaenol y mae nifer o'r penderfyniadau eraill wedi'u seilio arno, edrychwn yn agos nawr ar y materion yn ymwneud â mynd tua'r gogledd neu'r de.

Aberhonddu a Maesyfed

Craidd y broses gyfan o ailfodelu'r etholaethau yng Nghymru yw a ydych chi'n symud Aberhonddu a Maesyfed tua'r gogledd neu'r de ac, os i'r, de, ymhle? Mae 4 opsiwn, sef i Gaerfyrddin, Castell-nedd, Merthyr/Aberdâr neu Sir Fynwy. Mae Sir Gaerfyrddin yn mynnu croesi gwahanfa ddŵr neu fynd drwy gyfres o bentrefi arunig lle nad oes unrhyw gysylltiadau na chydlynad cymunedol nac unrhyw hanes seneddol, felly gellir ei diystyru. Mae gan Sir Fynwy atynfeydd, yn enwedig adfer cymunedau a gadawodd yn y 1980au; fodd bynnag, mae ardal y cyngor o faint y gellir ei ddefnyddio i greu'r etholaeth a chynghor cyfagos sy'n rhannu ffin â'r etholaeth seneddol, a dylid ei mabwysiadu. Mae gan Ferthyr ac Aberdâr rai cysylltiadau. Mae'r llwybr newydd ar gyfer gofal iechyd brys ar gyfer y rhan fwyaf o dde-ddwyrain Powys i Ysbyty'r Tywysog Siarl erbyn hyn ers i Ysbyty Neville Hall gael ei israddio, ond nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol ac mae copa'r A470, sydd dros 400m, yn gwahanu'r ardal oddi wrth y rhan fwyaf o'r etholaeth, felly mae hyn yn gadael Castell-nedd fel yr unig gynnyg realistig sy'n bodloni'r canllawiau.

Mae hyn yn gadael dewis rhwng ychwanegu wardiau'r a gynigir gan y Comisiwn neu ychwanegu nifer o wardiau o Sir Drefaldwyn.

Yn y cynigion cychwynnol, crybwyllodd y Comisiwn fod cyffelybiaethau a chysylltiadau trawsffiniol rhwng Ystalyfera ac Ystradgynlais. Amlygwyd hyn ymhellach gan y Blaid Geidwadol, gan nod y byddai hyn yn cynyddu canran cyfanswm poblogaeth yr etholaeth o'r ardal hon o 12% i 33%. Yn ei chyflwyniadau, mae hefyd yn cyfuno ardaloedd ehangach Ystradgynlais â'r dref, ond nid yw'n cydnabod bod yr ardal yn cynnwys nifer o aneddiadau llai sydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal, yn hytrach nag un hunaniaeth gyfunol fel Aberhonddu. Mae'r AS lleol, Fay Jones, yn dadlau ymhellach fod cysylltiadau cymunedol cryf ymhellach i'r gogledd â theuluoedd yn ardal Pontsenni, gan fod llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn Ystalyfera. Roedd ei datganiad yn y gwrandawiau'n awgrymu y byddai'n braf ei chynnwys yn yr etholaeth; fodd bynnag, gan fod addysg yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac y byddai newid etholaeth yn golygu y byddai'n cael ei chynnal gan Gastell-nedd Port Talbot o hyd, nid oes llawer o deilyngdod i'r ddadl hon. Yr hyn sy'n fwy syfrdanol yw'r ffaith ei bod yn honni y byddai'r newid hwn yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr etholaeth. Mae hyn yn ffeithiol gywir, ond yng nghyd-destun ehangach yr etholaeth, gellir dweud bod hyn yn newid cyfansoddiad yr etholaeth yn ei chyfanrwydd hefyd, a fyddai'n groes i nodau'r arolwg. Mae llawer o sôn hefyd am y cysylltiadau â phrosiectau sy'n cael eu datblygu; fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu datblygu o hyd ac, er y gobeithiwn y byddant yn dod i'r amlwg, nid ydynt yn bodoli hyd yn hyn ac, yn yr un modd â nifer yr etholwyr, mae seilio cynllunio ar yr hyn a allai ddigwydd yn risg.

Os edrychwn yn gyntaf ar yr honiadau yn ymwneud ag addysg, cyhoeddodd Powys ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn ddiweddar, sy'n cynnwys data ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ynghyd â dadansoddiad o nifer y disgyblion ym Mhontsenni fel rhan o achos amlinellol strategol i adeiladu ysgol newydd ar y safle. Mae ffigurau CYBLD

2021 yn dangos bod 56 o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg a 79 yn y ffrwd Saesneg, felly hyd yn oed pe byddai pob un o'r rhain yn mynd i Ystalyfera a dim un ohonynt yn ymuno â'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu, mae'r awgrym bod cysylltiadau cryf oherwydd hynny yn anodd ei dderbyn yn erbyn y ffaith bod y Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol wedi'i leoli yn yr etholaeth ac yna'r sir ar gyfer cystadlaethau, a bod clybiau pêl-droed a rygbi iau i gyd yn cysylltu ag ardaloedd i'r gogledd a'r dwyrain. Yn wir, ni throsglwyddodd unrhyw ddisgyblion o gwbl y llynedd.

Yr ail fater y mae angen mynd i'r afael ag ef yw cysylltiadau gweinyddol yr ardal. Mae Aberhonddu a Maesyfed i gyd yn ardal Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Rhanbarth Etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Senedd, ardal Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn golygu bod gan AS ar gyfer yr ardal hon y fantais o ryngweithio ag un set o gysylltiadau yn unig ym mhob gwasanaeth. Pe byddai'r ffiniau'n cael eu hymestyn i'r gogledd, byddai'r un peth yn wir. Pe byddai cynlluniau'r Comisiwn yn cael eu mabwysiadu, byddai angen creu cysylltiadau ychwanegol ar gyfer pob un heblaw'r Gwasanaeth Tân. Cydnabuwyd y pwyntiau hyn gan Gyngor Tref Pontardawe BCW-9624 a Phlaid Lafur Etholaeth Castell-nedd BCW-9870 hefyd.

Nid yw'r cynigion yn cael eu croesawu'n gyffredinol ac mae dros 20 o ymatebion yn amlygu gwahaniaethau, gan gynnwys Cyngor Tref Pontardawe, Plaid Lafur Etholaeth Castell-nedd, y Cyngorydd Arwyn Woolcock, o leiaf 25 o gyflwyniadau eraill, Plaid Cymru, Y Blaid Werdd BCW-9942

"Byddai'r cynigion yn torri pob cysylltiad hirsefydlog gyda chymunedau eraill y cymoedd yng Nghastell-nedd. Mae cymunedau'r cymoedd yn rhannu hanes o ffyrdd tebyg o fyw, cysylltiadau diwylliannol, treftadaeth ddiwylliannol a thraddodiadau. Mae treftadaeth ddiwydiannol a diwylliant Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn gwbl wahanol i sylfaen amaethyddol wledig etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed"


BCW 9593

Y dref fawr agosaf atom ni yw Castell-nedd ac rydym yn agos at Abertawe, sy'n golygu bod gennym gysylltiadau lleol â'r ardaloedd hynny, ac nid oes gan y rhan fwyaf ohonom fawr ddim cysylltiadau, os o gwbl, ag ardal Brycheiniog a Maesyfed. Rydym wedi ein gwahanu oddi wrth y rhan fwyaf ohoni gan bellteroedd mawr, fel y dywedwyd eisoes mi gymer dros awr i gyrraedd cymhorthfa ein AS newydd.

BCW-9593

Y dref fawr agosaf atom ni yw Castell-nedd ac rydym yn agos at Abertawe, sy'n golygu bod gennym gysylltiadau lleol â'r ardaloedd hynny, ac nid oes gan y rhan fwyaf ohonom fawr ddim cysylltiadau, os o gwbl, ag ardal Brycheiniog a Maesyfed.

Mae nifer o'r sylwadau hyn yn sôn am y pellteroedd sydd ynghlwm â'r anhwylustod ar y ffyrdd yn yr etholaeth gyfredol. Mae'r lleoedd mwyaf anghysbell 72 milltir oddi wrth ei gilydd mewn car; mae hyn yn cynyddu 5 milltir â chynigion y Comisiwn a 12 milltir â chynigion y Democratiaid Rhyddfrydol. Fodd bynnag, ar drafnidiaeth gyhoeddus, byddai gan bob rhan o'r ardal newydd i'r de fynediad uniongyrchol at Ystradgynlais ar fws, ond byddai angen newid yno i fynd ymhellach i'r etholaeth ac eto yn Aberhonddu. I'r gwrthwyneb, mae gan Llanidloes a'r Drennewydd, sef y ddwy brif dref ychwanegol i'r gogledd, wasanaeth uniongyrchol i Landrindod ac, ar gyfer y Drennewydd, mae hyn yn ymestyn i'r de i Lanfair-ym-muallt, Aberhonddu a thros Fannau Brycheiniog i Gaerdydd.



Ffig. 5 Mynediad ar fws i Aberhonddu a Maesyfed o'r gogledd a'r de heb orfod newid. Terfynol

Yn hyn o beth, mae cynigion y Comisiwn yn methu'r nod mewn perthynas ag Atodlen Dau 5 b, ch a d.

Y dewis arall yw symud tua'r gogledd. Gan fod y Comisiwn eisoes yn cynnig croesi'r holl ffiniau llywodraethu, fel y nodwyd yn y drafodaeth gynharach am ardal Castell-nedd yn y cynigion a amlinellwyd eisoes, ni fyddai'r wardiau ychwanegol sy'n cael eu hychwanegu gan y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gydymffurfiaid i'r gogledd. Felly, mae hyn yn golygu bod gwelliant uniongyrchol mewn perthynas â 5b a 5d. O ran 5c, mae'r cynnig hwn yn cyfnewid cadw Sir Drefaldwyn am Gastell-nedd, felly mae'n niwtral, ond mae hefyd yn hwyluso cadw Aberafan yn ei chyfanrwydd, sy'n golygu bod gwelliant yn y cyd-destun ehangach yma hefyd.

Mae hyn yn ein gadael â chysylltiadau lleol. Yn wir, mae'r ganolfan iechyd newydd yn gwasanaethu wardiau i'r gogledd o'r Drenwydd, ond bydd yn dal i wneud hynny beth bynnag fo canlyniad y newid hwn ac nid yw'r newid yn effeithio arni. Fodd bynnag, mae buddion sylweddol o ran yr agweddau addysgol ac mae hyn yn canolbwyntio ar Ysgol Uwchradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd y Drenwydd.

Fel y gwelir isod, mae dalgylchedd y ddwy ysgol hyn yn cynnwys rhannau sylweddol o Aberhondda a Maesdyfed, felly byddai symud y wardiau hyn i un etholaeth yn darparu cynrychiolaeth fwy cyson i rieni. O ran Llanidloes, mae'r dalgylch yn ymestyn i'r de drwy Bant-y-dŵr, Llanarmon a Rhaeadr Gwy. Ar gyfer Y Drenwydd, mae'r dalgylch hanesyddol i gyd wedi'i gynnwys yn yr ysgol, gan gynnwys trefi gweddol fawr Trefyclo a Llanandras yn Sir Faesdyfed a dyffryn Tefeidiad i gyd.




Fig. 6 Dalgylchoedd ysgol cyffredinol yn nghanolbarth Powys

Ar ben hynny, yn wahanol i'r ardaloedd i'r de lle mae cysylltiadau cryf â phêl-droed a rygbi ar lefel iawn hefyd rhwng y trefi hyn ac mor bell i'r de ag Aberhonddu, ac er bod y Clwb Ffermwyr Ifanc yn gweithio ar lefel Sir Drefaldwyn i ddechrau, maent yn arwain at gystadlaethau ar lefel Powys yn y pen draw, yn yr un modd â chystadlaethau'r Urdd.

O ran y rhwydwaith cymdeithasol ehangach, mae'r gadwyn carnifalau'n canolbwyntio'n fawr ar y trefi'r naill ochr a'r llall i ffin Sir Drefaldwyn ac mae lleoliadau'r celfyddydau (Theatr Hafren yn y Drenewydd, Pafiliwn Canolbarth Cymru yn Llandrindod a Lost Arc yn Rhaeadr Gwy) yn denu cynulleidfaoedd y ddwy ochr i'r ffin.

Felly, unwaith eto, o gymharu â'r ardal i'r de, mae cysylltiadau diwylliannol sylweddol sy'n ymestyn yn sylweddol i ran ganolog Aberhonddu a Maesymfed mewn modd nad ydynt o ardal Pontardawe, sy'n edrych tuag Abertawe a Chastell-nedd am adloniant diwylliannol, yn hytrach nag Aberhonddu. Mae hyn yn arwain at welliant ar sail 5 ch.

Felly, i gloi, ymhell o fod yr opsiwn lleiaf gwael fel y mynegwyd gan un o'r cyfranwyr, mae'r cynnig i greu cysylltiadau â'r de yn hytrach na'r gogledd yn sylweddol waeth o ran cyfleoedd diwylliannol, ffiniau gweinyddol, mynediad ar drafndiaeth gyhoeddus, gallu'r AS i feithrin perthnasoedd a hunaniaeth gymunedol.

Pryderon a fynegwyd yn ystod y rownd ymgynghori gyntaf y mae cynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn mynd i'r afael â nhw

Ar ôl ystyried y gwrthgynigion ac esbonio'r sail ar gyfer canolbwyntio'r model data ar ddull lle mae Aberhonddu a Maesyfed yn edrych tua'r gogledd yn hytrach na'r de, fel y cynigiwyd gan y Comisiwn, mae'n werth ystyried a yw'r dull hwn yn addas ar gyfer pryderon eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf hefyd. Felly, mae'r adran hon yn amlygu enghreifftiau cynrychioliadol o le mae cynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Bro Morgannwg

BCW-9019

"Fel un o drigolion Dinas Powys, Bro Morgannwg, rwy'n bryderus iawn y bydd y ffin newydd yn gosod yr ardal hon yng Nghaerdydd."

BCW-9930 Alun Cairns AS a BCW-9960 Y Cynghorydd Stephen Griffiths

Sylwadau yn erbyn tynnu Dinas Powys o Fro Morgannwg.

Caiff y newid hwn ei wydroi yng nghynigion y Democratiaid Rhyddfrydol

Nid yw Llanhari'n rhan o'r Rhondda

Dywed BCW-9091

"Fel preswlydd yn Llanhari, nid wyf yn teimlo ein bod yn rhannu'r un buddiannau â Rhondda, sef yr etholaeth y byddwn yn symud iddi, yn yr un ffordd ag y gwnawn â'r Fro, neu Orllewin Caerdydd, neu Bontypridd."

BCW-9088

"Cymeradwyaf ailddyrrannu ardal Pont-y-clun a Meisgyn o Bontypridd i Orllewin Caerdydd"

Caiff y pryder hwn ei ddatrys drwy gynnwys ward Llanhari yn etholaeth ddiwygiedig Gorllewin Caerdydd fel rhan o'r cynigion hyn, a fyddai'n cryfhau cydlynad y cynnig gwreiddiol, fel y cefnogir gan 9088.

Caerffili

BCW-8916

"Nid wyf am i Faesycwmer ddychwelyd i etholaeth Islwyn"

BCW-9143

"Hoffwn wrthwynebu'r etholaethau newydd arfaethedig. Rydych chi rywsut wedi llwyddo i rannu Cwm Rhymni – sef ardal sy'n ymestyn dros tua 15 milltir – rhwng pedair etholaeth ar wahân."

BCW-10057 / Colin Mann

"Rwy'n cynrychioli Llanbradach fel cynghorydd sir. Rwy'n gwrthwynebu'r bwriad i wahanu fy ward oddi wrth weddill ardal basn Caerffili, y mae gan y ward gysylltiad naturiol â hi."

BCW-10065

"Ward Ffos y Gerddinen ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw'r unig ward yng Nghaerffili i'w dyrannu i etholaeth seneddol arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr. Mae hyn yn torri'r cysylltiadau lleol â phob ward arall yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili."

BCW-9934

"Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafniadaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd."

Mae'r holl bryderon hyn yn deillio o'r dewis i ganolbwyntio ar etholaeth Islwyn yn hytrach nag etholaeth Caerffili fel craidd etholaeth yn yr ardal hon. Trwy ganolbwyntio ar Gaerffili, credwn ei fod yn bosibl mynd i'r afael â'r broblem lle mae Ffos y Gerddinen yn amddifad a lluo o broblemau eraill ymhellach i'r gorllewin. Rydym wedi gwrandao ar awgrymiadau bod y cysylltiadau rhwng Caerffili a Chasnewydd yn gryfach, ond mae edrych ar lun o'r awyr yn dangos bod cysylltiadau llawer agosach rhwng gogledd Casnewydd a'r cwm islaw Rhisga, sy'n golygu bod y cysylltiad rhwng Islwyn a Chasnewydd yn fwy cynaliadwy o lawer. Yn benodol, mae'n werth nodi bod cynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn lled debyg i'r rhain a gyflwynwyd gan Wayne David AS BCW 9929.

Yr ymraniad rhwng Cynon Uchaf/Isaf

BCW-8991

"Mae'n siŵr fod pwy bynnag a luniodd y cynlluniau hyn wedi methu ag ymweld â'r ardal..sut gellir uno pentrefi Cwmaman ac Aberaman â Phontypridd?? Mae'n cymryd ddwywaith mor hir i yrru i Bontypridd nag i Ferthyr i ddechrau...neu 2 fws yn hytrach nag 1 bws. Mae'r cynnig hwn yn dinistrio Cwm Cynon yn llwyr"

BCW-9272

"Pam nad yw Aberaman, Cwmaman a Godreaman yn cael eu cynnwys yn Aberdâr? Rydym yn draddodiadol o'r ardal honno. Nid wyf yn cytuno y dylai'r ffin ein cau allan o'n tref draddodiadol. Yn Abercwmboi y bu'r ffin erioed, yn rhannu Aberdâr ac Aberpennar, ac yr wyf yn teimlo mai felly y dylai aros."

Mae'r sylwadau hyn yn arwydd o nifer sylweddol o sylwadau tebyg sy'n gofyn am ychwanegu'r wardiau o'r de i Aberdâr yn etholaeth Merthyr, y gellir ei hwyluso drwy ein newidiadau yn ardal Caerffili sy'n golygu y caiff ward Ffos y Gerddinen ei symud o etholaeth Merthyr.

Cadw ffocws ar Ben-y-bont ar Ogwr

BCW-8925

"Mae'n HOLLLOL HURT cynnwys Porthcawl, Y Pîl, Mynydd Cynffig ac ati gydag Aberafan. Nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol na chymdeithasol, dylai'r ffiniau aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan mai dyna lle mae'r cysylltiadau."

BCW-8961

"Nid wyf yn cytuno â symud Broadlands a Threlales i etholaeth Aberafan, yn hytrach na Phen-y-bont. Byddai hanner ystâd Broadlands ym Mhen-y-bont, a'r hanner arall yn Aberafan. Am hurt!"

BCW-8989

"Yn y cynigion, byddwn i'n dod yn rhan o etholaeth Porthcawl ac Aberafan. Mae fy nghyfeiriad 1 filltir yn llythrennol o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ond dros 5 milltir o Borthcawl (ac ymhellach o Aberafan)."

Mae'r rhain yn gynrychioliadol o nifer y sylwadau sy'n gwrthwynebu rhannu rhan arfordirol Pen-y-bont ar Ogwr oddi wrth y ganolfan drefol. Mae ein cynigion yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn llawn.

Cyfuno'r trefi yn ne Clwyd mewn sedd â ffocws gwledig

BCW-8943

"Dylai Ponciau, Pen-y-cae, Acrefair, Rhosllannerchrugog a Rhiwabon i gyd fod yn yr un etholaeth."

BCW-9202

"Rwy'n byw ym Mhonciau, ger Wrecsam, ac mae'n wir iawn bod cymunedau Johnstown, Ponciau, Rhos a Phen-y-cae yn gweithredu fel un gymuned."

BCW-8858

"Mae Rhuthun yn Nyffryn Clwyd ac mae wedi'i chysylltu â gweddill y dyffryn yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol. Mae wedi'i gwahanu oddi wrth y cymunedau i'r dwyrain gan Fryniau Clwyd."

BCW-8890

"Rydym (Rhuthun) yn dref wledig ac mae ein demograffeg a'n blaenoriaethau'n debycach i leoedd fel Dinbych, Llangollen a Chorwen; mae'n rhaid ei fod yn gwneud mwy o synnwyr cael ein cynrychioli yn yr un etholaeth â'r rhain?"

Sampl yn unig yw'r rhain o'r sylwadau sy'n ceisio sicrhau y caiff nodweddion gwledig trefi yn ardal gyfredol De Clwyd eu cadw mewn etholaeth gyffelyb. Trwy symud Aberhonddu a Maesdyfed tua'r gogledd, mae'n bosibl cyflawni hyn drwy roi'r trefi hyn mewn sedd newydd â rhannau gogleddol Sir Drefaldwyn.

Cadw seddi Cyngor Wrecsam gyda'i gilydd yn y gogledd

BCW-9975/ Paul Rogers/

"Fel Cyngorydd Sir rwy'n teimlo y byddai rhannu ardal y Cyngor Sir rhwng tair etholaeth yn peri dryswch i'r etholwyr. Fy nghynnig i yw y dylai wardiau Brymbo a'r Mwynglawdd gael eu symud o Etholaeth newydd arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy a'u gosod yn Wrecsam. Dyma farn unfrydol Cynghorwyr Cymuned sy'n cynrychioli Brymbo ac anogwn y Comisiwn i ystyried ein sylwadau."

BCW-8870 / BCW-8882

Fel yr uchod, ond sylw personol.

Gwnaethom y newid hwn am resymau tebyg.

Abertawe

BCW-9957

"Mae wardiau Sgeti, Uplands a'r Castell yn cynnwys poblogaethau Mwslimaidd sylweddol a bydd y Mosg Canolog, y Mosg Shia a'r Ganolfan Gymunedol Islamaidd newydd o fewn yr ardal hon yn Sgeti. Hyd yn hyn, cynrychiolir y gymuned Fwslimaidd gan un Aelod Seneddol ac Aelod o'r Senedd. Mae'r wardiau hyn hefyd yn cynnwys grwpiau lleiafrifol sylweddol a byddai'n drueni i'w hollti'n ddwy etholaeth wahanol."

Trwy greu ymraniad rhwng y gogledd a'r de i'r gorllewin o'r afon, gellir mynd i'r afael â'r sylw hwn a llawer o sylwadau tebyg.

Integreiddio Pentir â gweddill Bangor

BCW-8866

"Rwy'n byw ym Mangor ac ni allaf weld unrhyw gyfiawnhad dros rannu'r ddinas yn ei hanner."

BCW-8883

"Ni ellir mo'i ddychmygu y bydd dinas Bangor yn cael ei gwahanu'n ddwy etholaeth ar wahân. Dylai'r ddinas, gan gynnwys Penrhosgarnedd, fod ag un AS. Byddai ei rhannu'n golygu dau AS yn cynrychioli'r un ddinas, gan arwain at ddryswch a dyblygu diangen."

Mae'r ddau sylw hyn yn cynrychioli nifer fawr o ymatebion sy'n amlygu'r un anomaledd yng nghynlluniau'r Comisiwn ag y gwnaethon ni ac yr ydym wedi'i ddatrys.

Cadw'r cysylltiadau rhwng Uwchaled, Llansannan a Llangernyw

BCW-9010

"Mae yna gysylltiad oes rhwng Uwchaled (Llangwm), Bro Aled (Llansannan) a Bro Cernyw (Llangernyw). Mae'n gysylltiad hanesyddol, amaethyddol, daearyddol, ieithyddol a diwylliannol.

Caiff y cysylltiad hwn ei gynnal yng nghynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Casgliadau

Mae'r ddogfen hon, ynghyd â'r cynnig gwreiddiol, yn cynnig gwrthgynnig ystyriol i'r un a gyflwynwyd gan y Comisiwn. Fel yr amlinellir uchod, mae'n mynd i'r afael â nifer o'r materion a godwyd gan nifer o aelodau'r cyhoedd sydd â phryderon ynghylch y problemau lleol y mae cynigion y Comisiwn yn eu creu.

Mae hefyd yn nodi'n fanwl y sail resymegol ynglŷn â pham y mae datblygu dull ar gyfer Aberhonddu a Maesdyfed sy'n edrych tua'r gogledd yn sylfaen well ar gyfer datblygu cynigion ar gyfer Cymru gyfan, yn hytrach na'r opsiwn sy'n edrych tua'r de a ddatblygwyd gan y Comisiwn.

Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Tŷ Hastings,
Llys Fitzalan,
Caerdydd,
CF24 0BL

17.03.2022.

Annwyl Gadeirydd,

Par: Aberafan Porthcawl

Ysgrifennaf i ddatgan fy nghefnogaeth i'r bwriad i uno etholaeth Aberafan gyda Phorthcawl gan greu Aberafan Porthcawl.

Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae'r ardaloedd newydd a ychwanegir (sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth Pen-y-bont) yn debyg iawn i ardaloedd yn Aberafan; er enghraifft, mae Aberafan a Phorthcawl yn drefi glan môr.

Yn ail, rwy'n credu bod yr etholaeth arfaethedig newydd yn ystyried y cysylltiadau hanesyddol a thrafnidiaeth sydd wrth galon y cymunedau yn Aberafan. Yn yr un modd, mae'n parchu'r cysylltiadau rhwng Port Talbot a Chwm Afan.

Nid wyf yn credu y byddai'r gwrthgynnig- lle byddai ardaloedd o Ogwr yn uno ag Aberafan- yn gweithio oherwydd y cysylltiadau trafndiaeth gwael.

Rwy'n credu y dylai'r etholaeth newydd fod yn Aberafan Porthcawl am y rhesymau a amlinellir uchod. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y newid yn unol â'r rheolau y mae'n rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ddilyn.

Yr eiddoch yn gywir,

